Llywodraeth Cymru
Welsh Government






# Y Cynllun Rheoli Cynaliadwy






## Cydweithio â natur i sicrhau dyfodol cynaliadwy

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig:
Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development:
Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cynnwys

**Y Cynllun Rheoli Cynaliadwy (SMS)** 3

**Deddf yr Amgylchedd Cymru 2016** 4

**Atebion ar Sail Natur** 6

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru 2015** 8

**Canlyniadau Prosiect** 9

llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-11/rheoli-adnoddau-naturiol-yn-gynaliadwy-canllaw.pdf

www.legislation.gov.uk

llyw.cymru/cynllun-rheoli-cynaliadwy-map-phrosiectau-ddewisir

businesswales.gov.wales/walesruralnetwork/SMSprojectsmap

businesswales.gov.wales/walesruralnetwork/cy/rhestr-prosiectau

OGL © Hawlfraint y Goron 2024, Llywodraeth Cymru, WG50378, ISBN digidol 978-1-83625-566-6
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg



# Y Cynllun Rheoli Cynaliadwy (SMS)

Mae'r Cynllun Rheoli Cynaliadwy (SMS) yn cael ei gyflwyno gan Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014–2020, sy'n cael ei ariannu gan Gronfa Amaethyddiaeth Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru. Mae'r cynllun hwn yn cefnogi gweithredu uniongyrchol i reoli adnoddau naturiol ledled Cymru gan gyflawni yn erbyn y dull gweithredu a'r egwyddorion sydd yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.


Mae'r SMS yn gofyn am gydweithio yn hytrach nag ymgeiswyr unigol i ddatblygu cynigion ar gyfer prosiectau i'w cyflwyno dros gyfnod o ddwy i dair blynedd ar y mwyaf. Diben y SMS yw cefnogi prosiectau cydweithredol ar raddfa tirwedd sy'n darparu atebion ar sail natur i wella cadernid ein hadnoddau naturiol a'n hecosystemau mewn ffordd sy'n sicrhau manteision i fusnesau fferm ac iechyd a llesiant cymunedau gwledig hefyd. Mae prosiectau SMS yn cymryd camau i wella bioamrywiaeth; gwella seilwaith gwyrdd; cynnal rheolaeth well o dir a dŵr ac, yn bwysig, hwyluso addasu i'r newid yn yr hinsawdd a lliniaru effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ar raddfa tirwedd.

Mae prosiectau cydweithredol SMS yn cynnwys perchenogion tir, ffermwyr a phorwyr sydd wedi gweld y manteision sy'n gallu deillio o gydweithio a chael eu hysbrydoli i weithio gyda dulliau newydd a thraddodiadol.


Mae prosiectau'n cynnwys partneriaethau a chydweithio ar lefel leol ac ar raddfa tirwedd sy'n cynnig atebion ar sail natur i fynd i'r afael â'r dirywiad mewn bioamrywiaeth ac i wella cadernid ein hecosystemau.

Mae galluogi cydweithredu ar y raddfa gywir (boed hynny ar raddfa safle, tirwedd dalgylch, ecosystem neu'n rhanbarthol) a'r lleoliadau cywir yn hanfodol i fynd i'r afael â phroblemau a sicrhau'r manteision mwyaf posibl.

Nod yr SMS yw bodloni Maes Ffocws 4 y Rhaglen Datblygu Gwledig: Adfer, cadw a gwella ecosystemau sy'n dibynnu ar amaethyddiaeth a choedwigaeth drwy:



**Adfer a chadw bioamrywiaeth, gan gynnwys ardaloedd Natura 2000 a ffermio â gwerth natur uchel, a chyflwr tirweddau Ewropeaidd,**



**Gwella'r rheolaeth ar ddŵr,**



**Gwella'r rheolaeth ar bridd,**



**Dal a storio carbon mewn amaethyddiaeth a choedwigaeth.**

Rhwng nawr a diwedd y cyfnod cyflawni, Mehefin 2023, rydym yn disgwyl gweld ac wedi gweld camau gweithredu yn cyfrannu at ganlyniadau clir iawn;

- **Cynnydd mewn dal a storio carbon,**
- **Cynyddu bioamrywiaeth,**
- **Rheoli perygl llifogydd trwy ddulliau naturiol yn well,**
- **Iechyd pridd ac ansawdd dŵr gwell i gyd drwy'r prosiectau rheoli dalgylch cydweithredol hyn ar raddfa tirwedd.**

Gobeithiwn hefyd weld cynnydd mewn plannu coed a'n coetiroedd presennol yn cael eu rheoli er mwyn cefnogi'r ymrwymiadau i'r goedwig genedlaethol. Mae'r holl gamau gweithredu yn cyfrannu at yr angen ehangach i Addasu i'r Newid yn yr Hinsawdd ac i wella Cadernid Ecosystemau drwy reoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy.

Yn ogystal â'r canlyniadau hyn rydym yn gweld canlyniadau ar gyfer datblygu sgiliau, creu swyddi a chadw sgiliau gwledig, treftadaeth a'r Gymraeg hefyd. Mae nifer o'r prosiectau yn ystyried ac yn canolbwyntio erbyn hyn ar fanteision iechyd a llesiant y gwaith y maent yn ei wneud, gan gefnogi cydlyniant cymunedol a datblygiadau lleol a arweinir gan y gymuned.



# Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Datblygu cynaliadwyedd: mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a'r dirywiad mewn bioamrywiaeth drwy ran 1 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) a'r Polisi Adnoddau Naturiol.

Mae Rhan 1 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) yn nodi 'rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy' – dull o reoli adnoddau naturiol ac ecosystemau Cymru er mwyn sicrhau bod y manteision y maent yn eu darparu ar gyfer ein llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ar gael yn awr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Rydym yn mabwysiadu'r dull hwn oherwydd

- **Mae'n arfer gorau rhyngwladol ar gyfer mynd i'r afael â'r dirywiad mewn bioamrywiaeth. Mae'n ymwneud â gweithredu ar draws y dirwedd gyfan i adeiladu ar ein rhwydwaith o safleoedd gwarchodedig a'n rhywogaethau a warchodir. Mae'n cefnogi gweithredu ar y bygythiadau i fioamrywiaeth hefyd.**
- **Mae'n elfen allweddol yn ein hymateb i fynd i'r afael â'r risg hinsawdd, gan ategu ein hatebion technolegol. Mae ecosystemau iach a gwydn yn helpu i ddal a storio carbon ac yn chwarae rhan hanfodol mewn addasu.**
- **O'u rheoli'n gynaliadwy, gall adnoddau naturiol ac ecosystemau sicrhau amrywiaeth eang o fanteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol, gan gyfrannu at y nodau llesiant.**
- **Mae'n galluogi'r newid systemig, trawsnewidiol sydd ei angen i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd, y dirywiad mewn bioamrywiaeth a galluogi Cymru i ddatblygu'n gynaliadwy.**

Ategir y Cynllun Rheoli Cynaliadwy gan yr egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn gynaliadwy a nodir yn rhan 1 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

**Rheoli mewn modd ymaddasol, drwy gynllunio, monitro, adolygu a phan fo hynny'n briodol, newid gweithredoedd**

---

**Ystyried y raddfa ofodol briodol ar gyfer gweithredu**

---

**Hyrwyddo cydweithio a chydweithredu, a chyfranogi ynddynt**

---

**Gwneud trefniadau priodol i'r cyhoedd gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau**

---

**Ystyried yr holl dystiolaeth berthnasol a chasglu tystiolaeth mewn perthynas â materion y ceir ansicrwydd yn eu cylch**

---

**Ystyried manteision a gwerth cynhenid adnoddau naturiol ac ecosystemau**

---

**Ystyried effeithiau tymor byr, tymor canolig a hirdymor gweithredoedd**

---

**Cymryd camau i atal niwed arwyddocaol i ecosystemau**

---

**Ystyried cadernid ecosystemau, ac yn benodol yr agweddau a ganlyn:**

- **amrywiaeth rhwng ecosystemau ac oddi fewn iddynt**
- **y cysylltiadau rhwng ecosystemau ac oddi fewn iddynt**
- **graddfa ecosystemau**
- **cyflwr ecosystemau (gan gynnwys eu strwythur a'u gweithrediad)**
- **gallu ecosystemau i addasu**

# Y Polisi Adnoddau Naturiol

## Atebion ar sail natur


Un o flaenoriaethau'r polisi Adnoddau Naturiol yw darparu atebion ar sail natur Mae prosiectau SMS yn darparu'r atebion ar sail natur sydd wedi'u blaenoriaethu ac yn defnyddio dull sy'n seiliedig ar leoedd i'w cyflwyno.

Mae atebion ar sail natur yn defnyddio natur a phrosesau naturiol i fynd i'r afael â'n heriau mawr:


- **Yr argyfwng hinsawdd a'r dirywiad mewn bioamrywiaeth.**
- **Problemau iechyd y cyhoedd fel ansawdd aer a chefnogi ein hiechyd corfforol a meddyliol.**
- **Maent yn rhan hanfodol o'n seilwaith cenedlaethol hefyd, gan ddarparu manteision lluosog ac atebion costeffeithiol i broblemau fel llifogydd ac ansawdd a chyflenwad dŵr.**
- **Cefnogi adfywio, mewnfuddsoddi a chymunedau lleol bywiog.**

Mae'r mathau canlynol o atebion ar sail natur wedi'u blaenoriaethu gan eu bod yn cael yr effaith fwyaf ar Gymru:

- **Seilwaith gwyrdd trefol**
- **Rheoli llifogydd yn naturiol a dulliau gweithredu ar sail dalgylchoedd**
- **Adfer yr ucheldir ar gyfer amrywiaeth o fanteision**
- **Rhwydweithiau ecolegol cadarn a**
- **Rôl coedwigaeth a choetiroedd wrth ddarparu amrywiaeth o fanteision.**



**Cefnogi datblygiad rhwydweithiau ecolegol cryf er mwyn cynnal a gwella cadernid ecosystemau Cymru.**




**Cefnogi addasu a lliniaru effeithiau'r newid yn yr hinsawdd, a rheoli risg llifogydd.**



**Galluogi cydweithredu ar y raddfa gywir (boed hynny ar raddfa safle, tirwedd dalgylch, ecosystem neu'n rhanbarthol).**



**Rheoli pridd ar gyfer dal a storio carbon, ansawdd dŵr a chynhyrchiant parhaus.**



**Cymunedau sydd yn y sefyllfa orau i lunio a deall blaenoriaethau a chyfleoedd lleol ac i ddod o hyd i atebion ymarferol sy'n cynnig y buddion ehangaf posibl.**

# Cefnogi pobl a lleoedd drwy weithredu ar sail lle

Rhan allweddol o'r dull gweithredu yw nid yn unig 'beth' rydym yn ei wneud, ond sut rydym yn ei wneud. Mae'r flaenoriaeth hon yn ymwneud â manteisio ar brofiad pobl yn eu lleoedd, gweithio gyda'n gilydd i ddatblygu atebion newydd a sicrhau bod pawb yn elwa'n uniongyrchol ar ein hadnoddau naturiol.

Er enghraifft, gallai hynny ddigwydd drwy weithio gyda'n gilydd ar draws y dirwedd, yn genedlaethol neu ar lefel fwy lleol.

Bydd yn golygu gweithio'n wahanol i:

**Feithrin cysylltiadau ar draws gwahanol sectorau, sefydliadau ac o fewn cymunedau fel ein bod yn cydweithio i weithredu.**

**Dysgu gyda'n gilydd ac oddi wrth ein gilydd.**

**Meddwl am y raddfa y mae angen i ni weithredu arni, a chyfuno gwaith ar draws y graddfeydd hynny.**

**Defnyddio dulliau newydd i ddangos a ydym yn symud i'r cyfeiriad iawn.**

# Prosiectau SMS yn gweithio gyda Datganiadau Ardal

Bydd datganiadau ardal Cyfoeth Naturiol Cymru yn chwarae rhan allweddol wrth ddatblygu dulliau seiliedig ar leoedd i helpu i weithredu'r blaenoriaethau a'r cyfleoedd yn y Polisi Adnoddau Naturiol. Maent yn dibynnu ar gydweithio llwyddiannus sy'n golygu y bydd CNC yn gweithio'n agos gyda phartneriaid a rhanddeiliaid i'w datblygu a'u gweithredu.

Cyfoeth Naturiol Cymru Natural Resources Wales

Bydd pob Datganiad Ardal yn esblygu gyda diweddariadau rheolaidd gan ychwanegu deunydd a syniadau newydd wrth i CNC a'i rwydweithiau barhau i ymgysylltu â mwy o bobl, casglu tystiolaeth newydd a dysgu o weithredu syniadau a chyfleoedd newydd. Gwefan CNC fydd y porth i gael gafael ar yr wybodaeth ddiweddaraf am sut y maent yn rheoli ein hadnoddau naturiol yn fwy cynaliadwy ar lefel leol, beth sy'n newid a'r hyn sydd wedi'i ddysgu o'n hymgysylltu a'n cydweithio hyd yma. Bydd hyn yn ei dro yn rhoi adborth i'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol.

# Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Bydd yn gwneud i'r cyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf feddwl mwy am y tymor hir, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a'i gilydd, ceisio atal problemau a defnyddio dull mwy cydgysylltiedig. Bydd hyn yn ein helpu i greu Cymru rydym i gyd am fyw ynddi, yn awr ac yn y dyfodol.

LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL
WELL-BEING OF FUTURE GENERATIONS

Er mwyn sicrhau ein bod i gyd yn gweithio tuag at yr un weledigaeth, mae'r Ddeddf yn cyflwyno saith nod llesiant.

Caiff prosiectau SMS eu llunio gan ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, maent yn gweithredu'r ffyrdd o weithio ac yn cyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant.

## 'Nodau Llesiant'




## 'Pum Ffordd o Weithio'



1. Integreiddio
2. Atal
3. Cydweithredu
4. Hirdymor
5. Cynnwys

# Canlyniadau Prosiect

**Mae pob prosiect yn cyflawni amrywiaeth eang o gamau gweithredu ac atebion ar sail natur sydd i gyd yn cefnogi amrywiaeth eang o fanteision gwahanol sy'n cyflawni'r canlyniadau canlynol.**

**Dal a Storio Carbon:** hwyluso'r gwaith o dynnu neu ddal carbon atmosfferig er mwyn arafu croniad nwyon tŷ gwydr drwy gamau i ddal carbon o fewn ein hecosystemau.

**Cynyddu Bioamrywiaeth:** cynnal a chadw, adfer a gwella cynefinoedd er mwyn cefnogi amrywiaeth eang o blanhigion, anifeiliaid ac infertebratau.

**Cadernid Ecosystemau:** mae cynyddu cadernid ein hecosystemau drwy wella bioamrywiaeth, graddfa, cyflwr, cysylltedd a gallu i addasu yn arwain at fwy o ddarpariaeth o wasanaethau ecosystem.

**Newid yn yr Hinsawdd ac Addasu:** cynllunio a gweithredu mesurau i addasu i'r argyfwng hinsawdd.

**Lleihau Perygl Llifogydd:** prosesau naturiol i leihau'r perygl o lifogydd i'n cymunedau a'n tirwedd.

**Sgiliau, Diwylliant a Threftadaeth Wledig:** cefnogi'r gwaith ehangach o fabwysiadu sgiliau gwledig cynaliadwy neu hanesyddol yn ogystal â mwy o ymwybyddiaeth o dreftadaeth ac iaith cymunedau a chadw gwell ymdeimlad o hunaniaeth.

**Cydlyniant Cymunedol:** cefnogi'r gymuned leol, darparu manteision drwy gryfhau cysylltiadau o fewn cymunedau, meithrin ymdeimlad o le, meithrin gallu ac annog datblygiadau lleol.

**Iechyd a Lles:** cynorthwyo pobl i gysylltu â natur, meithrin cydberthnasau, hyder a lleihau straen drwy fannau gwyrdd hygyrch.

**Ansawdd Pridd, Aer a Dŵr:** gweithredu camau i leihau llygredd, adfer cynefinoedd, cynllunio maethynnau, hwsmonaeth pridd a phlannu coed.

**Datblygu Gallu o ran Sgiliau ac Arbenigedd:** annog trosglwyddo gwybodaeth ac arloesi i fusnesau fferm ac ar draws y sector, meithrin cydnerthedd a gwella cynaliadwyedd.

# Prosiectau Cydweithredol y Cynllun Rheoli Cynaliadwy


| | |
|---|---|
| Coetir Anian | 11 |
| Rheoli Adnoddau'n Gynaliadwy yn y Mynyddoedd Duon | 13 |
| Rheoli Perygl Llifogydd yn Naturiol a Chynaliadwy ar y Cyd ar Afon Clwyd | 16 |
| Cynllun Gwella Gwasanaethau Ecosystem Fferm Ifan | 18 |
| Gwireddu Cyfalaf Naturiol Mawnogydd Cymru | 21 |
| Partneriaeth Rhostir Powys | 24 |
| Golygfa Gwydyr: Pobl a Choedwig | 27 |
| Tir a Môr Llŷn | 30 |
| Lles Ein Hafonydd: Atebion sy'n Seiliedig ar Natur yn Nalgylch Glannau Dyfrdwy | 33 |
| Datblygu Gallu Dalgylchoedd i Wrthsefyll Newidiadau (BRICs) | 37 |
| Bioamrywiaeth ar waith | 40 |
| Cynllun Dalgylch Yr Afon Eden | 43 |
| Trwy'r Twyni Tywod: Dulliau cynaliadwy o reoli tirwedd arfordirol Pen-y-bont ar Ogwr | 47 |
| Dolau Dyfi Meadows | 50 |
| Ucheldiroedd Cydnerth De-Ddwyrain Cymru | 54 |
| Cysylltu Cymunedau â Natur: Mynydd Helygain | 58 |
| Ffermio Gwastadeddau Gwent yn Gynaliadwy | 61 |
| Ecosystemau Afonydd Gwy, Ieithona Hafren (WISE) | 64 |
| Coetiroedd Integredig Cymru: Atebion sy'n seiliedig ar natur | 67 |
| Cyflenwi Taliadau am Wasanaethau Ecosystemau: Pumlumon | 70 |
| Pennal 2050 | 73 |
| Cymuned Comin Uwch Gwyrfai | 77 |

# Coetir Anian

**Sefydliad arweiniol:** CIC Sefydliad Tir Gwyllt Cymru
**Dyfarniad Grant:** £566,024
**Lleoliad:** Machynlleth
**E-bost:** admin@cambrianwildwood.org

Wedi'i leoli ym Mwlch Corog ym Mynyddoedd Cambria mae'r prosiect hwn yn canolbwyntio ar 140ha o dir gyda'r nod o adfer tir anghynhyrchiol sydd wedi'i ddiraddio'n ecolegol er mwyn gwella'r bywyd gwyllt a'r prosesau naturiol, a fydd yn dod â budd i ardal gyffredinol o 3,000ha a'r cymunedau cyfagos.

Bydd y prosiect yn adfer cynefinoedd sy'n cysylltu coetiroedd a rhostiroedd gan helpu i gynyddu cadernid ecosystemau a gwella'r amrywiaeth o fywyd gwyllt. Bydd yn ymgymryd â gweithgareddau fel cau ffosydd draenio a chynyddu gorchudd coetir i helpu i leihau a rheoli llif dŵr wyneb, gwella ansawdd dŵr, a storio mwy o garbon mewn priddoedd a choed.

Bydd y prosiect yn gwella mynediad i ddarparu cyfleoedd ar gyfer ymarfer corff a mwynhau natur hefyd. Mae cynlluniau hefyd ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd, cyfleoedd ar gyfer datblygu sgiliau, rhaglen addysgol ar gyfer ysgolion cynradd, cyrsiau i bobl ifanc yn eu harddegau a gweithgareddau ar y safle, gan gynnwys gwirfoddoli.



**Rheoli a phlannu coetir:** Plannwyd 1000 o goed brodorol, gyda'r nod o blannu 2000 arall

**Adfer Mawnogydd:** sawl metr o ffosydd draenio wedi'u cau ac ail-wlychu mawnogydd

**Adfer cynefinoedd:** Y bwriad i ailgyflwyno Rhywogaethau Brodorol fel Llygoden Bengron y Dŵr

**Rhaglenni Addysgol:** Ymgysylltu â 9 ysgol gynradd leol

**Pori Cynaliadwy:** Cynllun pori dwysedd isel gyda gwartheg a merlod

**Rhaglenni Gwirfoddoli:** Gwirfoddolwyr niferus yn cyfrannu at weithgareddau adfer cynefinoedd

**Cynyddu mynediad i fannau awyr agored:** Clirio ac agor hawliau tramwy cyhoeddus

**Rhaglenni Gwirfoddoli:** Adeiladu canolfan wirfoddoli gan ddefnyddio dulliau adeiladu seilwaith gwyrdd

**Ymgysylltu â'r Gymuned:** Bydd Nature Arts Drop yn dosbarthu pecynnau gweithgareddau i 600 o blant a phobl ifanc sy'n wynebu risg

**Dal a Storio Carbon:** wedi'i ategu gan adfer a chreu coetir, adfer mawnogydd a chyflwyno dulliau pori dwysedd isel.

**Addasu i'r Newid yn yr Hinsawdd:** wedi'i ategu gan adfer a chreu coetir, adfer mawnogydd a chyflwyno dulliau pori dwysedd isel.

**Cynyddu Bioamrywiaeth:** wedi'i ategu gan adfer a chreu coetiroedd, adfer mawnogydd, cyflwyno dulliau pori dwysedd isel ac ailgyflwyno rhywogaethau brodorol.

**Cadernid Ecosystemau:** wedi'i ategu gan adfer a chreu coetiroedd, adfer mawnogydd, cyflwyno dulliau pori dwysedd isel ac ailgyflwyno rhywogaethau brodorol.

**Lleihau Perygl Llifogydd:** wedi'i ategu gan adfer a chreu coetir ac adfer mawnogydd.

**Ansawdd Pridd, Aer a Dŵr:** wedi'i gefnogi gan adfer a chreu coetir, adfer mawnogydd a chyflwyno dulliau pori dwysedd isel.

**Iechyd a Lles:** wedi'i ategu gan raglen addysg, rhaglenni gwirfoddoli a chlirio llwybrau cyhoeddus.

**Cydlyniant Cymunedol:** wedi'i gefnogi gan raglen addysg, rhaglenni gwirfoddoli, clirio llwybrau troed cyhoeddus ac adeiladu canolfan gymunedol seilwaith gwyrdd.

**Sgiliau a Threftadaeth Cefn Gwlad:** wedi'i ategu gan raglen addysg, rhaglenni gwirfoddoli, clirio llwybrau troed cyhoeddus ac adeiladu canolfan gymunedol seilwaith gwyrdd.

**Datblygu Gallu o ran Sgiliau ac Arbenigedd:** wedi'i ategu gan raglen addysg, rhaglenni gwirfoddoli ac adeiladu canolfan gymunedol seilwaith gwyrdd.

**Cymryd rhan**: Os hoffech fod yn rhan o'r ymdrechion cadwraeth ym Mwlch Corog, gallwch gael rhagor o wybodaeth ar eu gwefan neu'r tudalennau canlynol ar y cyfryngau cymdeithasol, neu gallwch fynd un o'u diwrnodau gwirfoddoli misol ar ôl iddynt ailddechrau.

www.coetiranian.org
coetiranian_cambrianwildwood
@coetiranian
@cambrianwildwood

# Rheoli Adnoddau'n Gynaliadwy yn y Mynyddoedd Duon

**Sefydliad arweiniol:** Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

**Dyfarniad Grant:** £1,004,155

**Lleoliad:** Y Mynyddoedd Duon, Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

**E-bost:** Bradley.Welch@beacons-npa.gov.uk

Prosiect cydweithredol gan Bartneriaeth Defnydd Tir y Mynyddoedd Duon, sy'n cynnwys tirfeddianwyr lleol, porwyr a chyrff rheoleiddio, sydd â'r nod o sicrhau newid cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol cadarnhaol drwy weithredu rheolaeth gydweithredol a chynaliadwy o dir ar draws tirwedd y Mynyddoedd Duon. Bydd gweithgareddau'r prosiect yn cynnwys rheoli rhedyn, adfywio grug a diogelu adnoddau mawn. Bydd gwelliannau arfaethedig i fynediad da byw yn helpu i reoli stoc ac yn darparu profiad gwell i ymwelwyr â'r ardal.



Bydd y ffocws ar reoli mawnogydd a rhedyn law yn llaw â gwella profiad ymwelwyr yn yr ardal ac ymgysylltu â chymunedau lleol a fydd yn cymryd rhan drwy ddatblygu rhaglen sgiliau gwledig, ymgysylltu ag ysgolion a chreu cyfleoedd gwaith.



Nod y bartneriaeth yw gwella cadernid ecosystemau yn ardal y prosiect, ochr yn ochr â rheoli da byw sy'n pori'n gynaliadwy, edrych ar ddiogelu cyfalaf naturiol fel dŵr a phridd, bywyd gwyllt a bioamrywiaeth, a llesiant ac iechyd economaidd y rhai sy'n byw ac yn gweithio yn yr ardal eiconig hon. Phil Stocker, Cadeirydd y Bartneriaeth, "Dim ond trwy gydweithio y gallwn ni daro cydbwysedd sy'n diwallu anghenion porwyr, darparwyr twristiaeth a thirfeddianwyr, tra'n diogelu'r dirwedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae'r prosiect yn cwmpasu arwynebedd o 24,600ha ac yn ymgysylltu â pherchenogion tir, porwyr, Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a'r gymuned leol. Mae allbynnau'r prosiect wedi sicrhau canlyniadau sylweddol ar gyfer rheoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy, megis mae dros 200 o bobl wedi ymweld â'r mynyddoedd Duon drwy ymweliadau addysgol wedi'u trefnu, gan roi mynediad i gymunedau lleol i'r dirwedd wrth ddysgu am eu hamgylchedd, ei reolaeth a'i amrywiaeth. Mae swyddi wedi'u creu i gyflawni'r gwaith sylweddol o reoli'r dirwedd megis adfer mawnogydd, rheoli grug a rhedyn i adfer ansawdd cynefinoedd. Gwaith helaeth i reoli erydiad a chau ffosydd ar safleoedd strategol i sefydlogi adnoddau mawn yn y Parc Cenedlaethol. Bydd amrywiaeth o ddeunyddiau'n cael eu defnyddio ar gyfer gwaith adfer mewn ardaloedd pridd mawn/mwynol sydd wedi'u herydu i wella cyflwr y gors mewn treialon adfer gorchudd llystyfiant mewn ardaloedd o erydiad.

Mae'r bartneriaeth wedi datblygu rhaglen llysgenhadon lwyddiannus, gan ymgysylltu'n gadarnhaol â busnesau lleol drwy'r rhaglen llysgenhadon, gan helpu'r bartneriaeth i ddatblygu dealltwriaeth ddyfnach o'r cymunedau, yr amgylchedd a'r economïau sy'n sail i'r mathau hyn o dirweddau. Mae gan y prosiect gynllun cynaliadwyedd hirdymor i barhau â'r gwaith y mae'r fenter hon wedi'i ddechrau gan alluogi cenedlaethau'r dyfodol i reoli, gweithio a mwynhau amgylchedd y Mynyddoedd Duon.



**Meithrin cydweithredu a phartneriaethau:** Dod â 50 a mwy o ffermwyr a phorwyr at ei gilydd

**Adfer cynefinoedd:** Mae'r rhaglen rheoli rhedyn wedi ymdrin â 490 ha hyd yma

**Adfer cynefinoedd:** Rheoli cynefin ac adfywio grug

**Adfer Mawnogydd:** 66 ha o fawnogydd wedi'u hadfer a 105 ha o fawn wedi'i ail-wlychu

**Rhaglenni Addysgol:** Adrodd hanes y Mynyddoedd Duon i 2810 o blant ysgol

**Sgiliau a Threftadaeth Cefn Gwlad:** Datblygu rhaglen sgiliau gwledig gyda 13 o gymwysterau wedi'u dyfarnu hyd yma

**Ymgysylltu â'r gymuned:** Gweithredu cynllun llysgenhadon y Mynyddoedd Duon gyda 50 o lysgenhadon

**Cynyddu Mynediad i Fannau Awyr Agored:** Cynyddu mynediad a gwell profiad i ymwelwyr gydag arwyddion a byrddau addysg wedi'u gosod ar draws y dirwedd

**Hyfforddiant a chreu swyddi:** 3 swydd amser llawn wedi'u creu

**Ymgysylltu â'r gymuned:** 951 o bobl wedi cymryd rhan mewn ymgysylltu â'r gymuned

**Adfer Mawnogydd:** 32 o leiniau mawnogydd wedi'u nodi drwy dreialon adfer gorchudd llystyfiant

**Cynyddu mynediad i fannau awyr agored:** 3.2km o lwybrau mynediad wedi'u hadfer a'u hagor

**Dal a Storio Carbon:** wedi'i ategu gan ddod â ffermwyr at ei gilydd, adfer mawnogydd, ail-wlychu mawn a threialon adfer gorchudd llystyfiant.

**Addasu i'r Newid yn yr Hinsawdd:** wedi'i ategu gan adfer mawnogydd, ail-wlychu mawn a threialon adfer gorchudd llystyfiant.

**Gwell Bioamrywiaeth:** wedi'i hategu gan raglen rheoli rhedyn, rheoli cynefinoedd ac adfywio grug ac adfer llwybrau mynediad.

**Cadernid Ecosystemau:** wedi'i ategu gan raglen rheoli rhedyn, rheoli cynefinoedd ac adfywio grug, ail-wlychu mawn a threialon adfer gorchudd llystyfiant.

**Lleihau Perygl Llifogydd:** wedi'i ategu gan waith adfer mawnogydd.

**Ansawdd Pridd, Aer a Dŵr:** wedi'i ategu gan waith adfer mawnogydd ac ail-wlychu mawn.

**Iechyd a Lles:** wedi'i ategu gan ymgysylltu ag ysgolion, rhaglen sgiliau gwledig, cynyddu mynediad i natur ac adfer llwybrau mynediad.

**Cydlyniant Cymunedol:** wedi'i ategu gan ddod â ffermwyr at ei gilydd, ymgysylltu ag ysgolion, rhaglen sgiliau gwledig, cynllun llysgenhadon y Mynyddoedd Duon, mwy o fynediad at natur, creu swyddi, ymgysylltu â'r gymuned, treialon adfer gorchudd llystyfiant ac adfer llwybrau mynediad.

**Sgiliau a Threftadaeth Cefn Gwlad:** wedi'i ategu gan ddod â ffermwyr at ei gilydd, rhaglen sgiliau gwledig, cynllun llysgenhadon y Mynyddoedd Duon a chreu swyddi.

**Datblygu Gallu o ran Sgiliau ac Arbenigedd:** wedi'i ategu gan ddod â ffermwyr at ei gilydd, rhaglen sgiliau gwledig, cynllun llysgenhadon y Mynydd Duon, creu swyddi a threialon adfer gorchudd llystyfiant.

**Cymryd rhan:** Mae gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog hanes hir o weithio gyda gwirfoddolwyr, sy'n mwynhau cymysgedd amrywiol o weithgareddau, o gymryd rhan mewn arolygon safle i drefnu data ecolegol. Os oes gennych ddiddordeb mewn gwirfoddoli gyda'r parc cenedlaethol, ffoniwch y Swyddog Datblygu Gwirfoddolwyr ar 01874 624437.

www.blackmountains.wales
@BMLUP
blackmountainslup
@blackmountainslup

# Rheoli Perygl Llifogydd yn Naturiol a Chynaliadwy ar y Cyd ar Afon Clwyd

**Sefydliad arweiniol:** Cadwyn Clwyd Cyfyngedig
**Dyfarniad Grant:** £330,000
**Lleoliad:** Afon Clwyd, Pwllglas, i'r de o Ruthun i Fod Petryal, ar gyrion coedwig Clocaenog
**E-bost:** sarah.jones@cadwynclwyd.co.uk

Prosiect ar raddfa tirwedd i leihau llifoedd brig i afon Clwyd a gwella bioamrywiaeth drwy ymyriadau naturiol seiliedig ar y tir a deall eu manteision ehangach os cânt eu rhoi ar waith ar draws y dalgylch mwy. Y nod tymor hwy yw deall yn well y cyfle i ffermwyr, tirfeddianwyr a'r cyhoedd gydweithio i greu cynefinoedd, lleihau llif llifogydd a gwella dŵr er budd yr ardal leol. Nod y prosiect fydd helpu i ddarparu atebion tymor hwy i'r problemau llifogydd sy'n effeithio ar bobl a busnesau yn yr ardal.

Mae'r grŵp cydweithredol o ffermwyr yn yr ardal yn plannu ac yn adfer gwrychoedd, yn creu coetiroedd bach ac adeiladu argaeau sy'n gollwng ar nentydd ar lethrau'r bryniau i rwystro ymchwyddiadau o ddŵr llifogydd yn rhannau uchaf afonydd Clwyd ac Elwy.

Mae gwaith cyfalaf wedi'i wneud gyda thros 3.5 cilometr o wrychoedd wedi'u plannu, a 1,400 o goed wedi'u plannu yn yr ardaloedd o goetir bach strategol gyda choed unigol wedi'u plannu bob hyn a hyn yn y gwrychoedd newydd. Mae llawer o'r plannu'n cael ei wneud gan wirfoddolwyr lleol fel rhan o'r gwaith ymgysylltu â'r gymuned.

Mae'r Prosiect yn canolbwyntio ar gamau gweithredu sy'n annog pobl leol i gymryd rhan, gwaith partneriaeth ac arloesi, gan gefnogi cymunedau gwledig a grwpiau sector. Cydweithir yn uniongyrchol gyda chymunedau lleol er mwyn hwyluso gwaith datblygu a gweithredu prosiectau, sydd o fudd i economi leol yr ardal.

**Rheoli perygl llifogydd yn naturiol:** Llifoedd brig is i afon Clwyd

**Adfer cynefinoedd:** 8000m o wrychoedd wedi'u plannu o'r newydd neu wedi'u hadnewyddu

**Rheoli a phlannu coetiroedd:** Plannwyd 1400 o goed mewn mannau strategol

**Adfer cynefinoedd:** Adeiladu pyllau a gwlyptiroedd

**Rheoli perygl llifogydd yn naturiol:** Creu llain gysgodi a lleiniau clustogi

**Rheoli a phlannu coetiroedd:** Creu coetiroedd

**Rheoli Ansawdd Pridd:** Awyru pridd

**Lleihau Llygredd Amaethyddol:** Gweithio ar ffiniau caeau i ddiogelu dyfrffyrdd rhag llygredd amaethyddol

**Rheoli perygl llifogydd yn naturiol:** Gwaith peirianneg feddal ar ardaloedd lle mae glannau afonydd wedi'u herydu

**Lleihau Llygredd Amaethyddol:** Rheoli mynediad stoc at gyrsiau dŵr

**Rheoli perygl llifogydd yn naturiol:** Argaeau sy'n gollwng ac argaeau malurion pren

**Rhaglenni Gwirfoddoli:** Cynnwys gwirfoddolwyr cymunedol yn yr atebion ar sail natur

**Dal a Storio Carbon:** wedi'i ategu gan adnewyddu gwrychoedd, plannu coed, creu llain gysgodi a lleiniau clustogi, a chreu coetiroedd.

**Addasu i'r Newid yn yr Hinsawdd:** wedi'i ategu gan greu coetiroedd.

**Addasu i'r Newid yn yr Hinsawdd:** a gefnogir gan blannu mewn modd sy'n gweddu i fawn.

**Cynyddu Bioamrywiaeth:** wedi'i ategu gan adnewyddu gwrychoedd, creu gwlyptiroedd a chreu coetiroedd.

**Cadernid Ecosystemau:** wedi'i ategu gan adnewyddu gwrychoedd, creu gwlyptiroedd, creu llain gysgodi a lleiniau clustogi, a chreu coetiroedd.

**Lleihau Perygl Llifogydd:** wedi'i ategu gan lifoedd brig is, creu gwlyptiroedd, gwaith peirianneg feddal, rheoli mynediad stoc ac argaeau sy'n gollwng.

**Ansawdd Pridd, Aer a Dŵr:** wedi'i ategu gan adnewyddu gwrychoedd, plannu coed, creu coetiroedd, awyru pridd, gwaith ar ffiniau caeau a rheoli mynediad stoc.

**Iechyd a Lles:** wedi'i ategu gan raglenni gwirfoddoli.

**Sgiliau a Threftadaeth Cefn Gwlad:** wedi'i ategu gan raglenni gwirfoddoli.

**Datblygu Gallu o ran Sgiliau ac Arbenigedd:** wedi'i gefnogi gan raglenni gwirfoddoli.

**Cymryd Rhan**: Mae Cadwyn Clwyd a Grwpiau Gweithredu Lleol Gogledd-ddwyrain Cymru yn awyddus i weithio gyda phartneriaid eraill o fannau eraill yng Nghymru, y DU neu'r UE ehangach. Maent yn agored i drafod prosiectau cydweithredu posibl gyda Grwpiau Gweithredu Lleol eraill.

# Cynllun Gwella Gwasanaethau Ecosystem Fferm Ifan

**Sefydliad arweiniol:** Fferm Ifan
**Dyfarniad Grant:** £696,352
**Lleoliad:** Ardal Conwy Uchaf
**E-bost:** ffermifan@gmail.com

Prosiect cydweithredol dan arweiniad ffermwyr sy'n cymryd camau rheoli tir ar raddfa tirwedd i wella cadernid ecosystemau a'r gwasanaethau y maent yn eu darparu. Mae Fferm Ifan yn gydweithrediad rhwng 11 o ffermwyr tenant ar ystâd Ysbyty Ifan. Mae ffermwyr Fferm Ifan yn ceisio gwella a rheoli adnoddau naturiol mewn ffordd fwy cynaliadwy ac effeithlon. Mae'r prosiect yn ymestyn dros ryw 2,456 Ha ac mae'n cynnwys camau rheoli tir newydd wedi'u targedu a fydd yn sicrhau manteision economaidd-gymdeithasol hefyd i'r 11 fferm ac i'r gymuned wledig ehangach y mae Fferm Ifan yn perthyn iddi. Mae gan y ffermwyr hawliau i bori'r Migneint, un o'r ardaloedd mwyaf o orgors yng Nghymru, sydd wedi'i ddynodi'n Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, Ardal Cadwraeth Arbennig ac Ardal Gwarchodaeth Arbennig.

Fel rhan o'r gwaith mae'r Ganolfan Ecoleg a Hydroleg (CEH) yn darparu canllawiau ar blannu sy'n sensitif i'r dalgylch. Byddant yn plannu mwy o goed a gwrychoedd ar dir fferm ar hyd nentydd i helpu i ddiogelu cynefinoedd glan yr afon, lleihau erydiad pridd a lliniaru perygl llifogydd i lawr yr afon. Bydd cau ffosydd ar y Migneint yn parhau ac yn helpu i godi'r lefel trwythiad, storio carbon a bydd yn lleihau'r perygl o lifogydd yn Nyffryn Conwy hefyd.

Mae'r ffermwyr yn cymryd rhan mewn treialon pori hefyd i annog mwy o fioamrywiaeth a bywyd gwyllt yn y mawnogydd. Fel rhan o'r treialon pori, mae gwartheg wedi'u cyflwyno i'r Migneint am y tro cyntaf o fewn cof ac mae cynlluniau ar waith i adfer cynefin i annog mwy o gornchwiglod a gylfinirod i fridio'n llwyddiannus yn yr ardal.

Mae'r grŵp yn gweithio'n agos hefyd gyda nifer o bartneriaid gan gynnwys yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, yr RSPB, Y Ganolfan Ecoleg a Hydroleg, Prifysgol Bangor a Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn rhannu syniadau a dysgu o arbenigedd a phrofiad y partneriaid.





Elfen gyffrous o'r prosiect fydd edrych ar ddatblygu marchnadoedd newydd ar gyfer cynhyrchion difwyd rheoli tir yn gynaliadwy – dŵr glân, araf, storio carbon a bioamrywiaeth sy'n ffynnu. Prif nod y grŵp yw cydweithio i sicrhau y gall cenedlaethau'r dyfodol y teuluoedd ffermio traddodiadol hyn barhau i ffynnu yn y gymuned fynyddig Gymraeg hon.

**Adfer Cynefinoedd:** Nodi ac adfer cynefin ucheldir i annog a chynnal poblogaethau'r gornchwiglen a'r gylfinir ar y Migneint gydag arolygon adar a gwaith monitro yn parhau

**Adfer Mawnogydd:** Adfer Gorgors y Migneint drwy gau 10,000m o ffosydd ar y mawnogydd ac ail-wlychu 100 ha o dir

**Lleihau Llygredd Amaethyddol:** Ffensio cyrsiau dŵr i gadw stoc allan, gwella ansawdd dŵr i afon Conwy. Profi pridd oddeutu 240 o gaeau glaswelltir sydd o amgylch y Migneint i sicrhau cynllunio effeithlon ar gyfer rheoli maethynnau, pridd a dŵr

**Rheoli Perygl Llifogydd yn Naturiol:** Cau ffosydd ac ail-wlychu, plannu 5.3 ha goed newydd, 800m o goridorau ar lan nant a 10,000m o wrychoedd

**Pori Cynaliadwy:** Ailgyflwyno gwartheg ar gyfer pori cynaliadwy lefel isel i gynyddu bioamrywiaeth a gwella cynefin mawnogydd


**Rheoli a Phlannu Coetiroedd:** Creu coetir newydd, darparu 5.3 ha o orchudd coed newydd drwy blannu sy'n sensitif i'r dalgylch

**Sgiliau a Threftadaeth Cefn Gwlad:** Cyrsiau hyfforddi ar ddulliau ffermio traddodiadol a newydd gyda 22 o ddiwrnodau hyfforddi eisoes wedi'u cwblhau

**Meithrin Cydweithredu a Phartneriaethau:** Gweithio gyda sefydliadau i ddarparu arweiniad ac addysg, gan gynnwys yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar, Canolfan Ecoleg a Hydroleg, a Cyfoeth Naturiol Cymru i rannu syniadau a dysgu o brofiad ac arbenigedd y partneriaid


**Hyfforddiant a Chreu Swyddi:** Hyfforddiant ar sut i fonitro llystyfiant mawnogydd gan y ffermwyr, gan ei gwneud yn bosibl cofnodi canlyniadau

**Trosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesi:** Datblygu Taliadau ar gyfer Gwasanaethau Ecosystem i ddiffinio, mesur ac asesu gwasanaethau ecosystem a phenderfynu ar werth marchnadol. Mesur ôl troed carbon, gan fesur ac edrych ar ôl troed carbon y grwpiau o'u cymharu â ffermydd tebyg ledled Cymru





**Dal a Storio Carbon:** wedi'i ategu gan adfer gorgors, plannu sensitif i'r dalgylch a phlannu coed tir fferm a gwrychoedd ar lannau afonydd.

---



**Gwell Bioamrywiaeth:** wedi'i hategu gan ailgyflwyno gwartheg ac adfer cynefinoedd.

---




**Cadernid Ecosystemau:** wedi'i ategu gan adfer cynefinoedd, ffensio ar hyd afonydd, plannu sy'n sensitif i'r dalgylch a phlannu coed a gwrychoedd tir fferm.

---




**Lleihau Perygl Llifogydd:** wedi'i ategu gan adfer gorgors, cau ffosydd ac ail-wlychu a phlannu coed tir fferm a gwrychoedd ar lannau afonydd.

---




**Ansawdd Pridd, Aer a Dŵr:** wedi'i ategu gan adfer gorgors, ffensio ar hyd afonydd, cau ffosydd ac ail-wlychu a phlannu coed a gwrychoedd tir fferm.

---



**Sgiliau a Threftadaeth Cefn Gwlad:** wedi'i ategu gan gyrsiau hyfforddi ar ddulliau ffermio a gweithio gyda sefydliadau i ddarparu arweiniad ac addysg.

---



**Cydlyniant Cymunedol:** wedi'i ategu gan greu swyddi, gweithgareddau trafod gyda ysgolion lleol a'r cyhoedd yn gyffredinol a datblygu dulliau trafod.

---



**Datblygu Gallu o ran Sgiliau ac Arbenigedd:** wedi'i ategu gan gyrsiau hyfforddi ar ddulliau ffermio a gweithio gyda sefydliadau i ddarparu arweiniad ac addysg.

---



**Addasu i'r Newid yn yr Hinsawdd:** wedi'i ategu gan adfer gorgors, plannu coed tir fferm a gwrychoedd ar lannau afonydd.

**Cymryd Rhan**: Os hoffech weld beth mae ffermwyr Fferm Ifan wedi'i gyflawni, ewch i'r wefan

www.nationaltrust.org.uk/cy_gb/features/fferm-ifan

@ffermifan

# Gwireddu Cyfalaf Naturiol Mawnogydd Cymru

**Sefydliad arweiniol:** Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
**Dyfarniad Grant:** £924,956
**Lleoliad:** Cymru Gyfan
**E-bost:** rhys.owen@eryri.llyw.cymru Marian.Pye@eryri.llyw.cymru

Prosiect sy'n gweithredu ar y cyd â rhanddeiliaid, gan gynnwys cymunedau, i drawsnewid a gwella mawnogydd ledled Cymru. Ymhlith y gwelliannau i fawnogydd mae sefydlogrwydd ecolegol a rheolaeth gynaliadwy yn yr hirdymor. Y gobaith yw cyflwyno'r prosiect ar raddfeydd gofodol (e.e. dalgylchoedd) a sectoraidd (e.e. safleoedd gwarchodedig), yn ogystal â datblygu arbenigedd a gallu partneriaid i adfer mawnogydd.

Bydd y prosiect yn helpu i gyflawni targed 2020 i reoli mawnogydd yn gynaliadwy. Bydd camau gweithredu cydgysylltiedig yn sicrhau manteision amgylcheddol lluosog drwy gydweithio â mecanweithiau sy'n bodoli eisoes ynghyd â gwaith cyfalaf sy'n cwmpasu'r sectorau 'anodd eu gwneud' presennol o adfer mawnogydd, gan arwain at reolaeth gynaliadwy yn yr hirdymor a gefnogir drwy daliadau am wasanaethau ecosystemau (PES). Bydd gweithgareddau allweddol eraill yn arwain at ddulliau mwy cydgysylltiedig a chydlynol sy'n cwmpasu cyllid allanol, hyfforddiant, addysg, caffael PES, monitro a gweithgareddau ymchwil sy'n berthnasol i fawnogydd Cymru.

Ar ran Grŵp Gweithredu Mawnogydd Cymru, arweinir y prosiect gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, mewn partneriaeth ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, y Ganolfan Ecoleg a Hydroleg, IUCN UK Peatland Programme, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Sir Drefaldwyn, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Cyfoeth Naturiol Cymru, a Phrifysgol Abertawe. Craidd y prosiect hwn yw sicrhau bod ein mawnogydd yn cael eu rheoli'n gynaliadwy ledled Cymru, gan roi cynefinoedd ar ben ffordd i fod mewn cyflwr ffafriol da neu eu cadw mewn cyflwr felly; nodi manteision meithrin cadernid yr ecosystemau hyn a darparu amrywiaeth o wasanaethau ecosystem hanfodol.

Mae'r prosiect yn gyfle da iawn i ehangu cynnydd o ran adfer erydiad, gan ganolbwyntio ar adfer gorchudd llystyfiant, gwaith hydrolegol er mwyn atal draenio parhaus ar hyd nodweddion erydu, rheoli rhedyn a rheoli ymwelwyr.

**Mae'r prosiect Cymru gyfan hwn yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â rhai o elfennau anoddaf adfer mawnogydd, gan gynnwys:**

- **Rheoli mawnogydd iseldir yn gynaliadwy**
- **Rheoli mawnogydd ucheldir â llawer o Wellt y Gweunydd yn gynaliadwy**
- **Erydiad pridd mawn**
- **Draeniad mawnogydd**
- **Rheoli cyforgors â llawer o rug yn gynaliadwy**
- **Mawn wedi'i goedwigo**
- **Mawn wedi'i addasu'n drwm gan amaethyddiaeth**



Gweithio gyda gwirfoddolwyr Cymdeithas Eryri – hawlfraint Dan Struthers Photography

Mae Parc Cenedlaethol Eryri yn cynnwys tua 30% o fawnogydd Cymru, gyda thros 25,000 hectar o fawn, ac 17 miliwn tunnell o garbon yn ôl amcangyfrifon. Mae mwyafrif llethol y cynefinoedd hyn yn fath o fawnog sy'n brin yn fyd-eang: 'gorgors' (mawnogydd ucheldir sy'n 'gorchuddio'r' bryniau).

Ceir tua 3500 hectar o'r cynefinoedd mawnogydd hyn rhwng copaon y Carneddau yng ngogledd Eryri, gyda gorgorsydd mawr ar lethrau Llwytmor a Foel-Grach. Yn hanesyddol, mae'r mawnogydd hyn wedi'u pori'n drwm sydd, o'i gyfuno â'r draeniad naturiol oddi ar y mynyddoedd, wedi arwain at erydu sylweddol a cholli carbon. Mae 'mignoedd' mawn mawr – ffurfiannau moel tebyg i glogwyni sy'n datgelu'r pridd mawn sylfaenol – wedi ffurfio ar y gorgorsydd, gan ddraenio'r mawn a rhyddhau swm aruthrol o nwyon tŷ gwydr.

Heddiw, mae tirweddau mynyddig y Carneddau'n cael eu pori ar lefelau llawer is, gyda mesurau amddiffyn ar waith ar gyfer cynefinoedd mynyddig sensitif ac, wrth gwrs, merlod eiconig y Carneddau.

Er mwyn gwrthdroi effeithiau erydu, bydd gwaith yn cael ei wneud i adfer gorchudd llystyfiant mewn ardaloedd sy'n agored i niwed, arafu llif y dŵr ac adfer y mawnogydd. Bydd y gwaith yn lleihau'r colledion nwyon tŷ gwydr yn sylweddol yn ogystal â chynyddu faint o ddŵr y gall y mawnogydd cyfagos eu storio.

**Trosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesi:** Datblygu strategaeth Talu am Wasanaethau Ecosystem a llwyfan ymchwil ar gyfer mawnogydd er mwyn gallu cydlynu ymdrechion ymchwil yn well

**Adfer Mawnogydd:** Dros 40 o safleoedd mawnogydd wedi'u nodi ledled Cymru a phrosiectau Cod Mawnogydd y gellir buddsoddi ynddynt a'u hadfer wedi'u paratoi a'u dilysu

**Hyfforddiant a Chreu Swyddi:** Swyddi wedi'u creu a rhaglen hyfforddi arferion gorau wedi'i rhoi ar waith ar gyfer ymarferwyr mawnogydd

**Trosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesi:** Datblygu'r Cod Mawnogydd

**Meithrin Cydweithredu a Phartneriaethau:** Grŵp gweithredu mawnogydd a phartneriaeth lwyddiannus â'r Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur (IUCN) wedi'u sefydlu

**Adfer Cynefinoedd:** Camau gweithredu adfer mawnogydd sy'n canolbwyntio ar yr ardaloedd craidd o fawnogydd iseldir sy'n 'anodd eu hadfer'

**Rhaglen Addysgol:** Gweithgareddau ymgysylltu wedi'u cynnal â disgyblion ysgol, myfyrwyr a'r cyhoedd

**Ymgysylltu â'r Gymuned:** Dulliau ymgysylltu a dehongli wedi'u datblygu

**Hyfforddiant a Chreu Swyddi:** Datblygu hyfforddiant a chyflwyno siarter safonau ar gyfer adfer mawnogydd

**Dal a Storio Carbon:** wedi'i ategu gan y gwaith o adfer mawnogydd ucheldir ac iseldir a nodi safleoedd mawnogydd y gellir eu hadfer i gyflwr ffafriol, gan gloi carbon i mewn a lleihau colledion.

---

**Addasu i'r Newid yn yr Hinsawdd:** wedi'i ategu gan y gwaith o ddatblygu strategaeth PES, paratoi 10 o brosiectau Cod Mawnogydd, sefydlu'r grŵp gweithredu mawnogydd, adfer mawnogydd iseldir a nodi safleoedd mawnogydd er mwyn sicrhau cadernid.

---

**Cynyddu Bioamrywiaeth:** wedi'i ategu gan y gwaith o sefydlu grŵp gweithredu mawnogydd i rannu arferion gorau, adfer mawnogydd ucheldir ac iseldir a nodi safleoedd mawnogydd ledled Cymru.

---

**Cadernid Ecosystemau:** wedi'i ategu gan y gwaith o ddatblygu strategaeth PES, paratoi 10 o brosiectau Cod Mawnogydd, sefydlu'r grŵp gweithredu mawnogydd, adfer mawnogydd iseldir a nodi safleoedd mawnogydd er mwyn sicrhau cadernid.

---

**Lleihau Perygl Llifogydd:** wedi'i ategu gan y gwaith o nodi lleoliadau lle y gallai mawnogydd chwarae rhan mewn cynlluniau cynaliadwy i reoli'r perygl o lifogydd. Drwy'r strategaeth PES, y gwaith o adfer mawnogydd ucheldir ac iseldir a nodi safleoedd mawnogydd ledled Cymru.

---

**Ansawdd Pridd, Aer a Dŵr:** wedi'i ategu gan y gwaith o ddatblygu strategaeth PES, paratoi 10 o brosiectau Cod Mawnogydd ar gyfer buddsoddi ynddynt, datblygu'r Cod Mawnogydd, sefydlu'r grŵp gweithredu mawnogydd, adfer mawnogydd ucheldir ac iseldir a nodi safleoedd mawnogydd.

---

**Iechyd a Lles:** wedi'i ategu gan weithgareddau ymgysylltu ag ysgolion lleol a'r cyhoedd. Sicrhau bod pobl yn ymgysylltu â natur drwy fynediad agored i safleoedd mawnogydd.

---

**Cydlyniant Cymunedol:** wedi'i ategu gan weithgarwch creu swyddi, gweithgareddau ymgysylltu ag ysgolion lleol a'r cyhoedd a datblygu dulliau ymgysylltu.

---

**Datblygu Gallu o ran Sgiliau ac Arbenigedd:** wedi'i ategu gan y gwaith o ddatblygu strategaeth PES a gweithgarwch creu swyddi. Rhannu arferion gorau ac arloesedd drwy'r grwpiau gweithredu mawnogydd.

**Cymryd Rhan**: Mae gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri lawer o gyfleoedd i wirfoddoli a bydd yn darparu unrhyw hyfforddiant a chyfarpar sydd eu hangen ar gyfer y rôl.

www.eryri.llyw.cymru/looking-after/projects/peatland-restoration-in-snowdonia

@eryrisnowdonia @Visitsnowdonia

# Partneriaeth Rhostir Powys

**Sefydliad arweiniol:** Ireland Moor Conservation Ltd
**Dyfarniad Grant:** £600,000
**Lleoliad:** Powys
**E-bost:** will@irelandmoor.com

Prosiect mawr ar raddfa tirwedd i annog adfer rhostir drwy weithredu cydweithredol o'r gwaelod i fyny sy'n cael ei ysgogi gan gymunedau sy'n byw ac yn gweithio ar y rhosydd a'u cyffiniau. Mae'n ceisio sicrhau manteision lluosog gan gynnwys iechyd y cyhoedd, rhannu sgiliau ac addysg. Mae rhanddeiliaid allweddol yn cynnwys tirfeddianwyr, ffermwyr a chymunedau wedi creu amgylchedd rhostir bywiog i hybu bioamrywiaeth, gan sicrhau manteision economaidd a chymdeithasol. Nod y prosiect oedd creu menter strategol gyffrous ym Mhowys a gwireddu potensial llawn bron i 20,000 erw o rostir sy'n ymestyn o Ddyffryn Llanddewi Nant Hodni yn ne'r sir i gomin Bugeildy yn y gogledd, y gall cymunedau ei fwynhau yn ogystal â denu twristiaeth a chyfleoedd busnes newydd i hybu swyddi cefn gwlad a rhoi hwb i'r economi wledig.

Mae'r prosiect yn seiliedig ar bedwar prif nod; hyrwyddo bioamrywiaeth y rhostir, rheoli cynefinoedd grug yn well, cydbwyso hamdden ar y rhostir gydag adnoddau naturiol a bywyd gwyllt, ac ymgysylltu â chymunedau lleol.

Roedd bioamrywiaeth y rhostir wedi dirywio o ganlyniad i gyfuniad o ffactorau, a thrwy gyfres o arferion rheoli rhostir a sgyrsiau newydd gyda'r gymuned gyfagos, y nod oedd gwrthdroi'r dirywiad hwnnw drwy ddull cydweithredol.



Rhoddodd y prosiect gynllun rheoli ar waith i adfer iechyd y dirwedd. Mae'r rugiar goch yn rhywogaeth ddangosol allweddol ar y rhostir grug ac mewn gwirionedd dyma'r unig aderyn brodorol gwyllt sy'n byw yno gydol y flwyddyn. Nid yn unig y gellir adfer cyflwr y rhostir er mwyn gwella'r cyfle bridio ar gyfer adar sy'n nythu ar y ddaear, ysgyfarnogod brown ac infertebratau lluosog, ond roedd hefyd yn ceisio darparu gwasanaethau ecosystem gan gynnwys dal a storio carbon, cadw dŵr a lliniaru perygl llifogydd.

Fel arfer, mae'r llystyfiant ar y rhostiroedd hyn yn cynnwys mosaig o gorlwyni fel grug, llusi duon bach, creiglus, a grug y mêl yn gymysg â rhedyn, swp-hesg y fawnog ac eithin. Yn yr ardaloedd gwlypach, gwelir grug croesddail, glaswellt y gweunydd, llafn y bladur, plu'r gweunydd a'r gwlithlys pryfysol gydag is-haen o fwsogl, sy'n cynnwys carpedi o rywogaethau sffagnwm yn aml.

Defnyddir rhostiroedd Powys yn helaeth gan gerddwyr, marchogion, cerddwyr cŵn, beicwyr modur, cerbydau 4x4 ac mae'r prosiect yn cynnal rhaglen o sgyrsiau i addysgu pob grŵp fel nad yw eu gweithgareddau hamdden yn cael effaith andwyol ar fywyd gwyllt nac yn difrodi'r dirwedd. Drwy weithredu adnoddau arloesol i egluro Mynediad Agored yn well er mwyn annog pobl i ddefnyddio'r tir yn gyfrifol, yn enwedig yn ystod tymor bridio'r adar yn y gwanwyn.

Un o egwyddorion allweddol y prosiect yw sicrhau cydbwysedd ymarferol a hirdymor rhwng natur a phobl, drwy gael yr holl bartïon â buddiant i gydweithredu, ymgysylltu â llawer o randdeiliaid lleol gwahanol a'u hannog i gyfrannu fel bod popeth o fywyd adar i dwristiaeth yn cael cyfle i ffynnu.

Mae'r Bartneriaeth yn cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) sy'n ceisio gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae cofnodi adar, y celfyddydau a cherddoriaeth, gweithdai llesiant, gwyddor dinasyddion, a sgiliau traddodiadol yr ucheldiroedd yn rhai o'r gweithgareddau y mae'r prosiect yn eu denu i helpu pobl i ddeall rhai o'r heriau y mae ein tirweddau'n eu hwynebu. Gan weithio gyda'r elusen iechyd meddwl MIND, mae'r prosiect yn mynd â grwpiau allan i'r gwahanol rostiroedd i helpu i wella lles pobl nad ydynt yn mynd allan i'r dirwedd hardd hon fel arfer.

Wrth i'r prosiect ddod i ben, mae'r Bartneriaeth wedi bod yn myfyrio ar eu prosiect a sut y gellir cefnogi'r cydweithio a'r dirwedd ar gyfer y dyfodol gan sicrhau cynaliadwyedd hirdymor.

**Meithrin Cydweithredu a Phartneriaethau:** Hwyluso partneriaeth Rhostiroedd Powys a fydd yn dwyn tirfeddianwyr a phorwyr ynghyd i gyflawni nifer o nodau

**Adfer Cynefinoedd:** Rhaglen adfer rhostiroedd yr ucheldir a rheoli rhedyn, gan helpu i adfer ardaloedd mawr o'r safleoedd 24,600 hectar

**Hyfforddiant a Chreu Swyddi:** Dau warden llawn amser wedi'u cyflogi i reoli'r amrywiaeth ar y rhostir

**Rheoli Perygl Llifogydd yn Naturiol:** Creu pyllau a phantiau ar gyfer adar sy'n nythu ar y ddaear ar y bryniau

**Hyfforddiant a Chreu Swyddi:** Darparu cyrsiau hyfforddi i gefnogi'r gwaith o reoli'r ucheldiroedd mewn ffordd gynaliadwy

**Pori Cynaliadwy:** Merlod cynhenid y Carneddau yn pori ar draws y bryn er mwyn gwella bioamrywiaeth

**Rhaglenni Addysgol:** Cysylltu plant ysgol lleol â cheidwaid rhostiroedd, porwyr, storïwyr a haneswyr

**Ymgysylltu â'r Gymuned:** Gan weithio gyda'r elusen iechyd meddwl MIND, mynd â grwpiau am dro o gwmpas y rhostiroedd

**Ymgysylltu â'r Gymuned:** Defnyddio dulliau o esbonio Mynediad Agored yn well, er mwyn annog pobl i ddefnyddio'r tir mewn ffordd gyfrifol

**Adfer Cynefinoedd:** Creu mosäig o gynefinoedd grug, ffridd, pyllau a phantiau er mwyn gwella cadernid ledled y rhostir

**Adfer Cynefinoedd:** Cylchdroadau torri a llosgi sensitif er mwyn helpu i adfywio grug, lleihau'r rhedyn sy'n tyfu a lleihau'r risg o dân

**Trosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesi:** Wedi rhoi cynllun diogelu rhydwyr ar waith ac wedi dechrau cyfrif adar yn dymhorol er mwyn mesur bioamrywiaeth, monitro llwyddiant a rhannu arferion gorau

**Ymgysylltu â'r Gymuned:** Cynnal gweithgareddau hamdden a rhaglen o sgyrsiau er mwyn addysgu grwpiau gwahanol o ddefnyddwyr tir

**Dal a Storio Carbon:** wedi'i ategu gan y gwaith o adfer rhosydd, rhaglen rheoli rhedyn, creu pyllau a phantiau a merlod yn pori mewn ffordd gynaliadwy.

---

**Addasu i'r Newid yn yr Hinsawdd:** wedi'i ategu gan y gwaith o adfer rhosydd yr ucheldir, rhaglen rheoli rhedyn, creu pyllau a phantiau a merlod yn pori mewn ffordd gynaliadwy.

---

**Cynyddu Bioamrywiaeth:** wedi'i ategu gan y gwaith o adfer rhosydd yr ucheldir, rhaglen rheoli rhedyn, creu pyllau a phantiau, merlod yn pori mewn ffordd gynaliadwy, creu mosäig o rug, cylchdroadau torri a llosgi a chynllun diogelu rhydwyr er mwyn monitro'r amrywiaeth.

---

**Cadernid Ecosystemau:** wedi'i ategu gan y gwaith o adfer rhosydd yr ucheldir, rhaglen rheoli rhedyn, creu pyllau a phantiau, merlod yn pori mewn ffordd gynaliadwy, creu mosäig o rug, cylchdroadau torri a llosgi a chynllun diogelu rhydwyr.

---

**Lleihau Perygl Llifogydd:** wedi'i ategu gan weithgarwch rheoli perygl llifogydd naturiol, creu pyllau a phantiau ac arafu'r llif.

---

**Ansawdd Pridd, Aer a Dŵr:** wedi'i ategu gan y gwaith o adfer rhosydd yr ucheldir, pori mewn ffordd gynaliadwy a chreu pyllau a phantiau.

---

**Iechyd a Lles:** wedi'i ategu gan gyrsiau hyfforddi, rhaglenni addysgol, cydweithio ag elusennau iechyd meddwl, defnyddio dulliau o esbonio mynediad agored, cynnal gweithgareddau hamdden a rhaglen i addysgu grwpiau o ddefnyddwyr tir.

---

**Cydlyniant Cymunedol:** wedi'i ategu gan y gwaith o adfer rhosydd yr ucheldir, cyflogi wardeniaid, cyrsiau hyfforddi, cyfrif adar yn dymhorol, rhaglenni addysgol, cydweithio ag elusennau iechyd meddwl, defnyddio dulliau o esbonio mynediad agored, cynnal gweithgareddau hamdden a rhaglen i addysgu grwpiau o ddefnyddwyr tir.

---

**Sgiliau a Threftadaeth Cefn Gwlad:** wedi'i ategu gan y gwaith o adfer rhosydd yr ucheldir, cyflogi wardeniaid, cyrsiau hyfforddi, ymgysylltu â rhanddeiliaid lleol, rhaglenni addysgol a chynnal gweithgareddau hamdden.

---

**Datblygu Gallu o ran Sgiliau ac Arbenigedd:** wedi'i ategu gan gyflogi wardeniaid, cyrsiau hyfforddi, ymgysylltu â rhanddeiliaid lleol, rhaglenni addysgol, defnyddio dulliau o esbonio mynediad agored a chynnal rhaglen i addysgu grwpiau o ddefnyddwyr tir.

**Cymryd Rhan**: Os hoffech gymryd rhan ym Mhartneriaeth Rhostiroedd Powys neu os oes gennych unrhyw syniadau i'w cyfrannu, cysylltwch â Catherine ar urmyc.sdnalroomsywop@tcatnoc

www.powysmoorlands.cymru/

@WelshUplands

powysmoorlandpartnership

@powysmoorlands

# Golygfa Gwydyr: Pobl a Choedwig

**Sefydliad arweiniol:** Golygfa Gwydyr
**Dyfarniad Grant:** £232,478
**Lleoliad:** Conwy
**E-bost:** rogerd@golygfagwydyr.org

Menter gymdeithasol yn Llanrwst yw Golygfa Gwydyr. Mae'n sefydliad di-elw sy'n cael ei arwain gan y gymuned. Yng nghyd-destun y gymuned leol a'r lle, ei nod yw gwella cydnerthedd cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd a darparu cyfleoedd ar gyfer twf personol a chysylltiadau cymunedol bywiog.

Mae'r prosiect wedi adfer, datblygu a rheoli arboretwm 3 hectar ac wedi rheoli llain 11 hectar o blanhigfa conwydd ungnwd (Caerdroia) yn gynaliadwy gan sicrhau manteision lluosog i'r amgylchedd a'r gymuned leol. Mae'r prosiect yn un sy'n canolbwyntio ar y gymuned ac sy'n gobeithio adeiladu ar y sgiliau, y datblygiadau a'r gwaith meithrin gallu a ddechreuwyd ac a gyflawnwyd o dan y Gronfa Natur. Wrth galon y prosiect mae rheoli a defnyddio adnoddau tir i wella bioamrywiaeth, creu cadernid ein hecosystemau tra'n gwella cyfleusterau hamdden, mynediad, ac adeiladu cymunedau â gwell llesiant ac ymdeimlad o le.

Mae'r angen am y prosiect yn deillio o orlifdir eang Dyffryn Conwy. Mae'n gallu ymdopi â chynnydd yn y llif gan mwyaf, ond ar adegau o law trwm iawn, gall dŵr ffo o ogledd-ddwyrain Coedwig Gwydyr gronni ar orlifdir afon Conwy rhwng yr afon a ffordd y B5106 gan gyfrannu at fwy o achosion o lifogydd yn yr ardal hon o Ddyffryn Conwy.





Bydd y prosiect yn defnyddio atebion arloesol i arafu llif y dŵr o'r goedwig drwy ddefnyddio mesurau rheoli perygl llifogydd naturiol fel argaeau malurion pren. Llwyddiant fydd lleihau faint o ddŵr sy'n cyrraedd llawr y dyffryn dros gyfnod penodol o amser. Bydd y prosiect yn ceisio defnyddio adnoddau naturiol y goedwig, coed wedi'u cwympo a thocion, a dylunio a chreu ardaloedd ar gyfer cronni dŵr.

Nod y prosiect SMS yw cynyddu bioamrywiaeth y safle drwy reoli'r coetir gan ganolbwyntio mwy ar amwynder a bioamrywiaeth yn hytrach na chynhyrchu coed. Bydd hyn yn creu cyfleuster cymunedol/twristiaeth gwerthfawr sy'n darparu adnoddau ar gyfer llesiant ac elw economaidd i'r gymuned.

Canlyniadau cymunedol, iechyd a llesiant disgwyliedig y prosiect yw; cynyddu cyfranogiad unigolion a'r gymuned mewn prosiectau drwy fynd i'r afael â rhwystrau i gyfranogi, hyrwyddo a datblygu sgiliau yn y gymuned, cefnogi cynhwysiant cymdeithasol, darparu cyfleoedd i hyrwyddo llesiant unigolion a'r gymuned, darparu cyfleoedd ar gyfer gwirfoddoli a hyfforddi, hyrwyddo egwyddorion Coedwigaeth Gymdeithasol yng Nghymru.

Bydd Gwyddor Dinasyddion yn cael ei defnyddio hefyd i annog ysgolion a grwpiau cymunedol lleol i gymryd rhan mewn monitro llifoedd a glawiad i bennu effeithlonrwydd y mesurau rheoli perygl llifogydd naturiol ac i ddarparu tystiolaeth ar gyfer prosiectau'r dyfodol.

**Rheoli a Phlannu Coetir:** Adfer a rheoli tir ar ddau safle er mwyn gwella bioamrywiaeth

**Rhaglenni Gwirfoddoli:** Rhaglen wirfoddoli sy'n cynnwys gweithgareddau gwaith coed gwyrdd a chyrsiau hyfforddi achrededig

**Hyfforddiant a Chreu Swyddi:** Rhedeg clwb swyddi a darparu cyrsiau hyfforddi i wella sgiliau a chefnogi'r gymuned leol

**Diogelu rhag Rhywogaethau Goresgynnol:** Gwaredu rhywogaethau goresgynnol yn nalgylch afon Conwy

**Ymgysylltu â'r Gymuned:** Cynnal rhaglenni hamdden a defnyddio gwyddoniaeth dinasyddion i fonitro llifau a glawiad

**Rheoli Perygl Llifogydd yn Naturiol:** Gweithgarwch rheoli perygl llifogydd naturiol gan gynnwys argaeau malurion pren

**Rheoli a Phlannu Coetir:** Rheoli coetiroedd cymunedol a gwasanaeth tanwydd coed



**Dal a Storio Carbon:** wedi'i ategu gan y gwaith o adfer coetiroedd, rheoli perygl llifogydd yn naturiol a rheoli coetiroedd cymunedol.

**Addasu i'r Newid yn yr Hinsawdd:** wedi'i ategu gan y gwaith o adfer coetiroedd, gwyddoniaeth dinasyddion i fonitro glawiad, gweithgarwch rheoli perygl llifogydd naturiol a rheoli coetiroedd cymunedol.

**Cynyddu Bioamrywiaeth:** wedi'i ategu gan y gwaith o adfer coetiroedd, gwaredu rhywogaethau goresgynnol, rheoli perygl llifogydd yn naturiol a rheoli coetiroedd cymunedol.

**Cadernid Ecosystemau:** wedi'i ategu gan y gwaith o adfer coetiroedd, gwaredu rhywogaethau goresgynnol, rheoli perygl llifogydd yn naturiol a rheoli coetiroedd cymunedol.

**Lleihau Perygl Llifogydd:** wedi'i ategu gan y gwaith o adfer coetiroedd, atebion yn seiliedig ar natur, gwyddoniaeth dinasyddion i fonitro glawiad a gweithgarwch rheoli perygl llifogydd naturiol.

**Ansawdd Pridd, Aer a Dŵr:** wedi'i ategu gan y gwaith o adfer coetiroedd, gwaredu rhywogaethau goresgynnol, gwyddoniaeth dinasyddion i fonitro glawiad, gweithgarwch rheoli perygl llifogydd naturiol, rheoli coetiroedd cymunedol a gwasanaeth tanwydd coed.

**Iechyd a Lles:** wedi'i ategu gan raglenni gwirfoddoli, cyrsiau hyfforddi, gwyddoniaeth dinasyddion, rhaglenni hamdden a chlwb swyddi.

**Cydlyniant Cymunedol:** wedi'i ategu gan y gwaith o adfer coetiroedd, rhaglenni gwirfoddoli, cyrsiau hyfforddi, gwyddoniaeth dinasyddion, rhaglenni hamdden a chlwb swyddi.

**Sgiliau a Threftadaeth Cefn Gwlad:** wedi'i ategu gan y gwaith o adfer coetiroedd, rhaglenni gwirfoddoli, cyrsiau hyfforddi, gwyddoniaeth dinasyddion, rhaglenni hamdden, rheoli coetiroedd cymunedol a gwasanaeth tanwydd coed.

**Datblygu Gallu o ran Sgiliau ac Arbenigedd:** wedi'i ategu gan raglenni gwirfoddoli, cyrsiau hyfforddi, gwyddoniaeth dinasyddion, clwb swyddi, rheoli coetiroedd cymunedol a gwasanaeth tanwydd coed.

**Cymryd Rhan**: Mae'r prosiect wedi'i leoli yng nghefn gwlad Conwy a bydd modd i holl drigolion Conwy gymryd rhan ynddo. Bydd angen pobl i helpu i reoli'r safleoedd hyn a datblygu prosiectau i ddwyn pobl ynghyd a mynd â nhw allan i'r goedwig. Os hoffech helpu, ewch i'r adran wirfoddoli ar eu gwefan.

www.golygfagwydyr.org @Golygfa Gwydyr @golygfagwydyr

# Tir a Môr Llŷn

**Sefydliad arweiniol:** Cyngor Gwynedd
**Dyfarniad Grant:** £700,000
**Lleoliad:** Pen Llŷn
**E-bost:** arweljones@gwynedd.llyw.cymru

Mae'r prosiect cydweithredol hwn dan arweiniad Partneriaeth Tirwedd Llŷn yn dwyn grwpiau statudol, amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol ynghyd. Mae'r prosiect yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â'r heriau sy'n effeithio ar yr adnoddau naturiol yn yr ardal y mae cymunedau ym Mhen Llŷn yn dibynnu arnynt.

Ystyrir cynefinoedd arfordirol Pen Llŷn yn un o nodweddion eithriadol yr ardal ac mae'r gydnabyddiaeth ryngwladol o'u pwysigrwydd yn cadarnhau hynny. Er gwaethaf hyn, mae'r llain arfordirol wedi dod dan bwysau cynyddol dros y degawdau yn sgil nifer o newidiadau, gan gynnwys gwelliannau amaethyddol, rhoi'r gorau i bori ar dir comin, pwysau ymwelwyr a ffactorau amgylcheddol gan gynnwys y newid yn yr hinsawdd.

Mae prosiect Tir a Môr Llŷn wedi gwrthweithio yn erbyn rhai o'r bygythiadau hyn ac wedi datblygu a chyflawni camau gweithredu wedi'u targedu i gynnal ac ehangu llain barhaus helaeth o gynefinoedd amrywiol o amgylch yr arfordir. Bydd hyn yn darparu adnodd amhrisiadwy a fydd yn helpu i ddiogelu'r amgylcheddau morol a daearol yn ogystal â datblygu adnodd economaidd a chymdeithasol sylweddol o'i gysylltu â datblygiad Llwybr Arfordir Cymru.

Mae'r bartneriaeth wedi datblygu dull cydweithio a chydweithredol ar lefel leol, gan alluogi pawb dan sylw i ymgysylltu, datblygu a gweithredu cynlluniau gwaith ymarferol. Bydd amser yn cael ei dreulio ar ymgysylltu â'r gymuned ehangach drwy gynnal digwyddiadau lleol ac ymgysylltu ag ysgolion lleol i godi ymwybyddiaeth o fanteision y gwaith.



Bydd y Prosiect yn archwilio'r cysyniad o 'dalu am ganlyniadau' hefyd gyda chymorth tri ffermwr sy'n denantiaid yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Y nod yw creu model ac annog y gymuned ehangach i dreialu a rhedeg y dull newydd.

Mae'r prosiect yn treialu ymyriadau gwahanol, gan gyflwyno'r achos dros gymryd camau strategol pellach i ddiogelu, adfer a chysylltu'r cynefin agored i niwed hwn mewn partneriaeth â thirfeddianwyr a phorwyr yn y dyfodol.

'Talu am ganlyniadau' gyda chymorth tair o ffermydd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Y nod yw creu model ac annog y gymuned ehangach i dreialu a rhedeg y dull newydd. Y gobaith yw y bydd hyn yn arwain at weithredu cynllun amaeth-amgylcheddol fferm gyfan sy'n seiliedig ar ganlyniadau sy'n gwobrwyo ffermwyr am gyflwyno manteision amgylcheddol.

Grymuso ffermwyr i ddatblygu, gweithredu a hunan-fonitro eu gweithredoedd i gyflawni amcanion economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol ar eu ffermydd. Gweithredu modelau cyflawni aml-asiantaeth i wella ansawdd dŵr ar ddalgylchoedd afonydd sy'n dod â manteision ehangach i'r amgylchedd morol.

Rhannu'r gwersi a ddysgir o'r prosiect i amrywiaeth eang o randdeiliaid gan ddefnyddio dulliau traddodiadol a digidol.



**Adfer Cynefinoedd:** Cynnal ac ehangu llain barhaus o gynefin amrywiol ar hyd Penrhyn Llŷn, gan greu coridorau cysylltedd sy'n cysylltu â llwybr arfordir Cymru

**Diogelu rhag Rhywogaethau Goresgynnol:** Datblygu arferion da ym maes rheoli dalgylchoedd a rheoli rhywogaethau goresgynnol

**Ymgysylltu â'r Gymuned:** Cynnal digwyddiadau lleol ac annog ysgolion lleol i gymryd rhan mewn digwyddiadau gan y gymuned leol i lanhau traethau


**Rheoli Parthau Arfordirol:** Datblygu cadernid a chysylltedd ar hyd y forlin drwy weithio'n agos gyda ffermwyr a thirfeddianwyr a rhoi dulliau o adfer cynefinoedd amrywiol ar waith

**Pori Cynaliadwy:** Rheoli tir yn effeithiol drwy sicrhau bod gwartheg a merlod yn pori mewn ffordd gynaliadwy lle bynnag y bo'n bosibl

**Meithrin Cydweithredu a phartneriaethau:** Meithrin cydberthynas waith gryfach rhwng ffermwyr ac arbenigwyr er mwyn gwella ansawdd pridd, aer a dŵr

**Trosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesi:** Datblygu'r treial ffermio Talu am Ganlyniadau cyntaf yng Nghymru a'i roi ar waith, gweithio gyda ffermwyr i ddatblygu camau gweithredu i gyflawni amcanion economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol ar eu ffermydd, eu gweithredu a'u hunanfonitro

**Rhaglenni Addysgol:** Datblygu adnoddau addysgol newydd â phartneriaid y prosiect er mwyn rhannu gwell dealltwriaeth o'r cysylltedd rhwng yr amgylcheddau daearol a morol





**Dal a Storio Carbon:** wedi'i ategu gan y gwaith o gynnal cynefin amrywiol, datblygu coridorau cysylltedd ar hyd y forlin, pori mewn ffordd gynaliadwy a meithrin cydberthnasau rhwng ffermwyr ac arbenigwyr er mwyn gwella ansawdd pridd, aer a dŵr.

---




**Addasu i'r Newid yn yr Hinsawdd:** wedi'i ategu gan y gwaith o gynnal cynefin amrywiol, datblygu coridorau cysylltedd ar hyd y forlin, pori mewn ffordd gynaliadwy, datblygu treial ffermio Talu am Ganlyniadau a datblygu adnoddau addysgol er mwyn gwella dealltwriaeth o'r rhyng-gysylltedd rhwng amgylcheddau ar y tir a'r môr.

---




**Cynyddu Bioamrywiaeth:** wedi'i ategu gan y gwaith o gynnal cynefin amrywiol, rheoli rhywogaethau ymledol, datblygu coridorau cysylltedd ar hyd y forlin, pori mewn ffordd gynaliadwy a chreu adnoddau addysgol er mwyn gwella dealltwriaeth o'r rhyng-gysylltedd rhwng amgylcheddau ar y tir a'r môr.

---



**Cadernid Ecosystemau:** wedi'i ategu gan y gwaith o gynnal cynefin amrywiol, rheoli rhywogaethau goresgynnol, annog ysgolion lleol i gymryd rhan mewn gweithgarwch glanhau traethau, datblygu coridorau cysylltedd ar hyd y forlin a chreu adnoddau addysgol er mwyn gwella dealltwriaeth o'r rhyng-gysylltedd rhwng amgylcheddau ar y tir a'r môr.

---




**Ansawdd Pridd, Aer a Dŵr:** wedi'i ategu gan y gwaith o gynnal cynefin amrywiol, gweithgarwch glanhau traethau a meithrin cydberthnasau rhwng ffermwyr ac arbenigwyr er mwyn gwella ansawdd pridd, aer a dŵr.

---




**Iechyd a Lles:** wedi'i ategu gan y gwaith o gynnal cynefin amrywiol ar hyd llwybr arfordir Cymru a chreu adnoddau addysgol er mwyn gwella dealltwriaeth o'r rhyng-gysylltedd rhwng amgylcheddau ar y ar y tir a'r môr.

---



**Cydlyniant Cymunedol:** wedi'i ategu gan y gwaith o gynnal cynefin amrywiol, cynnal digwyddiadau lleol, annog ysgolion lleol i gymryd rhan mewn gweithgarwch glanhau traethau, meithrin cydberthnasau rhwng ffermwyr ac arbenigwyr a chreu adnoddau addysgol.

---



**Sgiliau a Threftadaeth Cefn Gwlad:** wedi'i ategu gan y gwaith o gynnal cynefin amrywiol, cynnal digwyddiadau lleol, annog ysgolion lleol i gymryd rhan mewn gweithgarwch glanhau traethau, meithrin cydberthnasau rhwng ffermwyr ac arbenigwyr a chreu adnoddau addysgol.

---



**Datblygu Gallu o ran Sgiliau ac Arbenigedd:** wedi'i ategu gan y gwaith o reoli rhywogaethau goresgynnol, annog ysgolion lleol i gymryd rhan mewn gweithgarwch glanhau traethau, datblygu treial ffermio Talu am Ganlyniadau a chreu adnoddau addysgol er mwyn gwella dealltwriaeth o'r rhyng-gysylltedd rhwng amgylcheddau ar y tir a'r môr.

**Cymryd Rhan:** Os hoffech ddysgu mwy neu gymryd rhan yng ngwaith Partneriaeth Tirwedd Llŷn, mae rhagor o wybodaeth ar gael yn:

www.ahne-llyn-aonb.org/Tir-a-M-r-Ll-n-Project

# Lles Ein Hafonydd: Atebion sy'n Seiliedig ar Natur yn Nalgylch Glannau Dyfrdwy

**Sefydliad arweiniol:** Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru

**Dyfarniad Grant:** £700,000

**Lleoliad:** Dalgylch afon Dyfrdwy yng Ngogledd Cymru

**E-bost:** helen.carter-emsell@northwaleswildlifetrust.org.uk

Mae Prosiect Lles Ein Hafonydd, sy'n rhan o strategaeth Tirwedd Fyw Ymddiriedolaethau Natur Gogledd Cymru, yn dangos sut mae YNGC yn mynd ati i symud pobl sy'n cydweithio er lles bywyd gwyllt. Roedd y prosiect yn canolbwyntio ar iechyd a lles Gwarcheidwaid Afonydd Gwirfoddol ac yn mynd i'r afael ar yr un pryd â rhywogaethau estron goresgynnol (INNS) er mwyn rheoli Dalgylch afon Dyfrdwy mewn ffordd gynaliadwy.



Mae'r prosiect yn canolbwyntio ar reoli, gwaredu ac atal INNS rhag lledaenu yn y dalgylch mawr hwn. Mae dalgylch afon Dyfrdwy yn 110km o hyd ac mae'n cynnwys Afonydd Dyfrdwy, Alyn, Alwen, Clywedog, Ceiriog, Wych a Tryweryn a Llyn Tegid, Llyn Brenig, Llyn Celyn a Chronfa Ddŵr Alwen. Mae cryn dipyn o ardaloedd dynodedig yn y y dalgylch, Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol, safle RAMSAR, tair Gwarchodfa Natur Genedlaethol, tair Ardal Cadwraeth Arbennig a thair ar ddeg ar hugain o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Mae'r ardal hefyd yn enwog am ei thirnodau, yn ogystal â'i mannau pysgota a chanŵio ardderchog, ac mae pob un ohonynt yn denu ymwelwyr o bedwar ban byd.

Cydnabuwyd mai INNS yw un o'r prif fygythiadau i fioamrywiaeth. Maent yn gallu:

- Cystadlu â rhywogaethau brodorol am ofod, golau, dŵr a bwyd
- Gwneud ein hamgylcheddau'n fwy agored i ragor o rywogaethau goresgynnol
- Lleihau ein gallu i ddefnyddio a mwynhau cyrff dŵr ar gyfer chwaraeon a hamdden
- Cael effaith negyddol ar dwristiaeth a'r economi leol
- Arafu llif afonydd a chynyddu'r perygl o lifogydd a difrod i seilwaith.



Bu'r prosiect yn cydweithio â sawl grŵp gweithredu ac mae wedi datblygu Rhwydwaith Gwarcheidwaid Afonydd; grŵp o wirfoddolwyr ymroddedig sy'n cyfarfod yn rheolaidd i ymgymryd ag amrywiaeth eang o weithgareddau, gan gynnwys gwaith arolygu hanfodol ar hyd afon Dyfrdwy a'i hisafonydd. Maent yn casglu data fel y bo modd ymyrryd yn strategol yn y ffordd fwyaf effeithiol. Mae INNS yn cael eu gwaredu ar raddfa fawr gan y prosiect, ac mae'n clirio ardaloedd mawr o rywogaethau goresgynnol fel Jac y Neidiwr a Clymog Japan.



© YNGC

Mae cyllid y prosiect yn rhoi cyfle i wirfoddolwyr fanteisio ar hyfforddiant achrededig a heb ei achredu.
Mae'r prosiect yn cynnal sesiynau gwirfoddoli rheolaidd mewn sgiliau traddodiadol fel bondocio, pladuro, defnyddio offer, ac iechyd a diogelwch, ochr yn ochr â meithrin sgiliau arolygu, monitro a chasglu data, er mwyn gwella rhagolygon gyrfa a helpu i feithrin gallu a sgiliau yn y gymuned.



Ochr yn ochr â'r gwaith hwn sy'n cael ei wneud ar raddfa fawr i reoli INNS, mae cyfleoedd i aelodau'r cymunedau lleol, drwy'r rhwydwaith gwirfoddolwyr, gymryd rhan mewn sesiynau ymwybyddiaeth ofalgar, sgiliau byw'n wyllt a gweithgareddau awyr agored er mwyn hyrwyddo'u lles drwy ddod i gysylltiad â natur.



**Rhaglenni Gwirfoddoli:** Mae'r fenter Gwarcheidwaid Afonydd Gwirfoddol yn dod â dros 50 o unigolion ynghyd i gynnal arolygon ac i gael gwared ar INNS, ac mae sesiynau'n cael eu cynnal bob wythnos ar iechyd a lles, sgiliau traddodiadol fel bondocio, gwneud clwydi cyll, defnyddio a gofalu am offer, a chynnau tanau

**Meithrin Cydweithredu a Phartneriaethau:** Cyfarfodydd gyda mwy na 15 o sefydliadau eraill i rannu gwybodaeth am y gwaith y mae YNGC yn ei wneud ar y prosiect, i gydweithio a chyflwyno sesiynau a digwyddiadau ar y cyd, i recriwtio gwirfoddolwyr a rhannu syniadau/ffyrdd o weithio

**Trosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesi:** Roedd dros 300 o randdeiliaid yn gysylltiedig â'r prosiect, gan rannu arferion gorau a llwyddiant

**Hyfforddiant a Chreu Swyddi:** Mae 238 o ddiwrnodau hyfforddi wedi'u darparu gan y prosiect ac mae mwy wedi'u trefnu

**Rhaglenni Addysgol:** Mae 30 o unigolion wedi ennill cymhwyster drwy fod yn rhan o'r prosiect

**Cynyddu Mynediad i Fannau Awyr Agored:** 200 diwrnod o weithgareddau a galluogi pobl i fwynhau natur a defnyddio adnoddau naturiol er lles eu hiechyd

**Diogelu rhag Rhywogaethau Goresgynnol:** Ymyriadau ar raddfa fawr ar draws y dalgylch. Mae gwarcheidwaid afonydd yn cynnal arolygon er mwyn dod o hyd i INNS ar hyd afon Dyfrdwy ac mae'r data hynny'n golygu bod modd gweithio mewn ffordd strategol wedi'i thargedu i waredu ac atal INNS ar fwy na 30 o safleoedd

**Rheoli a Phlannu Coetiroedd:** Plannwyd tua 100 o goed

**Diogelu rhag Rhywogaethau Goresgynnol:** Cyflwynwyd 5 o Baneli Bioddiogelwch er mwyn rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd am INNS a sut i ddiogelu'n hecosystemau rhagddynt

**Adfer Cynefinoedd:** Yn y mannau lle mae INNS wedi cael eu rheoli, mae gwaith monitro wedi dangos bod rhywogaethau wedi'u hadfer; mae rhywogaethau brodorol fel Erwain, Blodau Ymenyn, Llygaid y Dydd, Dant y Llew, i gyd bellach yn gallu tyfu yn yr ardaloedd hynny, gan greu ecosystem fwy cydnerth

**Ymaddasu i'r Newid yn yr Hinsawdd:** fe'i cefnogwyd gan waith i Ddiogelu rhag Rhywogaethau Goresgynnol, drwy ymyriadau ar raddfa fawr ar draws y dalgylch, drwy waredu ac atal INNS mewn ffordd strategol ac effeithiol wedi'i thargedu ar fwy na 30 o safleoedd.

---

**Cynyddu Bioamrywiaeth:** fe'i cefnogwyd gan waith i Adfer Cynefinoedd. Yn y mannau lle mae INNS wedi cael eu rheoli, mae gwaith monitro wedi dangos bod rhywogaethau brodorol, fel Erwain, Blodau Ymenyn, Llygaid y Dydd, Dant y Llew, wedi cael eu hadfer a'u bod i gyd bellach yn gallu tyfu yn yr ardaloedd hynny, gan greu ecosystem fwy cydnerth.

---

**Cadernid Ecosystemau:** fe'i cefnogwyd gan waith i Adfer Cynefinoedd. Yn y mannau lle mae INNS wedi cael eu rheoli, mae gwaith monitro gofalus wedi dangos bod rhywogaethau brodorol wedi cael eu hadfer. Plannwyd tua 100 o goed ac aed ati mewn ffordd strategol ac effeithiol wedi'i thargedu i waredu ac atal INNS ar fwy na 30 o safleoedd.

---

**Iechyd a Lles:** fe'u cefnogwyd gan Raglenni Gwirfoddoli sy'n dod â thros 50 o unigolion ynghyd i gael gwared ar INNS a chynnal arolygon arnynt, a chan sesiynau wythnosol ar iechyd a lles, a sgiliau traddodiadol fel bondocio, gwneud clwydi cyll, defnyddio a gofalu am offer, a chynnau tanau.

---

**Cydlyniant Cymunedol:** fe'i cefnogwyd gan waith i Feithrin Cydweithrediad a Phartneriaethau gyda mwy na 15 o sefydliadau er mwyn rhannu gwybodaeth am y gwaith y mae YNGC yn ei wneud ar y prosiect, er mwyn cydweithio, cyflwyno sesiynau a digwyddiadau ar y cyd, recriwtio gwirfoddolwyr a rhannu syniadau/ffyrdd o weithio ledled y gymuned ehangach.

---

**Datblygu Gallu o ran Sgiliau ac Arbenigedd:** fe'i cefnogwyd gan waith ar Drosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesi. Bu dros 300 o randdeiliaid yn gysylltiedig â'r prosiect, gan rannu arferion gorau a llwyddiant. Darparwyd 238 o ddiwrnodau hyfforddi drwy gyfrwng y prosiect ac mae mwy ar y gweill. Rhaglenni Addysgol lle'r enillodd 30 o unigolion gymhwyster ar gyfer y gweithle drwy fod yn rhan o'r prosiect.

---

**Iechyd a Lles:** fe'u cefnogwyd gan waith i greu Mwy o Fynediad i Fannau Awyr Agored. Darparwyd 200 o ddiwrnodau o weithgareddau a chyfleoedd i bobl fwynhau natur a defnyddio adnoddau naturiol er lles eu hiechyd.

**Cymryd Rhan:** Os hoffech ddysgu mwy neu gymryd rhan yn y gwaith sy'n cael ei wneud gan Lles Ein Hafonydd, gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth yma: www.northwaleswildlifetrust.org.uk

www.youtube.com/watch?v=I5NKC_MUBPU&t=22s

@North Wales Wildlife Trust

# Datblygu Gallu Dalgylchoedd i Wrthsefyll Newidiadau (BRICs)

**Sefydliad arweiniol:** PLANED
**Dyfarniad Grant:** £609,549
**Lleoliad:** Sir Benfro
**E-bost:** paul.renfro@pembrokeshirecoastalforum.org.uk

Prosiect, dan arweiniad PLANED, i weithredu ar y cyd ar raddfa'r dirwedd gyfan, gan weithio mewn partneriaeth â Cyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru i ddwyn ynghyd ffermwyr, diwydiannau, cadwyni cyflenwi, sefydliadau amgylcheddol a chymunedau lleol er mwyn "Datblygu Gallu Dalgylchoedd i Wrthsefyll Newidiadau" (BRICs).

Mae BRICs yn brosiect ymchwil sy'n mabwysiadu dull arloesol o reoli adnoddau naturiol yn yr ardal, er budd cymunedau a busnesau'r ardal. Bydd hefyd yn cyfrannu at ddatblygiad economaidd cynaliadwy yn yr ardal drwy ganiatáu i fusnesau dyfu gan leihau, ar yr un pryd, lefel gyffredinol y maethynnau sy'n mynd i Ddalgylch Aberdaugleddau a Chleddau.



Bydd PLANED yn gweithio gyda ffermydd uwchben cronfa ddŵr Llys-y-frân, Pont Pelcomb a Chors Winterton, gan edrych ar y dalgylch yn ei gyfanrwydd er mwyn galluogi'r prosiect i nodi lle y gellir rhoi'r mesurau strategol gorau posibl ar waith i wella iechyd y pridd ac ansawdd y dŵr. Ymhlith y mesurau hynny, sy'n rhai wedi'u targedu, mae mapio maethynnau yn y pridd, dulliau ac ymyriadau arloesol, ffermio manwl-gywir a chreu gwlyptiroedd integredig, sydd oll yn anelu at adeiladu ecosystemau cydnerth drwy leihau llygredd amaethyddol.

Mae'r prosiect yn cynnig cyngor, arweiniad a chymorth arbenigol i ffermwyr, gan gynnwys cynlluniau cynghori sy'n canolbwyntio ar faethynnau, ac mae'n helpu i sicrhau cyllid ar gyfer mapio maethynnau yn y pridd mewn modd sydd wedi'i dargedu, ffermio manwl-gywir a, lle bo'n berthnasol, creu gwlyptiroedd fferm.



Mae'r prosiect yn gweithio'n agos gyda'i bartneriaid, Dŵr Cymru, sy'n chwarae rhan weithredol yn y gwaith. Mae'r arian cyfatebol a ddarperir gan Dŵr Cymru yn cael ei ddefnyddio i fonitro a rhannu data am ansawdd dŵr o is-ddalgylchoedd Pelcomb Brook a Llys-y-frân, sy'n helpu i lywio'r prosiect.

Mae'r prosiect yn edrych ar y posibilrwydd o gyfleoedd buddsoddi yn Sir Benfro yn y dyfodol drwy ddatblygu fframwaith ar gyfer creu menter a fydd yn gallu rhedeg cynllun masnachu yn seiliedig ar faethynnau. Gallai cynllun o'r fath dalu rheolwyr tir am gymryd camau y tu hwnt i'r gofynion rheoliadol a fydd o fudd i'r amgylchedd naturiol er mwyn sicrhau datblygu economaidd cynaliadwy a chyfleoedd buddsoddi yn yr ardal yn y dyfodol.

Bydd y mesurau hefyd yn galluogi ffermwyr i fod yn barod am dywydd eithafol a pherygl llifogydd, gan liniaru effeithiau'r newid yn yr hinsawdd. Ar yr un pryd, byddant yn caniatáu twf gwyrdd a chyfleoedd i gysylltu cynefinoedd, gan wella bioamrywiaeth.

Bydd Fforwm Arfordir Sir Benfro yn arddangos manteision y camau a gymerir ar y ffermydd peilot, gan edrych ar y budd economaidd a chyfleoedd buddsoddi i ffermwyr yr ardal yn y dyfodol. Pe byddai Dyfrffordd Aberdaugleddau yn lanach, gallai gwerth hynny i fuddsoddwyr diwydiannol yn y dyfodol baratoi'r ffordd ar gyfer cynllun masnachu maethynnau, gan dalu ffermwyr a rheolwyr tir i greu dŵr glanach. Byddai hynny'n caniatáu datblygu masnachol yn y dyfodol ac yn gwrthdroi dirywiad amgylcheddol.

Dywedodd Ged Davies, Cydlynydd BRICs PLANED: "Gyda'r holl ansicrwydd sy'n wynebu ffermio a'r pwysau ar yr amgylchedd, ni ellid bod wedi amseru'r prosiect hwn yn well. Bydd y prosiect yn helpu i wella gallu ffermydd i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd, gan wella perfformiad ffermydd yn economaidd ac yn amgylcheddol".

Dywedodd Paul Renfro o Fforwm Arfordir Sir Benfro: "Yn ogystal a'r gwelliannau ar lawr gwlad a fydd yn cael eu gwneud i ansawdd y dŵr yn ystod y prosiect hwn, mae'n bwysig bod fframwaith neu broses yn cael ei sefydlu a fydd yn caniatáu incwm newydd i berchenogion tir, a fydd yn dod â swyddi a thwf i Sir Benfro, ac a fydd o fudd i'r amgylchedd ar yr un pryd".

Nod y partneriaid yw gwneud arferion gorau yn rhai cyffredin, gan ddangos sut y gall cydweithio fod o fudd i fusnesau fferm a chymunedau a helpu i sicrhau cynaliadwyedd hirdymor i'r ardal.





**Lleihau Llygredd Amaethyddol:** Dros 20 o ffermydd wedi cymryd rhan ac wedi cael cynlluniau cadernid ffermydd gyda 880ha o bridd yn cael ei samplu a'i fapio gan ddefnyddio offer sganio dargludedd trydan. Mae cynllun peilot i greu gwlyptir wedi'i gwblhau bellach yn Llys-y-frân ac mae'r astudiaeth ddichonoldeb yn parhau, gan gefnogi ymchwil i'w effeithiolrwydd

**Hyfforddiant a Chreu Swyddi:** Dros 60 wedi cymryd rhan ar draws y dalgylch, gan fynd i ddigwyddiadau ymwybyddiaeth a hyfforddiant ar iechyd pridd ac ansawdd dŵr ac ar storio a gwaredu slyri yn ddiogel.

**Meithrin Cydweithredu a phartneriaethau:** Sawl digwyddiad ar gyfer rhanddeiliaid er mwyn rhoi gwybodaeth i fusnesau fferm yn yr ardal, a grŵp llywio wedi'i sefydlu

**Hyfforddiant a Chreu Swyddi:** Tair swydd wedi'i chreu

**Trosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesi (KT&I):** Datblygu fframwaith ar gyfer creu menter a fydd yn gallu rhedeg cynllun masnachu yn seiliedig ar faethynnau. Gallai cynllun o'r fath dalu rheolwyr tir am gymryd camau y tu hwnt i'r gofynion rheoliadol a fydd o fudd i'r amgylchedd naturiol er mwyn sicrhau datblygu economaidd cynaliadwy a chyfleoedd buddsoddi yn yr ardal yn y dyfodol

**Ymaddasu i'r Newid yn yr Hinsawdd:** fe'i cefnogwyd drwy fapio maethynnau yn y pridd mewn modd wedi'i dargedu, drwy ffermio manwl-gywir a, lle bo'n berthnasol, drwy greu gwlyptiroedd ar ffermydd.

**Cadernid Ecosystemau:** fe'i cefnogwyd drwy roi mesurau wedi'u targedu ar waith, gan gynnwys mapio maethynnau yn y pridd, dulliau ac ymyriadau arloesol, ffermio manwl-gywir a chreu gwlyptiroedd integredig.

**Ansawdd pridd, aer a dŵr:** fe'i cefnogwyd drwy roi mesurau wedi'u targedu ar waith, gan gynnwys mapio maethynnau yn y pridd, dulliau ac ymyriadau arloesol, ffermio manwl-gywir a chreu gwlyptiroedd integredig.

**Datblygu Gallu o ran Sgiliau ac Arbenigedd:** fe'i cefnogwyd gan y camau a gymerwyd ar y ffermydd peilot, lle'r aed ati i edrych ar y budd economaidd a chyfleoedd buddsoddi i ffermwyr yr ardal yn y dyfodol drwy gynllun masnachu maethynnau, gan dalu ffermwyr a rheolwyr tir i greu dŵr glanach, a fyddai'n caniatáu datblygu masnachol yn y dyfodol ac yn gwrthdroi dirywiad amgylcheddol.

**Cymerwch ran:** Os hoffech ddysgu mwy neu gymryd rhan yn y gwaith sy'n cael ei wneud gan BRICS, gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth yma:

www.planed.org.uk/projects/brics/ @PLANED.Pembs/ @PLANED_Pembs/

# Bioamrywiaeth ar waith

**Sefydliad arweiniol:** Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru
**Dyfarniad Grant:** £388,438
**Lleoliad:** Wardiau Gwledig Holt a Marchwiel
**E-bost:** acljones@wildlifetrustswales.org

Ffocws y prosiect hwn yw Ystad Ddiwydiannol Wrecsam sy'n lleoliad mawr (550ha) a gwledig. Gweledigaeth Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru yw sicrhau bod y dirwedd o fewn yr ystad ddiwydiannol ac o'i hamgylch yn fwy croesawgar i fywyd gwyllt, yn haws i bobl gael mynediad ato ac yn fwy deniadol i fusnesau. Dymunir hefyd wella lechyd a lles gweithwyr a chymunedau cyfagos. Maent yn cyflawni hyn drwy gydweithio â busnesau lleol, partneriaid, gweithwyr a'r gymuned leol fel bod y lleoliad yn fwy cynhwysol ac o fudd i bawb.

Bydd y prosiect yn rhoi blaenoriaeth i weithgareddau gwella ar y tir ac yn datblygu cynllun strategol ar gyfer y dirwedd er mwyn helpu i gynnal a chyflawni gwelliannau a manteision at y dyfodol. Bydd pwyslais ar seilwaith gwyrdd gan gynnwys plannu blodau gwyllt, adfer llwybrau cyhoeddus, plannu coed cynhenid, plannu perthi a dangos technegau peirianneg feddal a fydd yn helpu i gadw dŵr wyneb a gwella coridorau bywyd gwyllt. Bydd hyn hefyd yn creu lle mwy dymunol i weithwyr yn yr ardal.

Mae ymgysylltu â'r cymunedau lleol cyfagos a chynnig cyfleoedd gwirfoddoli yn rhan o ddull hirdymor y prosiect. Y nod yw creu ymdeimlad o berchenogaeth o'r dirwedd ymhlith y bobl sy'n gweithio, yn byw ac yn mwynhau cyfleoedd hamdden yr ardal.



Mae gweithgareddau'r prosiect yn cynnwys agor gwarchodfeydd natur cyhoeddus, gosod ardaloedd picnic, plannu perllannau, gosod arwyddion, lleihau sbwriel, gosod cerfluniau trawiadol, plannu blodau gwyllt lliwgar mewn lleiniau a chylchfannau, gwella mynediad a llwybrau a hefyd ennyn brwdfrydedd pobl ynghylch yr ystad.

Mae'r prosiect hefyd yn cynnig cymorth corfforaethol i fusnesau sy'n dymuno cefnogi gwelliannau amgylcheddol mewn ffyrdd amgen ar eu safleoedd. Mae'r prosiect yn cynnig 'Partneriaethau Naturiol' er mwyn helpu busnesau i wireddu manteision cynnwys mannau gwyrdd ar eu safleoedd. Y nod yw cydweithio ag amryfal fusnesau a chwmnïau lleol ar draws yr ystad, er mwyn datblygu cynlluniau rheoli hirdymor i weithredu atebion seiliedig ar natur ar gyfer gwella cynefinoedd a mannau amwynder. Gobeithir hefyd fynd i'r afael â phroblemau cymdeithasol ac amgylcheddol ehangach, cefnogi lles a chynhyrchiant staff, lleihau costau a dwyn ynghyd yr economi, y gymdeithas a'r amgylchedd.

Mae'r prosiect yn bwriadu cynnal cyfres o ddigwyddiadau er mwyn cyflwyno ochr mwy gwyllt Ystad Ddiwydiannol Wrecsam ac maent eisoes yn rheoli dwy ardal o fewn yr ystad ddiwydiannol sydd â mynediad i'r cyhoedd, gan agor llwybrau cerdded ar gyfer ymwelwyr a gweithwyr fel y gallant ddarganfod a gwneud ymarfer corff.

Mae'r prosiect yn llwyddo i gyflawni atebion sy'n seiliedig ar natur er mwyn helpu i hyrwyddo bioamrywiaeth a lles cymdeithasol a hefyd ymgysylltu ar draws y safle anarferol yma.



**Cynyddu Mynediad i Fannau Awyr Agored:** Datblygu seilwaith gwyrdd a mynediad i ymwelwyr mewn sawl safle gan osod llwybrau wedi'u marcio, meinciau, 10 o fyrddau picnic, gorsafoedd bwydo adar, gwestai chwilod ac arwyddion. Mae gwerth 3.5km o lwybrau mynediad wedi cael eu creu neu eu hadfer

**Adfer cynefinoedd:** Plannu perllannau, gosod perthi, gan greu gwerth 600m o leiniau bywyd gwyllt ac 8 o gylchfannau blodau gwyllt, rheoli gweirgloddiau drwy hau a thorri a phlannu 2500 o blanhigion cyrs ar lannau ystum yr Afon Dyfrdwy er mwyn cynnal y 1000 o rywogaethau sydd i'w cael yn yr ardal

**Meithrin trefniadau cydweithredu a phartneriaethau:** Ymgysylltu â hyd at 200 o randdeiliaid; aelodau o'r cymunedau, busnesau, ffermwyr a thirfeddianwyr, grwpiau cymunedol a sefydliadau amgylcheddol a chadwraeth lleol sy'n derbyn cyngor, cyfarwyddyd a gwybodaeth drwy'r prosiect

**Rhaglenni Gwirfoddoli:** Mae 125 o wirfoddolwyr wedi'u cofrestru i gyflawni gwaith codi sbwriel, adfer perthi, plannu coed, tirweddu, adfer ardaloedd mynediad a chreu cynefinoedd tra'n cefnogi Iechyd a lles y gymuned leol

**Rheoli a Phlannu Coetiroedd:** Creu a chefnogi 9ha o goetiroedd drwy blannu 600 o goed cynhenid, creu coedlannau a llanerchi, gosod blychau nythu, creu perllannau a gwella coetiroedd ar gyfer bywyd gwyllt, mapio coed presennol a gosod Gorchmynion Diogelu Coed lle y bo'n briodol

**Pori Cynaliadwy:** Pori dwysedd isel mewn safleoedd strategol gyda bridiau cynhenid sy'n anelu at leihau uchder y tyweirch glaswellt er mwyn galluogi blodau gwyllt i dyfu gydol misoedd y gwanwyn a'r haf

**Hyfforddiant a Chreu Swyddi:** Hyfforddiant codi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a chyrsiau ynghylch diogelwch ar ddŵr wedi'u cynnal, gan ddiogelu 3 o swyddi. Y nod ehangach yw sicrhau twf economaidd yr ystad ddiwydiannol

**Trosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesi (KT&I):** Cynnal gwerthusiad yn seiliedig ar egwyddorion Enillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad, fframwaith ar gyfer mesur a chyfrif am y cysyniad llawer iawn ehangach hwn o werth; y nod yw lleihau anghydraddoldeb a dirywiad amgylcheddol a gwella lles drwy gynnwys costau a manteision cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd

**Dal a Storio Carbon:** caiff hyn ei gyflawni drwy blannu perllannau, gosod ac adfer perthi, plannu blodau gwyllt a choed, rheoli gweirgloddiau, creu cynefinoedd, creu a chefnogi coetiroedd, bondocio, creu llennyrch, mapio coed presennol a phori cynaliadwy.

**Addasu i'r Newid yn yr Hinsawdd:** caiff hyn ei gyflawni drwy blannu perllannau, gosod ac adfer perthi, plannu coed, rheoli gweirgloddiau, creu cynefinoedd, creu a chefnogi coetiroedd, bondocio, creu llennyrch a phori cynaliadwy.

**Gwell Bioamrywiaeth:** caiff hyn ei gyflawni drwy orsafoedd bwydo adar a bocsys nythu, gwestai chwilod, plannu perllannau, creu ac adfer perthi, plannu blodau gwyllt, cyrs a choed, codi sbwriel, creu cynefinoedd, creu a chefnogi coetiroedd, creu llennyrch a phori cynaliadwy.

**Cadernid Ecosystemau:** caiff hyn ei gyflawni drwy orsafoedd bwydo adar a bocsys nythu, gwestai chwilod, plannu perllannau, creu ac adfer perthi, plannu blodau gwyllt, cyrs a choed, codi sbwriel, creu cynefinoedd, creu a chefnogi coetiroedd, creu llennyrch a phori cynaliadwy.

**Iechyd a Lles:** caiff hyn ei gyflawni drwy greu ac adfer llwybrau mynediad, cyfleoedd gwirfoddoli ym maes cadwraeth, tirweddu a chynnal gwerthusiad ar sail Enillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad.

**Cydlyniant Cymunedol:** caiff hyn ei gyflawni drwy greu ac adfer llwybrau mynediad, ymgysylltu â rhanddeiliaid, cynnig cyngor a chyfarwyddyd i gymunedau lleol, cyfleoedd gwirfoddoli ym maes cadwraeth, hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg, diogelu swyddi a chynnal gwerthusiad ar sail egwyddorion Enillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad.

**Sgiliau a Threftadaeth Cefn Gwlad:** caiff hyn ei gyflawni drwy hyfforddiant i godi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg, cyfleoedd gwirfoddoli ym maes cadwraeth, gosod ac adfer perthi, plannu blodau gwyllt a choed, rheoli gweirgloddiau, tirweddu, bondocio a chreu llennyrch.

**Datblygu Gallu o ran Sgiliau ac Arbenigedd:** caiff hyn ei gyflawni drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid, cynnig cyngor a chyfarwyddyd i gymunedau lleol, hyfforddiant codi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg, cynnal cyrsiau ymwybyddiaeth o ddiogelwch wrth ddŵr, a chynnal gwerthusiad sy'n seiliedig ar egwyddorion Enillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad. Cydweithio ag amryfal fusnesau a chwmnïau lleol ar draws yr ystad.

**Cymryd Rhan:** Os hoffech ddysgu mwy neu gymryd rhan yng ngwaith Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru, mae rhagor o wybodaeth ar gael yn:

www.northwaleswildlifetrust.org.uk/cy  @northwaleswildlifetrust  @northwaleswildlifetrust

# Cynllun Dalgylch Yr Afon Eden

**Sefydliad arweiniol:** Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
**Dyfarniad Grant:** £815,444
**Lleoliad:** Ardal Dalgylch Afon Eden, Gwynedd
**E-bost:** Rhys.Owen@eryri-npa.gov.uk

Prosiect dan arweiniad ffermwyr, yn canolbwyntio ar wella cadernid ecolegol Afon Eden a'i llednentydd ar raddfa'r dalgylch cyfan, gwella ansawdd y dŵr ac adfer cynefinoedd.



Cydweithredodd grŵp o 19 o fusnesau fferm a thirfeddianwyr yn yr ardal cadwraeth arbennig hon ar y prosiect a chyda cymorth a chefnogaeth Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ("yr Awdurdod") aethant ati i gymryd camau amrywiol i fynd i'r afael â llygredd amaethyddol ac i wella cadernid ecosystem yr ardal hon. Rhoddwyd atebion ar sail natur ar waith a gwnaed llawer o waith cyfalaf ar ffermydd, y cwbl â'r bwriad o wella ansawdd dŵr dalgylch yr afon, gan ganolbwyntio ar reoli misglod perlau dŵr croyw a geir yn yr ardal ac sydd mewn perygl.



Golygodd weithio ar y cyd i ymyriadau strategol gael eu rhoi ar waith ar raddfa fawr, fel plannu a rheoli coed collddail brodorol, adfer cynefinoedd naturiol ac edrych ar ddulliau o atal erydiad gyda'r nod o wella bioamrywiaeth ar draws y dalgylch. Mae gwaith wedi'i wneud i amnewid hen seilwaith am adnoddau newydd, newid 'lleiniau cysgodi' conwydd yn ôl i goetir brodorol a gwella cynefinoedd ar hyd glannau Afon Eden a'i llednentydd.

Elfen allweddol arall i'r prosiect oedd datblygu'r feithrinfa goed leol ym Mhlas Tan-y-Bwlch er mwyn gallu darparu coed brodorol o safon sy'n tarddu o'r ardal i dirfeddianwyr fel rhan o'r cynllun hwn, ac i eraill ledled y Parc Cenedlaethol.

Edrychodd y prosiect ar broblemau eraill yn y dalgylch ehangach a gweithiodd mewn partneriaeth â'r awdurdodau perthnasol i fynd i'r afael â nhw. Arweiniodd hyn at adeiladu pont newydd dros Afon Eden yn lle rhyd a oedd yn cael ei groesi'n rheolaidd gan gerbydau. Canlyniad y gwaith seilwaith hwn oedd lleihau'r effaith ar ansawdd dŵr Afon Eden.

Edrychodd y prosiect hefyd ar ffyrdd o wella dyluniad y planhigfeydd masnachol yn yr ardal a'r cynefinoedd o'u cwmpas. Cynlluniwyd i gael gwared arnynt o fawndiroedd gan ei gwneud yn bosibl i blannu coed brodorol a chaniatáu aildyfiant naturiol lle'r oedd hynny'n briodol.

Gwnaed cynlluniau i ymchwilio i ymarferoldeb creu llwybr aml-ddefnyddiwr i gysylltu cymuned Trawsfynydd â'r ganolfan beicio mynydd wych yng Nghoed-y-Brenin i wella profiad ymwelwyr a chydnabod y gweithgareddau hamdden a'r twristiaeth awyr agored y mae'r ardal yn eu cynnig.

Mae'r prosiect wedi cynyddu ymwybyddiaeth ymhlith y gymuned leol a thu hwnt, gan ddarparu digon o gyfleoedd i wirfoddoli a dysgu ac wedi ennyn diddordeb y gymuned leol. Mae'r prosiect hefyd wedi cynnig profiad gwaith ac interniaethau sy'n galluogi unigolion i ddatblygu eu sgiliau ar gyfer gyrfa yn y sector tra'n cyfrannu'n gadarnhaol at amcanion y prosiect.



**Adfer Cynefinoedd:** Gwella ffiniau traddodiadol hanesyddol, gan blannu mwy na 7km o wrychoedd a chodi 3.5km o waliau sychion llinellog

**Hyfforddiant a Chreu Swyddi:** Cwblhaodd tirfeddianwyr a staff y prosiect gyrsiau hyfforddi amrywiol, gan gynnwys cymorth cyntaf brys, rheoli prosiectau, garddwriaeth, a chyrsiau ar ddefnyddio offer torri prysglwyni, peiriant naddu pren, a llif gadwyn, a chyrsiau ar ddefnyddio plaladdwyr

**Adfer Cynefinoedd:** Cwblhawyd gwaith sylweddol o ran clirio conwydd mewn mawndiroedd sydd wedi'u coedwigo. Cliriwyd aildyfiant conwydd diangen o ardal yn mesur dros 120ha yn fras; gan annog aildyfiant brodorol naturiol

**Rheoli Perygl Llifogydd yn Naturiol:** Cwblhawyd gwaith blocio tua 1-1.5km o draeniau bas artiffisial

**Hyfforddiant a Chreu Swyddi:** Swydd Swyddog Prosiect amser llawn wedi'i chreu gyda 3 o bobl ar gyfer lleoliad gwaith. Aeth 2 o'r rhain ymlaen i swyddi eraill yn Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, gan drosglwyddo eu sgiliau a'u gwybodaeth

**Rhaglenni Gwirfoddoli:** Dyddiau gwirfoddoli gyda Chymdeithas Eryri a gynhaliwyd drwy waith Cynllun Rheoli Cynaliadwy Afon Eden ar ffermydd. Yn ystod y cynllun plannodd gwirfoddolwyr 800 o goed brodorol

**Cynyddu Mynediad i fannau awyr agored:** Gwella seilwaith a mynediad agored ar gyfer cerddwyr; uwchraddio pontydd a llwybrau troed ag arwyddion a byrddau addysg, yn cysylltu â'r llwybrau beicio a llwybrau troed presennol

**Lleihau Llygredd Amaethyddol:** Rhoi seilwaith cynaliadwy ar waith, fel y groesfan lefel isel a adeiladwyd, gan wella rhyd a ddefnyddiwyd yn helaeth gan gerbydau a thrwy hynny leihau'r risg o lygredd ac o aflonyddu ar ecosystem yr afon, ac adeiladu pwll gwaddodi i atal unrhyw waddol a llygryddion cysylltiedig cyn iddynt gyrraedd Afon Eden

**Rheoli a Phlannu Coetiroedd:** Datblygu meithrinfa goed Eryri, gan ei gwneud yn bosibl i goed dyfu'n lleol ac i feithrin gwydnwch i'w hamgylchedd, codi polydwnnelau newydd, caffael offer a hyfforddi staff mewn garddwriaeth

**Trosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesi:** Cynhaliwyd llawer o astudiaethau dichonoldeb a chwblhawyd y Cynlluniau Adnoddau Coedwigoedd i gyd ac fe'u rhannwyd â rhanddeiliaid priodol

**Rheoli a Phlannu Coetiroedd:** Rheoli 113ha o goetiroedd, plannu 15ha â choed newydd yn ogystal ag adfywio 19ha ychwanegol o goetiroedd naturiol

**Adfer Cynefinoedd:** Cwblhawyd 0.6km o waith adfer afonydd sensitif, gan ddefnyddio dulliau arloesol gan gynnwys rhoi cerrig mawr yn ôl yn yr afon, adnewyddu cerrig, gwaith i hadu graean a chyflwyno deunydd pren mawr

**Rhaglenni Gwirfoddoli:** Diwrnodau hyfforddi a gwirfoddoli a gynhaliwyd er mwyn ennyn diddordeb newydd mewn rheoli tir yn gynaliadwy ac adnoddau naturiol

**Meithrin Cydweithredu a Phartneriaethau:** Ymgysylltu â 120 o randdeiliaid drwy amrywiaeth o weithgareddau a gynhaliwyd at y perwyl hwnnw

**Ymgysylltu â'r Gymuned:** Drwy waith dan gontract mae'r prosiect wedi cefnogi 89 o wahanol fusnesau, ac roedd 90% ohonynt yn rhai lleol. Yn y ffordd yma, mae wedi cyfrannu dros £600,000 i'r economi a'r gymuned leol

**Pori Cynaliadwy:** Cyflwyno gwartheg i bori ardaloedd lle mae Molinia trwchus yn drech, gan roi seilwaith ar waith i gefnogi'r cynefinoedd tra bo gwartheg yn pori

**Rhaglenni Addysgol:** Drwy Fenter Dangosyddion Newid yn yr Hinsawdd ar Rostiroedd, mae 3 ysgol wedi bod yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ymgysylltu amrywiol, gan gynnwys gwaith maes i fonitro'r amgylchedd a gweithgareddau crefft cynaliadwy

**Trosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesi:** Mae'r prosiect wedi croesawu ymweliadau gan fyfyrwyr o Goleg Prifysgol Llundain ac wedi cael ei gynrychioli mewn sioeau amaethyddol lleol, er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r gwaith sy'n cael ei wneud. Yn ogystal, mae wedi cynnal diwrnod agored am y prosiect lle cafodd rhanddeiliaid yr wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed a chynhaliwyd ymweliadau â safleoedd ledled y dalgylch

**Meithrin Cydweithredu a Phartneriaethau:** Sefydlwyd partneriaeth yn dod ag 19 o fusnesau fferm a thirfeddianwyr lleol, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Cyfoeth Naturiol Cymru a sefydliadau amgylcheddol anllywodraethol at ei gilydd i gydweithio er mwyn cyrraedd nifer o nodau a chynnig manteision

**Dal a Storio Carbon:** drwy blannu gwrychoedd, clirio conwydd o fawndiroedd, blocio draeniau bas, plannu coed, cynnal gwaith adfer cynefinoedd ac afonydd, rheoli coetiroedd a'u hadfywio ar raddfa'r dalgylch.

**Addasu i'r Newid yn yr Hinsawdd:** drwy ddefnyddio pori cynaliadwy, clirio conwydd o fawndiroedd, blocio draeniau bas, plannu coed, cynnal gwaith adfer cynefinoedd ac afonydd, rheoli coetiroedd a'u hadfywio ar raddfa dalgylch, datblygu meithrinfa goed, a rhoi hyfforddiant mewn garddwriaeth.

**Gwell Bioamrywiaeth:** drwy blannu gwrychoedd, clirio conwydd o fawndiroedd, plannu coed, gwella seilwaith, adfer cynefinoedd, adfer yr afon, rheoli coetiroedd a'u hadfywio, pori cynaliadwy, a'r cwbl ar raddfa'r dalgych.

**Cadernid Ecosystemau:** drwy blannu gwrychoedd, clirio conwydd o fawndiroedd, plannu coed, gwella seilwaith, adfer cynefinoedd, adfer yr afon, rheoli coetiroedd a'u hadfywio, pori cynaliadwy, a'r cwbl ar raddfa'r dalgych.

**Lleihau'r Perygl o Lifogydd:** drwy flocio draeniau bas, adfer mawndiroedd, creu croesfan lefel isel a phwll gwaddodi a gwaith adfer yr afon.

**Ansawdd Pridd, Aer a Dŵr:** drwy blannu gwrychoedd, clirio coed conwydd o fawndiroedd, plannu coed, gwella seilwaith, adfer cynefinoedd, adfer glannau'r afon, rheoli coetiroedd a'u hadfywio, pori cynaliadwy, a'r cwbl ar raddfa'r dalgych.

**Iechyd a Lles:** gwella mynediad agored a hamdden awyr agored, llwybrau beicio a llwybrau troed a gweithgareddau ymgysylltu ag ysgolion a gefnogwyd gan gyrsiau hyfforddiant cymorth cyntaf a defnyddio offer yn ddiogel. Dyddiau a hyfforddiant ar gyfer gwirfoddolwyr, a gweithgareddau i ymgysylltu â'r gymuned.

**Cydlyniant Cymunedol:** drwy gynnal cyrsiau hyfforddi, creu rolau llawn amser a lleoliadau gwaith. Diwrnodau i wirfoddolwyr, cynnal astudiaethau dichonolrwydd a'u rhannu â rhanddeiliaid. Dyddiau hyfforddi am gadwraeth glöynod byw, gweithgareddau ymgysylltu â rhanddeiliaid, contractio gwaith i fusnesau lleol, gweithgareddau ymgysylltu ag ysgolion a diwrnod agored y prosiect.

**Sgiliau a Threftadaeth Cefn Gwlad:** drwy osod gwrychoedd, codi waliau sychion, cyrsiau hyfforddi a rheoli coetiroedd. Dyddiau gwirfoddolwyr yn canolbwyntio ar blannu coed brodorol, datblygu meithrinfa goed Eryri, dyddiau hyfforddiant ar gadwraeth, contractio gwaith i fusnesau lleol, ddefnyddio technegau pori cynaliadwy, a gweithgareddau ymgysylltu ac addysgol gydag ysgolion.

**Datblygu Gallu o ran Sgiliau ac Arbenigedd:** drwy gynnal cyrsiau hyfforddi, creu rolau llawn amser a lleoliadau gwaith. Diwrnodau i wirfoddolwyr, cynnal astudiaethau dichonolrwydd a'u rhannu â rhanddeiliaid, ymweliadau safle gan Goleg Prifysgol Llundain a diwrnod agored y prosiect.

**Cymryd Rhan:** Os hoffech ddysgu mwy neu gymryd rhan yng ngwaith parc cenedlaethol Eryri, mae rhagor o wybodaeth ar gael yn:

www.eryri.llyw.cymru   @eryrisnowdonia   @visitsnowdonia

# Trwy'r Twyni Tywod: Dulliau cynaliadwy o reoli tirwedd arfordirol Pen-y-bont ar Ogwr

**Sefydliad arweiniol:** Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

**Dyfarniad Grant:** £312,541

**Lleoliad:** Gwarchodfa Natur Genedlaethol Cynffig, Pen-y-bont ar Ogwr

**E-bost:** Mark.Blackmore@bridgend.gov.uk

Mae'r ardal brosiect hon yn cynnwys tirweddau systemau Twyni Cynffig a Merthyr Mawr yn Ne Cymru ac fe'u dynodir yn Warchodfa Natur Genedlaethol (NNR) ac yn ardal gadwraeth arbennig (ACA). Unwaith yn system dwyni enfawr, mae'r ddwy ecosystem bwysig hyn bellach wedi'u gwahanu gan Arfordir Porthcawl, dau gwrs golff a thir fferm sefydlog.

Nod y prosiect Trwy'r Twyni Tywod yw ffurfio cydweithrediad rhwng rheolwyr NNR, tirfeddianwyr lleol, clybiau golff a ffermwyr i reoli tirwedd yr arfordir yn gynaliadwy, gwella ecosystemau, cynyddu bioamrywiaeth a chysylltedd er mwyn edrych ar fanteision hyn oll i bobl, busnesau lleol a chymunedau.

Mae gwaith sylweddol i adfer a rheoli cynefinoedd ochr yn ochr â phori cynaliadwy wedi cyfrannu at gadernid ecosystem y twyni a'u cynaliadwyedd hirdymor. Mae gwaith helaeth i glirio prysgwydd, adfer waliau cerrig sychion ar raddfa fawr, gosod gwrychoedd a bondocio, i gyd wedi arwain at rai canlyniadau rhagorol. Cofnodwyd cynnydd sylweddol mewn bioamrywiaeth drwy gyfrifiadau rhywogaethau. Cafodd tegeirianau y fign galchog y flwyddyn orau erioed gyda 3000+ yn cael eu cofnodi yn yr arolwg, o'u cymharu i ryw 100 yn yr astudiaethau llinell sylfaen; sy'n dangos gwydnwch, gwell cysylltedd a sefydlogrwydd twyni yn yr amser byr hwn.



Bydd y prosiect hefyd yn cydweithio â busnesau lleol fel clybiau golff i'w helpu i barhau i berfformio'n gynaliadwy ac i gyflawni eu huchelgais o gael label Eco Ardystiedig GEO.

Mae'r prosiect wedi gweithredu gwaith addysg gydag ysgolion lleol a darparu lleoliadau gwaith i fyfyrwyr sy'n astudio rheoli cefn gwlad wedi'i dargedu yng Ngwarchodfa Natur Genedlaethol Cynffig a'r ardaloedd arfordirol cyfagos. Fel rhan o'u lleoliadau profiad gwaith, maent yn cymryd seibiant o'u hastudiaethau yn Adran Bioleg Prifysgol Abertawe i ddysgu am y ffyrdd ymarferol y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn rheoli ei Warchodfeydd Natur Cenedlaethol ac yn gwella ecoleg y parth arfordirol.

Mae'r prosiect hefyd yn anelu at fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd iechyd a llesiant yr ardal drwy wella seilwaith gwyrdd. Mae llwybrau cerdded hygyrch sy'n cael eu cynnal a'u cadw'n dda, gan ganolbwyntio ar hyrwyddo a datblygu llwybr yr arfordir ac annog ymwelwyr i'r mannau gwyrdd o safon. Caiff y cyhoedd eu haddysgu drwy arwyddion am yr effaith y gallant ei chael ar yr amgylchedd hwn a sut y gallant helpu i gadw'r lle anhygoel hwn yn ddiogel.



**Adfer Cynefinoedd:** Rheoli cynefinoedd y gaeaf yng Ngwarchodfa Cynffig, gan grafu twyni newydd a gwaith helaeth i glirio prysgwydd

**Rhaglenni Gwirfoddoli:** 87 o bobl yn cymryd rhan mewn cyrsiau hyfforddi i wirfoddolwyr, gyda 191 o bobl wedi cymryd rhan hyd yn hyn

**Hyfforddiant a Chreu Swyddi:** 135 o ddiwrnodau hyfforddi wedi'u cynnal, sy'n amrywio o ddefnyddio peiriannau cloddio bach i adnabod infertebrata a monitro

**Cydweithio a Meithrin Cysylltiadau:** Mae 20 o sefydliadau gwahanol wedi ymgysylltu â mwy na 60 o bobl o dirfeddianwyr lleol a ffermwyr i sefydliadau anllywodraethol amgylcheddol drwy ddigwyddiadau partneriaeth

**Cydweithio a Meithrin Partneriaethau:** Drwy gefnogi'r prosiect mae'r ddau glwb golff ar y dirwedd hon wedi cyflawni'r Ardystiad GEO o fri

**Rheoli a Phlannu Coetiroedd:** Gwella'r ffiniau ar fferm Sker, gan blannu mwy na 1000 o goed ar ddarn 250m gydag ymrwymiad 15 mlynedd i'w tyfu'n wrych traddodiadol

**Hyfforddiant a Chreu Swyddi:** Wedi darparu profiad gwaith i 12 myfyriwr prifysgol, gan ddarparu hyfforddiant ymarferol ar reoli cefn gwlad gan glirio prysgwydd, adeiladu waliau cerrig sych, plygu gwrychoedd a bondocio

**Sgiliau a Threftadaeth Cefn Gwlad:** Dros 60m o waliau cerrig sych traddodiadol wedi'u cwblhau gan gontractwyr lleol gan gyfrannu at yr economi leol

**Rhaglenni Addysgol:** Ymgysylltu ag ysgolion lleol, gyda deunydd addysgol yn cael ei gynhyrchu ac ymweliadau i weld y dirwedd arfordirol a'r ffermydd lleol

**Cynyddu Mynediad i Fannau yn yr Awyr Agored:** Canolbwyntio ar hyrwyddo a datblygu llwybr yr arfordir gydag arwyddion, biniau a seilwaith addysgol wedi'u huwchraddio

**Pori Cynaliadwy:** Gwartheg yn pori dros yr haf a rheoli defaid yn pori yn y gaeaf

**Trosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesi:** Deunydd ar-lein yn cyrraedd dros 14 mil o bobl gyda channoedd o bobl yn gwylio ac yn rhannu fideo'r prosiect

**Dal a Storio Carbon:** wedi'i gefnogi drwy blannu gwrychoedd.

**Addasu i'r Newid yn yr Hinsawdd:** wedi'i gefnogi gan ddigwyddiadau partneriaeth a chael ardystiad GEO.

**Bioamrywiaeth Well:** wedi'i gefnogi gan ddiwrnodau hyfforddi, rheoli cynefinoedd yn y gaeaf, plannu gwrychoedd a phori cynaliadwy.

**Cadernid Ecosystemau:** wedi'i gefnogi gan ddiwrnodau hyfforddi, rheoli cynefinoedd yn y gaeaf, plannu gwrychoedd a phori cynaliadwy.

**Iechyd a Lles:** wedi'i gefnogi drwy ddatblygiad y llwybr arfordirol.

**Cydlyniant Cymunedol:** wedi'i gefnogi gan gyrsiau hyfforddi, digwyddiadau partneriaeth, cyflawni ardystiad GEO, darparu profiad gwaith i fyfyrwyr, llogi contractwyr lleol ar gyfer adeiladu waliau cerrig sych, ymgysylltu ag ysgolion, datblygu llwybrau arfordirol a rhannu deunydd ar-lein.

**Sgiliau a Threftadaeth Cefn Gwlad:** wedi'i gefnogi gan gyrsiau hyfforddi, darparu profiad gwaith i fyfyrwyr a llogi contractwyr lleol ar gyfer waliau cerrig sych.

**Datblygu Gallu o ran Sgiliau ac Arbenigedd:** wedi'u hategu gan gyrsiau hyfforddi, digwyddiadau partneriaeth, darparu profiad gwaith i fyfyrwyr, ymgysylltu ag ysgolion, datblygu llwybrau arfordirol a rhannu deunydd ar-lein.

**Cymryd Rhan:** Os hoffech ddysgu mwy neu gymryd rhan yng ngwaith Trwy'r Twyni Tywod, mae rhagor o wybodaeth ar gael

www.youtube.com/watch?v=Pik6G10Ab4c

@dunes2dunes

# Dolau Dyfi Meadows

**Sefydliad arweiniol:** Pont Cymru
**Dyfarniad Grant:** £467,114
**Lleoliad:** Ardal iseldir dalgylch Dyfi, Gwynedd
**E-bost:** julia.korn@pontcymru.org

Mae Prosiectau Dolau Dyfi yn ymestyn ar draws ardal Biosffer Dyfi o'r môr yn Aberdyfi i fryniau Mynyddoedd Cambria ac yn cynnwys rhannau o awdurdod Parc Cenedlaethol Ceredigion, Powys, Gwynedd ac Eryri (SNPA). Mae'r prosiect cydweithredol hwn yn canolbwyntio ar gydgysylltu adnoddau naturiol â manteision iechyd a lles yn ardal Dyfi.

Mae'r cydweithio'n cynnwys Awdurdodau Lleol, tirfeddianwyr, ffermwyr, SNPA, RSPB, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Trefaldwyn, a Phrosiect Iechyd Awyr Agored Cadwch Gymru'n Daclus, Biosffer Dyfi a'i nod yw tyfu wrth i'r prosiect ddatblygu gyda mewnbwn gan y cyhoedd a'r cymunedau cyfagos.

Mae'r prosiect yn canolbwyntio ar reoli glaswelltiroedd, mawndiroedd a ffridd yn yr ardal. Mae glaswelltir lled-naturiol iseldir wedi dioddef colledion dramatig yn y DU a dim ond darnau o ddolydd iseldir, rhostir a gorsydd sy'n aros. Mae gan ardal Dyfi ardaloedd sylweddol o'r cynefinoedd hyn a bydd y prosiect yn gwneud gwaith i wrthdroi'r dirywiad yn lleol ac felly gwella ac adfer cynefin y gall pobl leol ac ymwelwyr fwynhau, creu cyfleoedd newydd i ymgysylltu â natur.

Nod y prosiect yw helpu i fynd i'r afael â heriau lleol drwy adfer rhannau o'r dirwedd sydd wedi'u targedu tra'n cysylltu pobl â natur. Bydd buddsoddiad yn cael ei wneud mewn 35 o feysydd i wella gwydnwch ecosystemau. Mae'r gwaith yn cynnwys rheoli prysgwydd, rhedyn ac eithin, torri gwair yn hwyr, tynnu rhywogaeth estron goresgynnol, ffensys a seilwaith arall i alluogi gweithredu cynlluniau pori cynaliadwy. Cynigir cymorth ymarferol i reolwyr tir lleol i fonitro a gwerthuso effaith y gwaith a wneir a sefydlir Grŵp Dolau Dyfi Meadows i gefnogi perchnogion tir i reoli'r adnoddau naturiol yn yr ardal yn y tymor hir.





Mae gweithgareddau pellach yn cynnwys sefydlu rhwydwaith gwirfoddolwyr lleol, sefydlu prosiectau celf a rhaglen “cerdded i iechyd” er budd iechyd a lles. Bydd y prosiect yn cytuno ar raglen waith i wella llwybrau mynediad a chyfleoedd yn ardal y prosiect. Bydd deunyddiau a hybu cyfryngau cymdeithasol yn cael eu comisiynu i annog pobl leol ac ymwelwyr i ddefnyddio’r awyr agored er budd iechyd a bydd y prosiect yn creu ac yn hyrwyddo mannau diogel a lleoedd pleserus i ymweld â nhw.

Gan ddefnyddio Clychlys Eiddew fel symbol ingol o flodau gwyllt sy’n arbennig yn yr ardal, bydd Dolau Dyfi yn ymgymryd â gwaith gyda grwpiau, sefydliadau ac unigolion lleol i ddatblygu syniadau ar gyfer gwell mynediad a gweithgareddau celfyddydol wrth i’r prosiect fynd yn ei flaen.

Gweithio gyda phrosiect Iechyd Awyr Agored Biosffer Dyfi sy’n cael ei ddarparu gan Ecodyfi, Coed Lleol ac eraill i roi cyfleoedd i bobl ymuno â theithiau cerdded dan arweiniad a gweithgareddau eraill i wella iechyd a lles. Bydd hyn yn gysylltiedig â’r cynllun rhagnodi cymdeithasol newydd sy’n cael ei ddatblygu yn yr ardal a bydd nifer o’r rhai sy’n gysylltiedig yn cael cymorth i gymryd rhan drwy atgyfeiriad gan eu meddyg teulu neu ddarparwr iechyd arall.

Bydd canllawiau cerdded hawdd eu defnyddio yn cael eu cynhyrchu i helpu pobl i gael mynediad at y llwybrau arfordirol a mynydd presennol, gyda chanllawiau hawdd yn dangos pellter wedi’i gerdded, amser cerdded a lefel yr her, gan helpu pobl i gael mynediad at hamdden yn ddiogel yn yr ardal.

Bydd y prosiect yn cynnig cyfleoedd gwirfoddoli dan oruchwyliaeth gan gynnwys adfer cynefinoedd yn ymarferol, rheoli llwybrau troed, y celfyddydau a gweithgareddau eraill sy’n ceisio gwella lles a datblygu sgiliau. Roedd cynlluniau i gynnal gweithdai celf a digwyddiadau gwirfoddol yn canolbwyntio ar greu deunydd sy’n berthnasol i thema ffermio, natur a blodau gwyllt y prosiect gan ddarparu cyfleoedd amrywiol i bobl gymryd rhan, gan adeiladu ar gydlyniant cymunedol.



**Adfer Mawndiroedd:** Adfer ac ailgysylltu tir mawnog yr iseldir. Adferwyd 15 ha o fawndir iseldir nad ydynt yn SoDdGA

**Rheoli cynefinoedd:** Rheoli ac adfer 639 hectar dros ardal y prosiect. Cynnal cynefin blodeuo; glaswelltir niwtral, asid a chorsiog, rhostir a mawn mewn cyflwr ffafriol ac adferol

**Rhaglen Wirfoddoli:** Gwaith rheoli cadwraeth ymarferol gan 20 o wirfoddolwyr

**Datblygu Seilwaith Gwyrdd:** Tirwedd flodeuo ddeniadol wedi'i hadfer gydag adar fferm fridio gerllaw cyfleoedd mynediad cyhoeddus

**Adfer Cynefinoedd:** Rhaglen waith sy'n mynd i'r afael â chlirio rhedyn eithin a llystyfiant a gwblhawyd ar wahanol safleoedd gan dirfeddianwyr a chontractwyr. Gwaith a wnaed ar 10 safle gyda pherchnogion/rheolwyr ar gyfer y safleoedd yn llofnodi cytundeb rheoli 5 mlynedd a fydd yn helpu i sicrhau'r rheolaeth ffafriol y tu hwnt i ddiwedd dyddiad y prosiect

**Ymgysylltu â'r gymuned:** Facebook a ddefnyddir i hyrwyddo gweithgareddau ac ymgysylltu, Mae ffilm Dolau Dyfi wedi'i chwblhau, a chynhaliwyd "dangosiad arbennig" ar dudalen Facebook Dolau Dyfi i gefnogi gweithgareddau ymgysylltu a rhaglenni addysgol

**Ymgysylltu â'r gymuned:** 8 taith gerdded iechyd, 3 taith gerdded cynnal a chadw gwirfoddolwyr, 1 daith gerdded hanes, 2 o weithgareddau hyfforddi gwirfoddolwyr/ cymunedol a gynhaliwyd hyd yma gyda mwy i ddod

**Rhaglenni Addysgol:** Rhithwir "Parti Celf" mewn 3 ysgol wahanol gyda plant yn ymuno â'r gweithdai drwy eu hysgolion. Casglwyd deunyddiau gan rieni i blant ymuno â sesiynau gweithgareddau natur addysgol gyda 65 o blant wedi cofrestru ar gyfer y gweithdai ar-lein

**Mwy o Fynediad i Fannau Awyr Agored:** Mae gwaith gwella wedi'i wneud ar 4 llwybr sy'n dod i gyfanswm o 5.87km o fynediad gwell. Er mwyn gwella hygyrchedd i bob defnyddiwr, defnyddiwyd 12 o gatiau hunan-gloi galfanedig

**Sgiliau Gwledig a Threftadaeth:** Gweithiodd dau dîm o ferlod coedwigaeth gyda rholiau rhedyn ar safleoedd anodd, gan rolio 8ha o redyn

**Pori cynaliadwy:** Cynlluniau ar wahanol safleoedd i gynnal a gwella cynefin wedi'i adfer

**Adeiladu cydweithredol a Phartneriaethau:** Cydweithio, mentrau ar y cyd ag RSPB sy'n gweithio gyda nwyddau ar y prosiect a mewnbwn gan sefydliadau yn yr ardal fel grŵp Biosffer Dyfi, grwpiau twristiaeth a chyfarfodydd is-grŵp i gyd i lywio'r prosiect

**Dal a Storio Carbon:** gyda chefnogaeth Adfer Mawndiroedd, adfer a chysylltu mawnog iseldir. Rheoli ac Adfer Cynefinoedd o 639 hectar dros ardal y prosiect. Cynnal glaswelltir niwtral, asid a chorsiog, rhostir a gors mewn cyflwr ffafriol ac adferol.

**Ymaddasu i'r Newid yn yr Hinsawdd:** gyda chefnogaeth Adfer Mawndiroedd, adfer a chysylltu mawnog iseldir. Adfer Cynefinoedd o 639 hectar dros ardal y prosiect yn cael ei reoli a'i hadfer. Cynnal glaswelltir niwtral, asid a chorsiog, rhostir a gors mewn cyflwr ffafriol ac adferol.

**Bioamrywiaeth Well:** gyda chefnogaeth Datblygu Seilwaith Gwyrdd, Mawndiroedd ac Adfer Cynefinoedd, cynlluniau pori cynaliadwy ac ymrwymiad hirdymor gan dirfeddianwyr a ffermwyr.

**Gwydnwch Ecosystemau:** gyda chefnogaeth Adfer Mawndiroedd, adfer a chysylltu mawnog yr iseldir. Adfer Cynefinoedd o 639 hectar dros ardal y prosiect yn cael ei reoli a'i hadfer. Cynnal glaswelltir niwtral, asid a chorsiog, rhostir a chorau mewn cyflwr ffafriol ac adferol, datblygu Seilwaith Gwyrdd, cynlluniau pori cynaliadwy ac ymrwymiad hirdymor gan dirfeddianwyr a ffermwyr.

**Ansawdd Pridd, Aer a Dŵr:** gyda chefnogaeth Adfer Mawndiroedd, adfer a chysylltu mawnog iseldir. Adfer Cynefinoedd o 639 hectar dros ardal y prosiect yn cael ei reoli a'i hadfer. Cynnal glaswelltir niwtral, asid a chorsiog, rhostir a mawnog mewn cyflwr ffafriol ac adferol, datblygu Seilwaith Gwyrdd, cynlluniau pori cynaliadwy ac ymrwymiad hirdymor gan dirfeddianwyr a ffermwyr.

**Iechyd a Lles:** gyda chefnogaeth y Rhaglen Gwirfoddoli gydag 20 o wirfoddolwyr, datblygu ardaloedd Rheoli Seilwaith Gwyrdd ar gyfer cyfleoedd i roi mynediad i'r cyhoedd, trwy ymgysylltu â'r Gymuned, teithiau cerdded iechyd dan oruchwyliaeth, a rhaglenni addysgol gyda 65 o blant wedi cofrestru a chynyddu Mynediad i Fannau Awyr Agored.

**Cydlyniant Cymunedol:** gyda chefnogaeth y Rhaglen Gwirfoddoli gydag 20 o wirfoddolwyr, datblygu Seilwaith Gwyrdd, Rheoli ardaloedd ar gyfer cyfleoedd i roi mynediad i'r cyhoedd, trwy ymgysylltu â'r Gymuned, teithiau cerdded iechyd dan oruchwyliaeth, a rhaglenni addysgol gyda 65 o blant wedi cofrestru a chynyddu Mynediad i Fannau Awyr Agored. Cydweithio ar draws yr holl sectorau gan ymgysylltu â'r gymuned leol drwy grwpiau llywio.

**Sgiliau Gwledig a Threftadaeth:** wedi'u hategu gan reoli cynefinoedd ac ymrwymiad hirdymor y gymuned ffermio leol, drwy hyrwyddo merlod coedwigaeth a sgiliau tirwedd eraill.

**Datblygu Sgiliau Capasiti ac Arbenigedd:** gyda chefnogaeth gwirfoddolwyr a rhaglenni swyddi a hyfforddiant sy'n cwmpasu gwaith rheoli cadwraeth ymarferol. Cydweithio â rhanddeiliaid sy'n rhannu arfer gorau ac arloesedd.

**Cymryd Rhan:** Os hoffech ddysgu mwy neu gymryd rhan yng ngwaith Dolau Dyfi Meadows mae rhagor o wybodaeth ar gael: www.pontcymru.org/dolau-dyfi/

www.youtube.com/channel/UCGjUzOTxkGgAjsnDloMwz1g

@twitter.com/pontcymru

@eryrisnowdonia

# Ucheldiroedd Cydnerth De-Ddwyrain Cymru

**Sefydliad arweiniol:** Cyngor Tor-faen
**Dyfarniad Grant:** £399,000
**Lleoliad:** Tor-faen, Caerffili a Blaenau Gwent
**E-bost:** alvin.nicholas@torfaen.gov.uk

Mae prosiect Ucheldiroedd Cydnerth De-ddwyrain Cymru (SEWRU) yn cwmpasu 200km sg o dir, y cyfan ohono dros 200m uwchlaw'r môr, yn Nhor-faen, Caerffili a Blaenau Gwent.

Mae ucheldiroedd Tor-faen, Caerffili a Blaenau Gwent yn wynebu nifer o broblemau, o droseddau tirwedd, colli cynefinoedd a rhywogaethau pwysig, diffyg seilwaith a chymunedau darniog. Gan ddatblygu'r gwaith sydd eisoes wedi'i wneud i ennyn diddordeb cymunedau, bydd y prosiect yn bwrw ymlaen i gydweithredu i wella'r ucheldiroedd, cefnogi mentrau fferm, gwella profiadau ymwelwyr a chryfhau cymunedau.

Adlewyrchir pwyslais y prosiect ar gydweithio yn y ffaith bod Cynghorau Caerffili a Blaenau Gwent, Ymddiriedolaeth Natur Gwent, Cyfoeth Naturiol Gwent, yr Heddlu, Gwasanaethau Tân ac Achub a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, o dan arweiniad Cyngor Tor-faen, i gyd yn cefnogi ac yn cydweithio â chymdeithasau tir comin, grwpiau gweithredu, undebau ffermwyr a chymunedau lleol.

Blaenoriaeth SEWRU yw cynnal y gweithgareddau a argymhellir yn y Cynllun Rheoli Adnoddau Naturiol (NRMP) uchel ei glod a baratowyd gan Sefydliad Tirwedd Cymru ar gyfer Ucheldiroedd y De-ddwyrain yn 2015.

- Rheoli tir i wella pridd, arferion pori, bioamrywiaeth, ansawdd a rheolaeth ar ddŵr a storio carbon.
- Cryfhau'r berthynas rhwng rhanddeiliaid a chominwyr i gefnogi cymunedau'r ucheldiroedd.
- Gwella galluoedd trwy wirfoddoli, hyfforddi a chael y gymuned i gymryd rhan.
- Gwneud ffermydd yn fwy cystadleuol a llwyddiannus trwy arallgyfeirio a datblygu cyfleoedd busnes arloesol.
- Mynd i'r afael ag achosion sylfaenol dirywiad yr ucheldir sef rheolaeth wael ar y tir a phroblemau gwrthgymdeithasol fel gollwng sbwriel yn anghyfreithlon, cynnau tanau a gyrru oddi ar y ffyrdd.
- Creu cyfleoedd hamddena tawel a gwella'r hyn y gall yr ardal ei gynnig i ymwelwyr.



Hyd yma, mae'r prosiect wedi nodi a chychwyn treialon i adfer mawnogydd, nodi cyfleoedd i blannu coed, paratoi cynlluniau rheoli tir comin, gosod rhwystrau i leihau troseddau'r dirwedd a chynnal gwaith rheoli gweundiroedd yr ucheldir i leihau'r perygl o danau a hyrwyddo trefniadau pori cynaliadwy. Mae SEWRU wrthi'n gweithio hefyd â Heddlu Gwent ac eraill i lunio cynlluniau yn benodol i reoli troseddau ar yr ucheldir.

Fel un o brosiectau SEWRU, mae Ymddiriedolaeth Natur Gwent wedi cynnal nifer o weithgareddau yn 2020 i hyrwyddo'r ucheldir fel lle i ymwelwyr ac i hamddena ynddo tra'n hyrwyddo defnydd cynaliadwy o'r ardal. Trwy gynnal cystadleuaeth tynnu lluniau o'r enw *Hill Life Through a Lens* a chynnal cyfres o deithiau cerdded a chyrsiau hyfforddi am ddim trwy'r prosiect, tynnwyd sylw at fywyd gwyllt yr ucheldir a'r sgiliau ymarferol sydd eu hangen i ofalu amdano.






**Trosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesi:** Wedi datblygu a chynhyrchu cynllun i daclo tanau gwyllt a lleihau'r risg ohonynt ar gyfer ucheldir y de-ddwyrain

**Meithrin partneriaethau a chydweithio:** 2 rwydwaith newydd wedi'u creu trwy lunio a gweithredu cynlluniau rheoli troseddau'r ucheldir ar gyfer y ddau gomin gyda Heddlu Gwent a phartneriaid eraill

**Meithrin partneriaethau a chydweithio:** Wedi datblygu a rheoli Cynllun Gwylio'r Comin i gadw sbwrielwyr a throseddwyr gwledig draw trwy roi camerâu cyrff i ddeg cominwr blaenllaw, camerâu dashbord a chamerâu llwybrau i daclo troseddau'r dirwedd

**Hyfforddiant a chreu swyddi:** Wedi darparu 40 niwrnod o hyfforddiant: hyfforddiant adeiladu waliau sych ar y cyd ag Ymddiriedolaeth Natur Gwent. Hyfforddiant i ffermwyr trwy'r Cynllun Hyfforddi Ffermydd Mynydd i roi cyngor ar reoli tir ecolegol

**Cael y gymuned i gymryd rhan:** Rhaglen gynhwysfawr o deithiau cerdded a gweithgareddau, a chystadleuaeth ffotograffiaeth o'r ucheldir

**Hyfforddiant a chreu swyddi:** Rheolwr prosiectau gyda chymorth ecolegydd a gwyddonydd monitro, i gyd wedi'u penodi i reoli'r prosiect, i adfer mawnogydd a chasglu tystiolaeth

**Meithrin partneriaethau a chydweithio:** Wedi creu Grŵp Llywio SEWRU a grŵp ford gron i helpu i lywio'r prosiect a rhannu arferion da

**Trosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesi:** Astudiaeth wedi'i chynnal o'r rhwystrau rhag defnyddio TG. Mae SEWRU a Heddlu Gwent yn ymchwilio i sut i roi hyfforddiant mewn TG i ffermwyr ac o bosibl, rhoi ffonau clyfar i ffermwyr mynydd os oes angen er mwyn cyfathrebu'n well am droseddau'r dirwedd

**Cael y gymuned i gymryd rhan:** Mae dronau a fideos hedfan wedi'u comisiynu i helpu i astudio a monitro mawnogydd a'u defnyddio i roi cyhoeddusrwydd ac i greu fideos hyrwyddo i roi gwybodaeth i'r cyhoedd

**Adfer cynefin:** Dros 120ha o rug a rhedyn yn cael eu rheoli. Darparwyd torrwr gwair i reoli'r prysgwydd ac i leihau'r perygl o dân, a hwyluso trefniadau pori cynaliadwy er mwyn gwella bioamrywiaeth, yn ogystal ag adfer pyllau dŵr a gwlyptir

**Rhaglenni addysgol:** Mae SEWRU yn gweithio mewn pedair ardal i daclo troseddau'r dirwedd a gyrru oddi ar y ffyrdd; trwy ddefnyddio'r fframwaith Enforcement, Engineering, Engagement and Enabling, mae asiantaethau'n gallu gorfodi a delio â throseddau, addysgu'r cyhoedd a gweithio gyda nhw ar hamddena mewn ffordd nad yw'n cael effaith ddrwg ar y dirwedd

**Datblygu seilwaith gwyrdd:** Mae 5km o ffiniau tir comin wedi'u trwsio ac mae meini, bariwns codi, byndiau, gatiau, ffosydd ac arwyddion wedi'u gosod fel peilot mewn mannau allweddol yn nhiroedd comin y De-ddwyrain i drechu troseddau'r dirwedd

**Rhaglenni addysgol:** Creu gwefan am droseddau tirwedd i gyfathrebu'n well â'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill ac i roi cyhoeddusrwydd i'r gwaith sy'n cael ei wneud; a fideo i hyrwyddo'r prosiect a thanlinellu'r problemau a disgrifio'r gwaith sy'n cael ei wneud i'w trechu

**Adfer mawnogydd:** Astudiaethau ar ymarferoldeb adfer mawnogydd wedi'u cynnal ar bedwar safle, a 10ha wedi'u hadfer ar ddau safle

**Cynyddu Mynediad at Leoedd Awyr Agored:** Sawl diwrnod agored a theithiau tywys i edrych ar amrywiaeth o gynefinoedd a rhywogaethau i greu cwlwm rhwng pobl a natur ac i ddangos yr ucheldir, codi ymwybyddiaeth yn lleol ac yn genedlaethol am yr ardal fel ardal werthfawr a buddiol i weithio, chwarae a byw ynddi, ac ymweld â hi

**Rhaglenni gwirfoddol:** Cyfleoedd i wirfoddoli gyda chymorth Ymddiriedolaeth Natur Gwent, partner y prosiect

**Rheoli a Phlannu Coetir:** 1,800 o goed brodorol wedi'u plannu a thorrwyd tua 1,000 o goed conwydd fferal ar fawnogydd er mwyn eu hailwlychu. Mapiau cyfleoedd wedi'u creu i nodi dros 100ha lle gellid plannu coed

**Storio Carbon:** trwy adfer cynefinoedd a mawnogydd, rheoli a phlannu coetir a threfniadau pori cynaliadwy.

---

**Addasu i'r Newid yn yr Hinsawdd:** trwy adfer cynefinoedd a mawnogydd, rheoli a phlannu coetir a threfniadau pori cynaliadwy.

---

**Gwella bioamrywiaeth:** trwy adfer cynefinoedd a mawnogydd, rheoli a phlannu coetir a threfniadau pori cynaliadwy, hyfforddiant a chreu swyddi a datblygu seilwaith gwyrdd.

---

**Cryfhau Ecosystemau:** trwy adfer cynefinoedd a mawnogydd, rheoli a phlannu coetir a threfniadau pori cynaliadwy, hyfforddiant a chreu swyddi a datblygu seilwaith gwyrdd.

---

**Lleihau'r risg o lifogydd:** trwy adfer cynefinoedd a mawnogydd, rheoli a phlannu coetir a threfniadau pori cynaliadwy.

---

**Ansawdd Aer, Pridd a Dŵr:** trwy adfer cynefinoedd a mawnogydd, rheoli a phlannu coetir a threfniadau pori cynaliadwy, hyfforddiant a chreu swyddi a datblygu seilwaith gwyrdd.

---

**Iechyd a Lles:** trwy raglenni addysgol, cael cymunedau i gymryd rhan, rhaglenni gwirfoddoli a Chynyddu Mynediad at Leoedd Awyr Agored.

---

**Cydlyniant Cymunedol:** trwy raglenni addysgol, cael cymunedau i gymryd rhan, rhaglenni gwirfoddoli a Chynyddu Mynediad at Leoedd Awyr Agored, Trosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesi.

---

**Sgiliau a Threftadaeth Wledig:** trwy raglenni addysgol, Trosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesi a Hyfforddiant a chreu swyddi.

---

**Datblygu Sgiliau ac Arbenigedd:** trwy raglenni addysgol, Trosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesi, cael cymunedau i gymryd rhan, Meithrin partneriaethau a chydweithio, a Hyfforddiant a chreu swyddi.

**Cymryd Rhan:** Os hoffech ddysgu mwy neu gymryd rhan yng ngwaith South East Wales Resilient Uplands mae rhagor o wybodaeth ar gael: www.gwentwildlife.org/South-East-Wales-Resilient-Uplands-Project

www.youtube.com/channel/UCGjUzOTxkGgAjsnDloMwz1g

@twitter.com/gwentwildlife  @gwentwildlife  @gwentwildlifetrust

Cyswllt: info@gwentwildlife.org

# Cysylltu Cymunedau â Natur: Mynydd Helygain

**Sefydliad arweiniol:** Cyngor Sir y Fflint
**Dyfarniad Grant:** £285,000
**Lleoliad:** Mynydd Helygain, Sir y Fflint
**E-bost:** tom.woodall@flintshire.gov.uk

Mae prosiect Mynydd Helygain wedi'i leoli ar gomin 2,000 erw, a ddynodwyd am ei amrywiaeth eang o gynefinoedd a rennir rhwng pum cymuned. Mae'r comin a'i adnoddau naturiol yn ganolog i ffyniant y cymunedau hyn yn y dyfodol. Arweinir dull cydweithredol y Prosiect gan Gyngor Sir y Fflint gyda Cyfoeth Naturiol Cymru, Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru, y Gwasanaeth Tân ac Achub oll yn cefnogi ac yn cydweithio â thirfeddianwyr.



Fe wnaeth y prosiect wella gwerth economaidd y comin a bywiogi busnesau fferm. Mae'r comin wedi cael ei bori ers canrifoedd ond mae'r arfer hwn wedi dirywio'n gyson dros y blynyddoedd.
Un o brif flaenoriaethau'r prosiect yw gwella ansawdd y comin drwy ddenu porwyr yn ôl, a helpu i annog cenhedlaeth iau i ddod yn rhan o'r traddodiad pori.



Y nod yw rheoli cynefinoedd a rhywogaethau allweddol a sicrhau eu bod mewn cyflwr da. Bydd eithin a rhedyn yn cael eu clirio fel y gall glaswelltir a rhostir ailsefydlu, gan ddarparu pori ychwanegol gan leihau'r gorbori sy'n digwydd ar rannau o'r comin. Archwilio'r potensial i ddatblygu cynnyrch y gellir ei farchnata ar ffurf compost Helygain o'r llystyfiant a reolir, i gyflenwi cymunedau lleol a lleihau'r angen am gompostau mawn a gwella hyfywedd economaidd y Comin.



Mae'r prosiect yn cefnogi arferion pori cynaliadwy'r cominwyr hefyd drwy annog y defnydd o hawliau pori a danddefnyddir a gosod gridiau gwartheg er mwyn annog porwyr i stocio rhannau o'r mynydd a oedd yn cael eu hosgoi cyn hynny rhag ofn y byddai anifeiliaid yn crwydro ar hyd ffyrdd i ffwrdd o gridiau gwartheg y comin er mwyn sicrhau mynediad mewn ardaloedd allweddol.

Mae'r prosiect wedi annog pobl leol ac ymwelwyr i ddefnyddio a mwynhau'r comin mewn ffyrdd priodol a chyfrifol drwy wella gweithgareddau dehongli a chodi ymwybyddiaeth a fydd yn galluogi cerddwyr a beicwyr i ddilyn llwybrau llai sensitif. Bydd hyn yn lleihau'r posibilrwydd o aflonyddu ar stoc pori ac yn rhoi cyfle i fynd i'r afael â'r pwysau gan weithgareddau hamdden. Mae'r comin yn safle amwynder lleol poblogaidd a ddefnyddir yn aml ar gyfer gweithgareddau hamdden traddodiadol fel cerdded, beicio a marchogaeth. Gallai'r dirwedd amrywiol a heriol fod yn ddelfrydol ar gyfer ffurfiau mwy cyfoes o ymarfer corff, er enghraifft campfeydd gwyrdd a bŵt-camp awyr agored. Drwy fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu'r comin, nod y prosiect yw creu tir comin o ansawdd da sy'n cael ei reoli'n dda gan gynnig cyfleoedd hamdden ar gyfer y cymunedau cyfagos, datblygu sgiliau i helpu i gyfoethogi eu bywydau, gan arwain at gymunedau iachach a mwy gwydn.

**Pori Cynaliadwy:** Darparu 5 grid gwartheg i dargedu gwartheg sy'n pori ar rannau o'r bryn er mwyn gwella bioamrywiaeth

**Hyfforddiant a chreu swyddi:** Swyddog Prosiect wedi'i gyflogi drwy gydol y prosiect

**Adfer cynefinoedd:** Torri 20 hectar o eithin. Torri 39 hectar o brysgwydd

**Adfer Cynefinoedd:** Mathru 74 hectar o redyn. Gwella 5 hectar o rostir

**Meithrin cydweithrediad a phartneriaethau:** Mae cefnogi cominwyr wedi arwain at weithredu 10 hawl pori sy'n golygu bod ardaloedd mwy o faint yn cael eu rheoli'n gynaliadwy

**Meithrin cydweithrediad a phartneriaethau:** Cynnal 3 ymarfer cydlynu'r Heddlu a'r Gwasanaeth Tân bob blwyddyn

**Ymgysylltu â'r gymuned:** 6 diwrnod gweithredu cymunedol y flwyddyn (gan gynnwys gweithgaredd gwirfoddoli, casglu sbwriel, digwyddiad turnio bowlenni pren a gweithdy Ffotograffiaeth Bywyd Gwyllt i'w gynnal ar y cyd â'r RSPB

**Ymgysylltu â'r gymuned:** Cynnal 19 o ddigwyddiadau hamdden ac ymarfer corff a 15 o weithgareddau ymgysylltu â'r cyhoedd

**Amddiffyniad rhag rhywogaethau ymledol:** Cynnal gwaith rheoli ar Cotoneaster a Jac y Neidiwr yn yr ardal i atal yr hadau rhag lledaenu ymhellach; bydd gwaith arolygu a monitro'n parhau

**Ymgysylltu â'r gymuned:** Cwrs cyfeiriannu a thaith dywys ar y mynydd i aelodau Cyfeillion Hilbre gan weld rhai o'r prif fannau o ddiddordeb

**Iechyd a Llesiant:** wedi'i ategu gan raglenni gwirfoddoli, cyrsiau hyfforddi, gwyddor dinasyddion, rhaglenni hamdden a chlwb swyddi.

**Cydlyniant Cymunedol:** wedi'i ategu gan raglenni gwirfoddoli, cyrsiau hyfforddi, a rhaglenni hamdden. Mae cydweithredwyr y prosiect yn cynnwys Awdurdodau Lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru, Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru, y Gwasanaethau Tân ac Achub a thirfeddianwyr.

**Sgiliau Gwledig a Threftadaeth:** wedi'i ategu gan waith adfer coetiroedd, rhaglenni gwirfoddoli, cyrsiau hyfforddi, gwyddorau dinasyddion, rhaglenni hamdden, coetiroedd cymunedol a gwaith rheoli rhedyn.

**Datblygu Capasiti Sgiliau ac Arbenigedd:** wedi'i ategu gan raglenni gwirfoddoli rhaglenni, cyrsiau hyfforddi, gwyddor dinasyddion, clwb swyddi, rheoli coetiroedd cymunedol a gwasanaeth tanwydd coed.

**Cydweithredu:** bydd Heddlu Gogledd Cymru a Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru'n gweithredu amrywiaeth o fesurau i fynd i'r afael â phroblemau camddefnydd allweddol fel llosgi bwriadol, gweithgareddau 4x4 anghyfreithlon ac ymosodiadau gan gŵn ar dda byw ar y comin.

**Rhaglenni Addysg:** fe wnaeth ysgolion gymryd rhan yn seiliedig ar themâu amgylchedd y cwricwlwm cenedlaethol. Defnyddio'r comin i hyrwyddo iechyd a lles er mwyn annog ymarfer corff yn yr awyr agored ar y comin.

**Sgiliau Gwledig a Threftadaeth:** byddai croesawu datblygiad twristiaeth effaith isel, yn seiliedig ar gynnyrch o ansawdd, yn cynnig potensial i ddod â budd economaidd i gymunedau lleol a diogelu a chynnal gwasanaethau lleol.

**Cydlyniant Cymunedol:** ymgysylltu'n effeithiol â chroestoriad eang o'r gymuned a chyfathrebu ac addysgu ynghylch arwyddocâd y gweithgareddau sy'n cael eu cynnal a pha mor berthnasol ydynt i'r comin.

**Sgiliau Gwledig a Threftadaeth:** defnyddio'r comin fel adnodd addysg, fel y gall trigolion ennill sgiliau a chael budd o adnoddau rhad ac am ddim Helygain mewn ffordd gynaliadwy.

**Cymryd Rhan**: Dewch i grwydro Mynydd Helygain a mwynhau golygfeydd godidog dros aber Afon Dyfrdwy a Bryniau Clwyd. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Pharcmon Mynydd Helygain: 01352 703900.

Teithiau tywys am ddim ar gael drwy dudalen we Darganfod Helygain.
www.halkynmountain.co.uk/darganfod-helygain/?lang=cy Gwefan: www.halkynmountain.co.uk/?lang=cy

# Ffermio Gwastadeddau Gwent yn Gynaliadwy

**Sefydliad arweiniol:** RSPB Cymru
**Dyfarniad Grant:** £554,953
**Lleoliad:** Gwlyptiroedd De-ddwyrain Cymru
**E-bost:** Fiona.Walker@rspb.org.uk

Prosiect sy'n cymryd camau ar y cyd â rhanddeiliaid gan gynnwys ffermwyr a phartneriaid eraill fel Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gwent ac Ymddiriedolaeth Cadwraeth Cacwn i ddatblygu dealltwriaeth, gwybodaeth, y sgiliau a'r profiad sydd eu hangen i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yng Ngwastadeddau Gwent.

Mae ffermwyr sy'n cymryd rhan a phartneriaid y prosiect wedi gweithredu er mwyn gwella'r adnoddau naturiol yn yr ardal, yn enwedig rheoli dŵr a phridd. Mae'r canlyniadau'n cynnwys gwella a chreu cynefinoedd, gan gynnig potensial sylweddol i wella cyflwr pridd, a sefydlu lleiniau cynefinoedd ar gyfer peillwyr, a fydd yn gweithredu fel lleiniau clustogi wrth ochr cyrsiau dŵr hefyd. Gan fanteisio ar natur ddaearyddol wastad ei ardal, mae'r prosiect yn ceisio sicrhau cymaint o gyfleoedd â phosibl ar gyfer beicio heb draffig, yn ogystal â chyfleusterau mynediad a hamdden sy'n bodoli eisoes ar ffermydd, a chreu cyfleusterau newydd.

Nod cyffredinol prosiect Cynllun Rheoli Cynaliadwy Cynnal Gwastadeddau Gwent:

- Sefydlu arferion gorau wrth reoli tir yn gynaliadwy ac wrth wneud hynny nodi'r defnydd tir/gwaith rheoli tir a fydd yn gwrthdroi difrod i ecosystemau ac yna'n parhau i'w cynnal mewn cyflwr iach.
- Dylanwadu ar fecanweithiau a'u sefydlu i hwyluso gwaith rheoli tir cynaliadwy ar gyfer y dirwedd gyfan er mwyn sicrhau ecosystemau iach.





Llwyddwyd i gyflawni'r amcanion hyn drwy'r canlynol:

- Gwaith cyfalaf a gwaith rheoli llystyfiant fel rheoli ffosydd, adfer perllannau, bôn-docio, sefydlu gwndwn llysieuol, adeiladu a chodi blychau nythu.
- Paratoi llyfryn cynghori ar gyfer ffermwyr ar gamau rheoli allweddol ar gyfer Rheoli Tir yn Gynaliadwy ar y Gwastadeddau.
- Hwyluso mynediad at wasanaethau cynghori a ariennir yn allanol gan gynnwys Nutrient.
- Hwyluso mynediad at wasanaethau cynghori a ariennir yn allanol gan gynnwys Cynlluniau Rheoli Maethynnau (a ariennir gan Cyswllt Ffermio) ac Asesiadau Ansawdd Dŵr (a ariennir gan CNC).
- Comisiynu astudiaethau dichonoldeb a oedd yn cynnwys effaith tanddraenio ar hydroleg, cyfleoedd i dalu am wasanaethau ecosystemau, costau ar gyfer adfer a chynnal tirwedd gwlyptir yng Ngwastadeddau Gwent, ac effaith arferion ffermio amgylcheddol cynaliadwy ar broffidioldeb a hyfywedd ariannol.
- Modelu a monitro ecolegol.
- Cysylltiadau allanol.



**Hyfforddiant a chreu swyddi:** Un aelod staff llawn amser newydd wedi'i gyflogi drwy gydol y prosiect, a hwyluso tri gweithdy (Talu am Wasanaethau Ecosystemau) a gwblhawyd gydag o leiaf 60 o fynychwyr

**Ymgysylltu â'r gymuned:** Ymgysylltu â rhanddeiliaid gan gynnwys 10 o deuluoedd ffermio, CNC, cynrychiolwyr ffermio a chyrff anllywodraethol, a chymunedau lleol amrywiol; 60 o unigolion, 30 o ffermwyr, llunwyr polisïau a phenderfyniadau drwy ymweliadau eiriolaeth a diwrnodau arddangos

**Rheoli a phlannu coetiroedd:** 150 o flychau nythu Golfan y Mynydd wedi eu codi ar Wastadeddau Cil-y-coed. 8 o flychau Tylluan Wen wedi eu hadeiladu a'u codi. 10 o flychau Cudyll Coch wedi eu hadeiladu. 24 o flychau'r Dylluan Fach wedi'u hadeiladu. 259 o flychau nythu wedi'u gosod mewn cynefinoedd addas

**Ymgysylltu â'r gymuned:** Trefnu casgliad ysbwriel cymunedol ym Mharc Taf Bargoed o amgylch y llyn ar y cyd â Cadwch Cymru'n Daclus, Cynghorwyr a staff yr Aelod lleol o'r Senedd. Bu'r prosiect yn cymryd rhan yn nigwyddiad Glanhau'r Comin hefyd a drefnwyd gan Barcmon Cominau Gelligaer a Merthyr ac roedd nifer o asiantaethau llywodraethol a lleol yn bresennol

**Ymgysylltu â'r gymuned:** Roedd 26 o wirfoddolwyr yn rhan o'r cynllun (25 o dirfeddianwyr wedi ymgysylltu) i wneud blychau nythu a monitro, gan gynnwys gweithdy gyda phobl ifanc

**Ymgysylltu â'r gymuned:** ymgysylltu â rhanddeiliaid, ffermwyr a theuluoedd, CNC, cynrychiolwyr ffermio a chyrff anllywodraethol, unigolion, llunwyr polisïau a phenderfyniadau drwy ymweliadau eiriolaeth a dyddiau arddangos.

**Adfer cynefinoedd:** rheoli nodweddion SoDdGA yn gadarnhaol, gan gynnwys gwaith ffosydd, bôn-docio coed helyg a rheoli perllannau a chynnal asesiadau ar gyfer gwelliannau i gynefinoedd dŵr, maethynnau a pheillwyr a chamau gweithredu cadarnhaol er mwyn sicrhau ansawdd dŵr, gwelliannau i waith rheoli maethynnau a darparu cynefinoedd i beillwyr ar sawl fferm.

**Datblygu Seilwaith Gwyrdd:** astudiaeth i ddatblygu cynlluniau Talu am Wasanaethau Ecosystemau lleol pwrpasol, a chynnal ymchwiliad i effeithiau tanddraenio ar dirwedd Gwastadeddau Gwent, a chwblhau Asesiad Gwasanaethau Ecosystemau o ardal y prosiect.

**Rheoli Ansawdd Pridd:** Cynllun Rheoli Maethynnau – fe wnaeth tair fferm elwa o wasanaeth am ddim y cynllun rheoli maethynnau drwy Cyswllt Ffermio. Rhoddwyd adroddiadau ysgrifenedig i'r ffermydd hyn yn mynd i'r afael ag arbedion ar amser a chost yn ogystal â chyfrannu at dargedau ansawdd dŵr.

**Rhaglenni Addysgol:** Asesiadau Ansawdd Dŵr – mae rhai ffermydd sy'n rhan o'r prosiect yn ffermydd llaeth a chraffwyd ar seilwaith fferm y ffermydd hyn gan brosiect asesu ansawdd dŵr CNC. Mae dwy fferm wedi derbyn argymhellion a fydd yn eu helpu gydag unrhyw reoliadau ansawdd dŵr newydd.

**Rhaglenni Addysgol:** mae monitro cardwenyn meinlais yn dangos maint y gwaith monitro hwn, gan gynnwys, ffotograffau o safleoedd a arolygwyd, map o safleoedd yr ymwelwyd â hwy, a dogfen esboniadol. Cafodd y gwaith monitro ei wneud gyda chyngor gan Sinead Lynch o Ymddiriedolaeth Cadwraeth Cacwn.

**Rheoli a phlannu coetiroedd:** sefydlu ac ailsefydlu perllannau ar draws y Gwastadeddau drwy ddefnyddio amrywogaethau lleol o goed ffrwythau i sefydlu perllannau newydd. Prynu amrywogaethau lleol o goed ffrwythau i helpu i ailsefydlu perllannau sydd wedi dirywio, gan ddefnyddio contractwyr i glirio perllannau sydd wedi gordyfu â phrysgwydd ac sydd o ganlyniad, yn anghynhyrchiol ac yn olaf, rhoi coed ffrwythau a rhoi cyngor i berchnogion perllannau.

**Cymryd Rhan**: Os hoffech chi gymryd rhan yn y gwaith ar Wastadeddau Gwent, cysylltwch â'r Bartneriaeth Lefelau Byw www.lefelaubyw.co.uk/

Gwefan RSPB Cymru www.rspb.org.uk/cy/about-the-rspb/at-home-and-abroad/cymru/
Dathlu Gwastadeddau Gwent www.lefelaubyw.co.uk/

RSPB@natures_voice    @rspb_love_nature

# Ecosystemau Afonydd Gwy, Ieithona Hafren (WISE)

**Sefydliad arweiniol:** Sefydliad Gwy ac Wysg
**Dyfarniad Grant:** £530,215
**Lleoliad:** Llandrindod i Drefyclo
**E-bost:** simon@wyeuskfoundation.org

Fe wnaeth y prosiect cydweithredol hwn gydweithio â phartneriaeth ddalgylch sefydledig, gan gynnwys tirfeddianwyr a chymunedau lleol i wella'r adnoddau naturiol mewn pedwar dalgylch llai a thri dalgylch mwy o faint gan gwmpasu tirwedd eang sy'n ymestyn ar hyd darn o ddalgylch Afon Gwy. Cymerwyd camau i wella ansawdd pridd mewn tir amaethyddol, creu coetir i wneud y gorau o'r potensial i leihau'r risg o lifogydd, gwella cynefinoedd ar gyfer gwell bioamrywiaeth ac ansawdd dŵr a gwell seilwaith ar fuarthau ffermydd i leihau llygredd.

Roedd y prosiect yn cynnwys cymunedau gwledig a busnesau amaethyddol yn yr ardal i'w helpu i ddeall a gweithredu er mwyn sicrhau bod ecosystemau'n gwella yn y tymor hir. Hefyd er mwyn deall bod y gwasanaethau y mae'r ecosystemau hyn yn eu darparu yn hanfodol ar gyfer helpu i fynd i'r afael ag effeithiau newid yn yr hinsawdd a llifogydd, ac yn eu tro'n cynnig cyfleoedd ar gyfer gwell iechyd a llesiant. Mae'r prosiect wedi archwilio'r potensial ar gyfer buddsoddiad preifat hefyd er mwyn sicrhau buddion o ran ansawdd dŵr a storio carbon. Cefnogir gweithgareddau a wneir gan y prosiect gan raglen fonitro gynhwysfawr yn ystod cyfnod gweithredol y prosiect ac ar ôl ei gwblhau.







Mae'r prosiect mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Afonydd Hafren, ac mae wedi mynd i'r afael â rheoli maethynnau, iechyd pridd, lefelau dŵr a bioamrywiaeth. Yn ogystal â sicrhau gwerth amgylcheddol, gall rheoli tir yn effeithiol wella ansawdd dŵr mewn afonydd, lleihau'r risg o lifogydd, gwella ansawdd pridd, gwella bioamrywiaeth, a gwella prosesau atafaelu carbon hefyd.

Bydd Cynghorwyr Dalgylch o ymddiriedolaethau'r ddwy afon yn cydweithio â ffermwyr er mwyn dod o hyd i ffyrdd ymarferol y gallant newid arferion amaethyddol er budd eu busnes a'r amgylchedd dyfrol, fel;

- Plannu gwrychoedd a choed
- Gosod argae sy'n gollwng
- Gwella ansawdd y pridd
- Pyllau arafu/pantiau gwyrdd
- Gwahanu dŵr glân a budr
- Profi pridd gan gynnwys lefelau deunydd organig
- Asesiadau o strwythur pridd a phrofion ymdreiddio
- Mapio risgiau.

Mae'r prosiect wedi datblygu cynllun sy'n talu i ffermwyr liniaru yn erbyn llifogydd, gan leihau'r angen am amddiffynfeydd "caled" costus ymhellach i lawr yr afon. Mae "rheoli llifogydd yn naturiol" yn cynnwys gweithio gyda phrosesau a  nodweddion hydrolegol a morffolegol er mwyn rheoli ffynonellau a llwybrau dŵr llifogydd. Yn aml mae'r technegau hyn yn syml, ar raddfa fach ac yn gost-effeithiol ar gyfer yr amgylchedd a busnes y fferm.

**Ansawdd Dŵr.** Mae'r prosiect yn cydweithio â chyflenwyr Tesco yn ardal y prosiect ar reoli maethynnau hefyd, gan ddarparu cyngor a chyllid grant i leihau'r risg o lygredd gwasgaredig a llygredd yn y tarddle ac i wella iechyd pridd. Bydd hyn yn arwain at fuddion i ddefnyddwyr eraill dalgylch Gwy a bydd y prosiect yn datblygu marchnadoedd ar raddfa dalgylch ar gyfer ffosffad a'r gobaith yw y bydd yn gwneud yr un fath ar gyfer rheoli llifogydd a sychder. Dyma sut y bydd ein hamgylchedd yn cael ei reoli yn y dyfodol a bydd datblygu'r marchnadoedd hyn yn golygu y gellir moneteiddio a gostwng costau allanol llygredd (fel dyddiau pysgota a gollwyd oherwydd gordyfiant algâu), gan wella cyflwr yr Ieithon i gyd a phrif ran Afon Gwy.

**Meithrin Cydweithrediad a Phartneriaethau:** 8 Ymweliad fferm Rheoli Llifogydd yn Naturiol gan gynnwys mapio cyfleoedd fferm gyfan, profi pridd, a chwblhau asesiadau cywasgu a phrofion ymdreiddio

Cyflwyno dwy sesiwn min nos i 37 o fynychwyr yn hyrwyddo gwaith plannu coetiroedd law yn llaw â Cyswllt Ffermio

Mae'r prosiect wedi ymweld ag o leiaf 275 o ffermydd sy'n cwmpasu 41,000 hectar o dir amaethyddol yn y canolbarth

**Ymgysylltu â'r Gymuned:** Mae'r prosiect wedi ymgysylltu â 1255 o randdeiliaid

**Rheoli a Phlannu Coetiroedd:** Cefnogi 35 hectar o goetir, plannu 1.8 hectar o goetir newydd. Plannu cyfanswm o 15,701 o goed

**Rheoli a Phlannu Coetiroedd:** Plannu 1428m o wrychoedd a 3.6 hectar o goetiroedd torlannol newydd

**Gwytnwch Ecosystemau:** wedi darparu adroddiad fferm pwrpasol a datblygu mapiau cyfleoedd at ddefnydd y ffermwr, sy'n tynnu sylw at y buddion presennol y mae'r fferm yn eu cyfrannu at yr amgylchedd a'r gymdeithas ehangach yn ogystal â chyfleoedd ychwanegol.

---

**Lleihau'r Risg o Lifogydd:** bydd mapiau o risg llifogydd lleol yn cael eu cynhyrchu gan nodi cyfleoedd i reoli llifogydd yn naturiol.

---

**Cynyddu Bioamrywiaeth:** wedi'i gefnogi gan waith adnewyddu gwrychoedd, creu gwlyptiroedd a chreu coetiroedd.

---

**Ansawdd Pridd, Aer a Dŵr:** wedi'i gefnogi gan waith adnewyddu gwrychoedd, plannu coed, creu coetiroedd, a phrofi ac asesu pridd.

---

**Sgiliau Gwledig a Threftadaeth:** gyda chefnogaeth rhaglenni gwirfoddol a dulliau traddodiadol.

---

**Iechyd a Llesiant:** darparu gwybodaeth sy'n hanfodol ar gyfer helpu i fynd i'r afael ag effeithiau'r newid yn yr hinsawdd a llifogydd, ac yn ei dro darparu cyfleoedd.

---

**Gwytnwch Ecosystemau:** Roedd y prosiect yn cynnwys y cymunedau gwledig a'r busnesau amaethyddol yn yr ardal i'w helpu i ddeall a gweithredu er mwyn sicrhau gwelliant hirdymor i ecosystemau a deall gwasanaethau'r ecosystemau hyn.

**Cymryd Rhan**: Mae gwirfoddoli ar gyfer llawer o'r gweithgareddau uchod yn ffordd o fwynhau'r awyr agored a dod i adnabod yr afonydd sy'n rhoi cryn foddhad. Os oes gennych ddiddordeb mewn gwaith gwirfoddol, a fyddech cystal â chwblhau'r ffurflen ganlynol i gofrestru gyda'r Sefydliad. Cofrestru i Wirfoddoli | Sefydliad Gwy ac Wysg (wyeuskfoundation.org)

Cyswllt admin@wyeuskfoundation.org +44 (0) 1874 711714

www.wyeuskfoundation.org/the-wye-ithon-severn-ecosystems-wise-project

# Coetiroedd Integredig Cymru: Atebion sy'n seiliedig ar natur

**Sefydliad arweiniol:** Coed Cymru Cyf
**Dyfarniad Grant:** £413,194
**Lleoliad:** Cymru gyfan
**E-bost:** garethd@coedcymru.org.uk

Prosiect ar raddfa tirwedd sy'n cefnogi rhanbarthau blaenoriaeth ledled Cymru i gynnal a chreu coetiroedd ac i adfer, cynnal a chreu gwrychoedd, sy'n darparu ystod eang o fuddion ac yn cynnwys mwy na hanner y gorchudd coetir yng Nghymru. Mae'r prosiect yn cefnogi rhoi prosiectau creu a rheoli coetiroedd sydd wedi'u hintegreiddio â ffermio yng Nghymru ar waith. Mae gweithgareddau'r prosiect yn cynnwys y canlynol:

- Parhau i gefnogi'r prosiect Daw Eto Ddail Ar Fryn.
- Datblygu creu coetir yn unol â Safon Goedwigaeth y DU (UKFS).
- Cefnogi cynaeafu a rheoli parseli gwasgaredig llai o goetiroedd ar ffermydd a newid y coed yn llydanddail, gan gynnwys creu cytundeb fframwaith ar gyfer contractwyr.
- Cefnogi prosiectau creu coetiroedd gwasgaredig a rhoi mynediad at blanhigion a gwaith paratoi tir yn yr un modd â chynlluniau mwy.
- Galluogi perchnogion coetiroedd bach yn gyffredinol i fanteisio ar yr un cyfleoedd i'r farchnad a rheoli eu prosiectau coetir i'r un safonau ac ansawdd rheoli (gan gynnwys coedwigoedd iechyd a diogelwch ac ati) â chynlluniau coedwigaeth mawr a Cyfoeth Naturiol Cymru/Ystad Goed Llywodraeth Cymru.







**Hyfforddiant a chreu swyddi:** Swyddog Prosiect SMS wedi'i benodi i ddatblygu allbynnau'r prosiect ar y cyd â menter Daw Eto Ddail Ar Fryn, drwy ddenu ffynonellau ehangach o gyllid i gynlluniau cymunedol ar raddfa lai

**Rheoli a Phlannu Coetiroedd:** Wedi rheoli 907ha o goetir a mapio ffiniau ffermydd dros 8,800 hectar ar gyfer perchnogion tir sydd wedi ymgysylltu'n weithredol o dan y prosiect

**Datblygu seilwaith gwyrdd:** Mae'r prosiect yn darparu gwahanol fathau o gysylltedd ar lefel ehangach y dirwedd, gan gynnwys arddangos gwaith plannu coed a hwyluswyd gan y prosiect tuag at gysylltedd cynefinoedd ehangach

**Meithrin cydweithrediad a phartneriaethau:** Mae'r prosiect wedi ymgysylltu â 10 rhwydwaith ar draws y diwydiant ac mae o leiaf 75 o randdeiliaid wedi bod yn rhan o'r prosiectau

**Trosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesi (KT&I):** Mae o leiaf 50 o fentrau perchnogaeth tir/ffermio bach i ganolig wedi cael cymorth gweithredol gan y prosiect i gael caniatâd neu gyngor ac arweiniad i weithredu gwaith plannu coed neu reoli coetiroedd a chyflwyno gwaith EOI ar gyfer gwaith cyfalaf

**Rheoli a Phlannu Coetiroedd:** Datblygwyd templed cynllun creu coetir a phroses fapio a chymeradwyo a all gysylltu â dulliau dilysu allanol i ddarparu proses gadarn yn unol â UKFS

**Datblygiad lleol dan arweiniad y gymuned:** Cefnogwyd 4 o ymgyrchoedd cydweithio

**Ymgysylltu â'r gymuned:** Mae'r prosiect wedi gweithio gyda 7 rhwydwaith

**Ymgysylltu â'r gymuned:** Mae o leiaf 300 o randdeiliaid wedi bod yn rhan o'r prosiectau, ynghyd â holl ymgyngoreion unrhyw gynlluniau plannu coed a thrwyddedau cwympo coed a baratowyd


**Ymgysylltu â'r gymuned:** Mae o leiaf 275 o fentrau perchnogaeth tir/ffermio wedi bod yn rhan o'r prosiect

**Sgiliau Gwledig a Threftadaeth:** Cefnogwyd y gwaith o gyflawni prosiect Cynllun Rheoli Cynaliadwy Barrog i greu gwrychoedd a chysgod ar gyfer pridd a dŵr ac i ymgorffori gwaith monitro carbon i'r prosiect, cefnogwyd y broses o greu cynllun peilot 'cod carbon gwrychoedd'. Cwblhawyd Cam 1 a chafodd dros 5,000 metr o wrychoedd eu creu a'u hadfer

**Rheoli a Phlannu Coetiroedd:** Cefnogwyd dros 28 o brosiectau creu coetiroedd; a rhoddwyd mynediad at blanhigion a gwaith paratoi tir yn yr un modd â chynlluniau mwy

**Trosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesi (KT&I):** fel rhan o'r prosiect gwerthuso prosiect, darparwch fapiau cysylltedd sy'n dangos effaith y prosiect yn erbyn, er enghraifft, haenau cysylltedd cynefinoedd y coetir.

---



**Rheoli a Phlannu Coetiroedd:** drwy gefnogi prosiectau creu a rheoli coetiroedd perthnasol, mae'r prosiect Coetiroedd Integredig wedi gallu pennu agweddau ffermwyr tuag at blannu coed a rheoli coetiroedd ar eu ffermydd, a sefydlu'r costau a'r risgiau gwirioneddol o wneud hynny.

**Cymryd Rhan**: Coed Cymru 01686 650 777

Gwefan: Coed Cymru – Sefydliad Coetir Cymru


Coed Cymru (@CoedCymru)/X (twitter.com)    Coed Cymru | Y Drenewydd | Facebook

# Cyflenwi Taliadau am Wasanaethau Ecosystemau: Pumlumon

**Sefydliad arweiniol:** Ymddiriedolaeth Natur Sir Drefaldwyn
**Dyfarniad Grant:** £269,319
**Lleoliad:** Mynyddoedd Cambria
**E-bost:** clive@montwt.co.uk

Prosiect cydweithredol yw hwn sy'n dod â chymunedau lleol, rheolwyr tir, asiantaethau statudol a busnesau at ei gilydd i'w hailgysylltu'n gymdeithasol ac yn economaidd ag amgylchedd naturiol eu hardal. Trwy ychwanegu proses o ddysgu cydweithredol gyda phrosiectau a sefydliadau Taliadau am Wasanaethau Ecosystemau eraill (PES) ledled Cymru a thu hwnt, y gobaith yw y bydd y prosiect hwn yn sicrhau gwerth ychwanegol sylweddol. Mae'r cam tuag at sicrhau cytundebau PES diriaethol yn un nad yw llawer o gynlluniau a phrosiectau arloesol wedi'i gymryd eto; trwy gyfuno gwybodaeth a rhannu dysgu o'r prosiect hwn ag arloeswyr PES eraill, gall y prosiect hwn wneud cyfraniad gwirioneddol at gynnydd PES yn ehangach. Gan adeiladu ar waith blaenorol, bydd y prosiect yn edrych ar ddulliau newydd o lunio cytundebau PES fel mecanwaith cymorth hirdymor sy'n cynnal ei hunan er mwyn rheoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy.

Mae Prosiect Pumlumon yn ffordd radical o ailfeddwl sut y gallai tirweddau ucheldir Prydain weithio. Ar draws 40,000 hectar o Fynyddoedd Cambria; arloesi economi ucheldirol sydd wedi'i hadeiladu o amgylch bywyd gwyllt, ecoleg a chynaliadwyedd hirdymor. Wedi'i enwi ar ôl mynydd Pumlumon (canol), mae ardal y prosiect yr un maint â Birmingham ac mae'n cynnwys tarddiad afonydd Hafren, Gwy, a Rheidol.








Mae llwyddiant y prosiect yn golygu bod effeithiau llifogydd ar nifer enfawr o ffermydd, cartrefi a busnesau, yn trawsnewid yr economi leol, yn diogelu storfeydd enfawr o garbon, ac yn dod â bywyd gwyllt sydd wedi diflannu yn ôl.

Dyluniwyd prosiect SMS PES Pumlumon i gymryd y camau nesaf i wireddu cytundebau PES yn seiliedig ar yr hyn yr oeddem yn ei ddeall oedd y rhwystrau allweddol i gynnydd, gyda ffocws penodol ar adnabod/ymgysylltu â phrynwyr ac adeiladu perthnasoedd rhwng prynwyr, cyfryngwyr, perchnogion tir a rhanddeiliaid eraill.

Nod y prosiect oedd gwneud y canlynol:

- Sefydlu cytundeb (neu gytundebau) PES byw o fewn yr ardal PP.
- Cynnal ymchwil i gynhyrchu dysgu a allai lywio a chefnogi datblygu, sefydlu a chyflwyno modelau PES yn ardal Prosiect Pumlumon, ledled Cymru (a thu hwnt).

*Mae wastad wedi bod yn brosiect technegol sy'n dwyn ynghyd syniadau ecolegol newydd, economeg cadwyni cyflenwi a'r broses o ddatblygu polisi yn Llywodraeth Cymru. Mae'r syniad, fodd bynnag, yn syml: y cyfoethocach ein hamgylchedd naturiol, y mwyaf o wasanaethau y gall eu darparu i ni – a'r mwyaf o les y bydd inni fuddsoddi yn y byd naturiol.*

Clive Falkner (MWT)

**Ymgysylltu â'r gymuned:** Llwybr Sain Glaslyn a Bugeilyn. Taith ddifyr a llawn gwybodaeth o dirwedd eithriadol yng ngogledd Mynyddoedd Cambria, gan alw heibio golygfan wych Foel Fadian a dau lyn gwahanol iawn Glaslyn a Bugeilyn

**Rhaglenni Addysgol:** Sefydlodd y prosiect Grŵp Dysgu Cydweithredol i hwyluso'r broses o gyfnewid gwybodaeth, cefnogi a rhannu dysgu ymhlith prosiectau sy'n gweithio i ddatblygu dulliau PES i gefnogi SMNR. Cymerodd 53 o sefydliadau/unigolion ran yn y Grŵp yn ystod y prosiect

**Trosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesi (KT&I):** Bu 114 o randdeiliaid yn rhan o'r gwaith ymgysylltu drwy'r gweminarau a'r gweithdai ar-lein. Cyrhaeddwyd dros 70 o sefydliadau

**Trosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesi (KT&I):** Cynhaliwyd asesiadau Gwasanaeth Ecosystemau ac ymchwil i'r gadwyn gyflenwi – asesiad technegol manwl o faint ecosystemau allweddol a gwasanaethau ecosystem o fewn ardal y prosiect. Roedd hyn yn cynnwys mapio, amcangyfrif rhifiadol a phrisiad. Roedd hefyd yn cynnwys tystiolaeth o adeiladu cadwyni cyflenwi posibl i gysylltu ystod o wasanaethau ecosystem â darpar brynwyr

**Meithrin cydweithrediadau a phartneriaethau:** Mae'r prosiect wedi ymgysylltu â 23 o wahanol sefydliadau 'prynu' ecosystemau

**Trosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesi (KT&I):** Dosbarthodd y prosiect y gwersi a ddysgwyd i Lywodraeth Cymru, Prifysgol Aberystwyth a'r Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt mewn ystod eang o ffyrdd, gan gynnwys rhannu canfyddiadau, recordio darlithoedd, gweithdai, a sesiynau briffio anffurfiol

**Trosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesi (KT&I):** Adroddiadau ysgrifenedig sy'n cynnwys gwybodaeth fanwl am weithgareddau, dull a chanfyddiadau megis tystiolaeth o brofiad y prosiect o ddatblygu prosiect achrededig Cod Mawnogydd; yng nghyd-destun tystiolaeth ehangach am y Cod Mawnogydd fel mecanwaith i gefnogi SMNR

**Trosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesi (KT&I):** Cwblhawyd 3 astudiaeth dichonoldeb sy'n adeiladu ar ddysgu a pharhawyd i ddatblygu cysylltiadau trwy gydol y prosiect

**Ymgysylltu â'r gymuned:** bu 40 o randdeiliaid o ardal Pumlumon yn rhan o'r prosiect. Roedd hyn yn cynnwys: perchnogion tir a ffermwyr, ffermwyr tenant, preswylwyr, academydd, cynrychiolwyr o sefydliadau lleol a grwpiau ymgyrchu.

---

**Trosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesi (KT&I):** cynhyrchodd y prosiect gryn dipyn o dystiolaeth a dysg yn ymwneud â'r her o sefydlu cytundebau PES fel cyfraniad at gyflawni SMNR.

---

**Trosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesi (KT&I):** dealltwriaeth o'r cyfleoedd a'r materion sy'n gysylltiedig â gwireddu cytundebau PES yn ardal Pumlumon ac yn ehangach. Mewnwelediadau sy'n benodol i'r cyfnod presennol ac i gyd-destunau penodol; yn ogystal â'r rheini sy'n ymwneud â materion a fframweithiau y mae angen eu datblygu yn fwy cyffredinol er mwyn gallu cyflenwi cynlluniau PES penodol; ac i'r prosesau y mae eu hangen i barhau i ddatblygu seilwaith a chyd-destun yn ymarferol a fyddai'n caniatáu i PES gyfrannu ar raddfa i SMNR yng Nghymru.

---

**Meithrin cydweithrediadau a phartneriaethau:** sefydlwyd a datblygwyd ystod eang o rwydweithiau a chysylltiadau sy'n berthnasol i wneud cynnydd gyda PES, gan gynnwys rhanddeiliaid cymunedol, y gymuned ffermio, a sefydliadau perthnasol megis sefydliad o'r Mynydd i'r Môr, Fforwm Systemau Cymru, Ecosystem Knowledge Network a Flora and Fauna International.

**Cymryd Rhan**:

https://www.montwt.co.uk/projects/pumlumon-project

E-bost: info@montwt.co.uk

# Pennal 2050

**Sefydliad arweiniol:** Partneriaeth Pennal Cyf
**Dyfarniad Grant:** £848,283
**Lleoliad:** Dalgylch Dyfi, Pennal
**E-bost:** pennalpartners@aol.com

Mae'r prosiect – Pennal 2050 – yn gynllun strategol hirdymor uchelgeisiol i adeiladu amgylchedd gwydn a chynaliadwy a chymuned wledig yn seiliedig ar bartneriaeth gymunedol gydweithredol ar raddfa tirwedd o fwy na 40 o bartneriaid sy'n berchnogion tir, grwpiau cymunedol, sefydliadau amgylcheddol, undebau ffermio a busnesau lleol gan gynnwys y sectorau twristiaeth, hamdden, iechyd, ffermio a hamdden, a Cyfoeth Naturiol Cymru.

Mae'r prosiect yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â nifer o heriau lleol, gan gynnwys gwell prosesau ar gyfer rheoli a lliniaru llifogydd dalgylch arfordirol ac ucheldirol. Fe wnaeth y prosiect hefyd wella ansawdd dŵr/afonydd, gwella bioamrywiaeth a chynefinoedd, gwella darpariaeth mynediad, cynyddu cyfleoedd cyflogaeth, twristiaeth ac iechyd a chryfhau cadernid economaidd a chymdeithasol.







Gan gydweithio fel cymuned a manteisio ar arbenigedd lleol a chynnwys pobl ar draws y gymuned, nod y prosiect yw mynd i'r afael â'r bygythiadau allweddol yn nalgylch Dyfi. Bwriad y fenter gymunedol hon sydd dan arweiniad ffermwyr yw dod â phobl a natur at ei gilydd yn y tymor hir i:

- Wella bioamrywiaeth drwy wella a chysylltu cynefinoedd
- Herio effeithiau newid yn yr hinsawdd
- Annog gwydnwch gwledig a gweithgaredd economaidd
- Ymgysylltu â thrigolion i gymryd camau cadarnhaol i wella eu hamgylchedd ar gyfer eu hiechyd a'u lles eu hunain a chenedlaethau'r dyfodol trwy wirfoddoli ac ymuno mewn gweithgareddau cymunedol. Mae ein Eco-warcheidwaid iau yn yr ysgol yn plannu coed, yn dysgu sut y gall data mawr wneud mapiau ar gyfer modelu newid, a darganfod pa rywogaethau sy'n byw yn ein hardal.

Prif elfennau'r prosiect ymchwil yw:

- **Eco-Gamau** – yn cynnwys plannu gwrychoedd, coed i ddarparu coridorau bywyd gwyllt. Rydym yn asesu ac yn monitro ein cyfalaf adnoddau naturiol – ein hasedau gwyrdd
- **Dyfroedd Clir** – yn cynnwys lleihau erydiad pridd a dŵr i wella ansawdd dŵr
- **Llif Araf** – yn cynnwys rheoli adnoddau naturiol i leihau faint o ddŵr sy'n rhedeg i mewn i'r pentref yn ystod digwyddiadau glaw dwys a bygythiad llifogydd
- **Rhosydd Iach** – yn cynnwys rheoli ein hucheldiroedd yn well drwy leihau rhedyn a defnyddio gwartheg yn ogystal â defaid i bori ar ben y bryniau i annog bywyd gwyllt fel bodaod tinwyn i fridio.

## PENNAL 2050 YN ENNILL PRIF WOBR

**Mae prosiect cymunedol yn ardal Machynlleth wedi cael ei gydnabod fel y gorau o'i fath yng Nghymru. Dewiswyd PENNAL 2050 fel enillydd yn yr adran Tirweddau, Natur a Choedwigaeth yn y digwyddiad "Dathlu Cymru Wledig" yn Llanfair-ym-Muallt, a gynhaliwyd gan Rwydwaith Gwledig Cymru i nodi 20 mlynedd o gyllid Ewropeaidd. Mae'r prosiect amgylcheddol, gyda chefnogaeth y Cynllun Rheoli Cynaliadwy, wedi galluogi pobl leol i gynllunio camau gweithredu i fynd i'r afael â heriau ar lefel tirwedd. Mae arferion gorau o ran cydweithio, arbenigedd, syniadau, technoleg a gwyddoniaeth wedi'u rhannu ar daith i wella'r ardal ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.**

**Partneriaeth Pennal, grŵp o 40 o bartneriaid ffermio arloesol, yw'r sefydliad arweiniol ym Mhennal 2050 – prosiect cydweithredol pum mlynedd sy'n ymestyn o Bont ar Ddyfi hyd at Aberdyfi bron. Mae'r prosiect â chefnogaeth Cyfoeth Naturiol Cymru, Parc Cenedlaethol Eryri a Chyngor Gwynedd yn ogystal â sefydliadau lleol fel Cyngor Cymuned Pennal, Cymdeithas Pysgodfeydd Newydd Dyfi, ysgolion a busnesau lleol. Mae'r prosiect yn gweithio gyda nifer o brosiectau rhyngwladol arloesol dan arweiniad y Brifysgol sy'n cynnwys ymchwil ar synhwyro o bell, sut mae canopi coed yn amsugno glaw a mapio rhywogaethau sydd mewn perygl.**

**Hyfforddiant a Chreu Swyddi:** Penodwyd ymgynghorydd amaeth-amgylcheddol ac ymgynghorydd rheoli prosiect i weithio ar fonitro tir/dŵr ac mae wedi bod mewn cysylltiad â CNC, Cyngor Gwynedd a Glastir

**Ymgysylltu â'r Gymuned:** Cynhaliwyd taith gerdded gymunedol gydag ecolegydd a fu'n cynorthwyo cerddwyr i adnabod pryfed ac adar – mynychodd dros 80 o bobl a chodwyd mwy na £1000 ar gyfer yr ysgol leol

**Ymgysylltu â'r Gymuned:** Bu disgyblion Ysgol Pennal yn helpu plannu coed; Mae cyfanswm o dros 120 o wirfoddolwyr wedi cymryd rhan mewn digwyddiadau Pennal 2050 yn ystod Blwyddyn 1 y cynllun

**Rheoli a Phlannu Coetiroedd:** Y cyfansymiau plannu yw: 1,440 o feryw a 375 o goed o rywogaethau brodorol fel coed Bedw Arian, Criafol, Ceirios Du, Derw Mes di-goes, Masarn Bach a Helyg Deilgrwn

**Rheoli a Phlannu Coetiroedd:** 526.5 metr o goed gwrychog fel Ysgaw, Coed Afalau Surion, Drain Gwyn, Oestrwydd, a Rhosynnau Gwyllt

**Ymgysylltu â'r Gymuned:** Teithiau cerdded cymunedol a ddenodd dros 100 o bobl gan gynnwys llawer o blant ac a arweiniodd at ddiddordeb mawr yn y prosiect a chyfraniadau pellach ato

**Ymgysylltu â'r Gymuned:** Mae meinciau a wnaed o fagiau silwair wedi'u hailgylchu wedi'u prynu ar gyfer llwybrau cyswllt Llwybr Arfordir Cymru

**Rhaglenni Addysgol:** Manteisiodd 60 o blant ysgol ar y cyfle a gynigiwyd gan y prosiect i ymweld â fferm laeth leol a dysgu am sut mae gwartheg yn cael eu godro ac yn cael gofal, a sut mae troi'r cynnyrch yn fenyn a chawsiau Cymreig. Cafodd y plant ysgol gyfle i flasu'r cynnyrch hefyd

**Rheoli a Phlannu Coetiroedd:** Cwblhawyd 35 o strwythurau llif araf sy'n gollwng, 20 ar dir CNC i gyd-fynd â 15 ar dir amaethyddol. Mae 20 cwlfert/ffôs wedi'u gosod ar dir coedwigaeth CNC i wasgaru dŵr i dir cyfagos yn hytrach nac i gyrsiau dŵr ac mae maes parcio gweithwyr coedwigaeth wedi'i uwchraddio i 1 maes parcio i'r cyhoedd

**Rhaglenni Addysgol:** Arolygon ecolegol wedi'u cwblhau; 8 afon/pwll (2 x 4 pwynt, yn y gwanwyn a'r hydref), adar mewn 4 lleoliad ac 1 arolwg gwyfynod. Mae'r prosiect wedi trefnu cofnodwr adar yn lleol, sy'n byw yng nghanol Pennal, i gadw cofnodion 3 lleoliad ac i gyfrannu at arolwg fawr ffermydd GWCT (adar)

**Rhaglenni Addysgol:** bydd gwaith arsyllu dronau tanddwr a gwblhawyd fel rhan o'r prosiect yn hyrwyddo STEM mewn ysgolion a chysylltiadau â'r amgylchedd, a gwybodaeth a gasglwyd yn cael ei defnyddio fel rhan o waith gwyddoniaeth dinasyddion neu adrodd ar rywogaethau.

---

**Trosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesi:** ecolegydd yn gweithio i fonitro adar a phryfed ar ddau lwybr allweddol o amgylch Pennal trwy gydweithio â phrosiect O'r Mynydd i'r Môr. Bydd y data'n llywio ein sylfaen dystiolaeth.

---

**Trosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesi:** mae'r prosiect wedi ariannu gorsaf dywydd mewn ysgol leol a bydd arbenigwr TG o Fangor yn gweithio gyda myfyrwyr ar wers STEM sy'n gysylltiedig â'r prosiect.

---

**Trosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesi:** bu'r prosiect yn arddangos gwaith i ddau academydd – un athro o Brifysgol Northumbria ac un arall o ogledd orllewin India sy'n gweithio ar brosiect gyda Llywodraeth Rhanbarthol India yn Utarrakhand i ddatblygu cymunedau cynaliadwy.

---

**Trosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesi:** prosiect synhwyro o bell – mae'r gwaith o fonitro unrhyw symudiad mewn malurion pren trwy synwyryddion o bell a osodwyd gan staff Prifysgol Caerwysg yn parhau. Bydd gwersi a ddysgir o'r prosiect hwn yn cefnogi cymunedau ymhellach i ffwrdd hefyd, gan gynnwys y rhai sydd dan fygythiad gan newid yn yr hinsawdd a daeargrynfeydd ee Nepal.

---

**Ymgysylltu â'r Gymuned:** canopi coed yn amsugno glaw a phrosiectau TG – Prifysgol Bangor. Mae gwirfoddolwyr lleol wedi cael eu hyfforddi i newid batris yn yr hybiau LO-RAN fel y gellir parhau i gasglu data o fesuryddion glaw a mesuryddion cyflymder llif yn y dalgylch.

**Cymryd Rhan**:

pennalpartners@aol.com

https://visitpennal.wales/y-prosiect/

# Cymuned Comin Uwch Gwyrfai

**Sefydliad arweiniol:** Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
**Dyfarniad Grant:** £418,010
**Lleoliad:** Caernarfon, Gwynedd
**E-bost:** dion.roberts@eryri.llyw.cymru

Mae'r prosiect hwn yn cael ei reoli gan gymdeithas parc cenedlaethol Eryri yn ardal amrywiol Comin Uwch Gwyrfai sy'n ymestyn tua 1000ha o gyrion 'trefol' i gopa anghysbell Mynydd Mawr. Mae'r ardal yn cynnwys amrywiaeth o gynefinoedd, gydag ardaloedd mawr o rostir ynghyd â glaswelltir asidig, llyn, tir gwlyb, a rhywfaint o fignen, yn ogystal â hen chwareli llechi a safleoedd o ddiddordeb archeolegol.

Nod y prosiect arloesol hwn oedd ceisio trawsnewid Comin Uwch Gwyrfai trwy ei ailgysylltu â chymunedau lleol. Ei amcanion oedd galluogi porwyr i weithio'n well gyda'i gilydd i bori'r comin, gwella bioamrywiaeth a bod o fudd i'r economi wledig leol. Roedd gweithgareddau ymarferol yn canolbwyntio ar adfer waliau cerrig traddodiadol, cynnal a chadw llwybrau a mynediad, cynlluniau pori cynaliadwy, rheoli rhostiroedd a lleihau'r risg o dân yn yr ardal drwy greu mannau atal tân a rheoli prysgwydd, ochr yn ochr ag ystod o fentrau cymunedol.

Roedd ymgysylltu â'r gymuned yn rhan bwysig o'r prosiect, ac roedd yr ysgol leol, Ysgol Rhosgadfan yn rhan o greu murlun mosaig newydd ar wal yr ysgol. Bu'r disgyblion yn gweithio gyda'r artist lleol, Ann Smith ar ddyluniad oedd yn dathlu rhai o rinweddau arbennig yr ardal. Un o nodau'r prosiect oedd annog pobl i fynd allan i archwilio a dysgu mwy am eu hardal leol, ac i'r perwyl hwn gwnaed gwaith cynnal a chadw ar lwybr Ffynnon Dŵr Oer a llwybr tram Rhosgadfan, yn ogystal â chynnal teithiau tywys yng nghwmni ecolegwyr a haneswyr.



Daeth y prosiect â grwpiau cymunedol lleol, plant ysgol a chynghorau cymuned ynghyd er mwyn iddynt allu nodi'r hyn sydd angen digwydd ac ymhle y dylai ddigwydd. Fe wnaeth y prosiect wella a chynyddu mynediad at y comin a defnydd hamdden ohono, gan greu cyfleoedd addysgol a chyfleoedd gwirfoddoli ar gyfer iechyd a lles, mwynhad a gweithgarwch corfforol, a hyn oll yn cyfrannu at gydlyniant cymunedol a chreu ymdeimlad o le.

Dywedodd Dion Roberts,
Swyddog Prosiect APCE:
*"Mae gweithio gyda chymuned Comin Uwch Gwyrfai dros y ddwy flynedd ddiwethaf wedi bod yn bleser mawr. Mae'r prosiect wedi bod yn llwyddiant mawr ac mae wedi cyflawni cymaint yn yr ardal drwy gydweithio â pherchnogion tir, unigolion a mentrau a busnesau lleol. Er i bandemig Covid-19 daro hanner ffordd drwy'r prosiect, roeddem yn ffodus na chafodd ormod o effaith ar fomentwm y prosiect. Mae mor braf clywed adborth mor bositif am waith y llwybr troed, gyda mwy o bobl yn archwilio eu milltir sgwâr".*

Dywedodd John Griffith, Ysgrifennydd Cymdeithas Pori Uwch Gwyrfai:
*"Ar ôl blynyddoedd o ymgynghori a phwyllgora rydym bellach yn gallu mwynhau ffrwyth ein llafur, ac rydym yn ddiolchgar i bawb sydd wedi bod ar y daith gyda ni. Rydym yn hyderus y bydd y comin sydd wedi'i adfer o fudd mawr i'r gymuned, y mae'r porwyr hefyd yn rhan ohoni. Mae'r murlun yn Ysgol Rhosgadfan hefyd yn deyrnged addas iawn i Griffith Davies, a achubodd y comin i'r bobl leol."*

**Adfer cynefinoedd:** Mae dros 2km o lwybrau wedi'u hadfer a'u creu ar draws y comin. Rheolir 1533 metr o waliau cerrig

**Adfer Mawnogydd:** 2 argae o falurion pren wedi'u gosod mewn ardaloedd mawnog fel y nodwyd gan arbenigwyr (dalgylch Gors Goch) ac argaeau mawn wedi'u gosod i flocio ffosydd. 100 hectar o bridd mawnog cyfoethog yn cael ei reoli

**Hyfforddiant a chreu swyddi:** Gweithio gyda Glynllifon i gynnal Hyfforddiant Rheoli Cynefinoedd i fyfyrwyr amaethyddol – 19 o fyfyrwyr wedi'u hyfforddi dros 7 diwrnod hyfforddi

**Adfer Cynefinoedd:** Cynyddwyd cysylltedd cynefinoedd trwy blannu coetiroedd – cyflawnwyd 6 hectar. Plannwyd 1315 metr o wrychoedd a ffensys dwbl

**Adfer Cynefinoedd:** 36 hectar o rosdir yn cael ei reoli (20ha o Fynydd Mawr), ac yn cael ei amddiffyn rhag gormod o goed conwydd

**Adfer Cynefinoedd:** Crëwyd 6 o leiniau cysgodi

**Ymgysylltu â'r gymuned:** Gosodwyd ardaloedd picnic gyda byrddau dehongli ar gyfer amwynder addysgol a dinesig

**Pori Cynaliadwy:** Tir pori i'r gymdeithas bori, sefydlwyd prosiect ar y cyd rhwng Awdurdod y Parc Cenedlaethol a Chymdeithas Pori Uwch Gwyrfai

**Ymgysylltu â'r gymuned:** Cynhaliwyd 4 digwyddiad cymunedol, a chynhaliwyd 7 taith dywys

**Ymgysylltu â'r gymuned:** Ymgysylltwyd â mwy na 500 o randdeiliaid

**Sgiliau Gwledig a Threftadaeth:** Crëwyd mosaig 12 troedfedd x 8 troedfedd, yn dangos nodweddion diddorol y comin, gyda chydweithrediad disgyblion ysgol lleol yn Ysgol Rhosgadfan

**Adfer Mawnogydd:** mae adfer trefn hydrolegol naturiol mawndiroedd yn adfer swyddogaeth, ac ar raddfa ddalgylch mae wedi creu elfen bwysig o waith rheoli perygl llifogydd yn gynaliadwy.

**Rheoli Ansawdd Pridd:** diogelwyd pridd llawn carbon trwy gael gwared ar yr aildyfiant conwydd.

**Adfer Cynefinoedd:** mae llecynnau manteisiol adar ysglyfaethus wedi gwella'n fawr trwy gael gwared ar goed, sy'n gwella bioamrywiaeth leol.

**Cynyddu Mynediad i Fannau Awyr Agored:** crëwyd gwell cysylltedd drwy blannu coetiroedd newydd neu reoli coetiroedd presennol.

**Datblygu Seilwaith Gwyrdd:** buddsoddi mewn symud gwartheg stoc trwy osod grid gwartheg ym mhentref Y Fron.

**Sgiliau Gwledig a Threftadaeth:** waliau cerrig sych wedi eu cyflwyno i adfer ffiniau hanesyddol mewn mannau strategol ar y comin.

**Cynyddu Mynediad i Fannau Awyr Agored:** fe wellodd llwybrau troed yn fawr, gan fod llawer yn anwastad ac yn orlawn; Mae'r gwaith hwn wedi galluogi mwy o fynediad i gerddwyr a marchogion.

**Pori Cynaliadwy:** gwellodd niferoedd rheoli pori yn sylweddol trwy ymgysylltu'n effeithiol â phorwyr, a arweiniodd at gynhyrchu cynlluniau rheoli gwartheg a strategaeth bori.

**Ymgysylltu â'r gymuned:** aethpwyd i'r afael ag ymgysylltu diwylliannol a chymunedol a'i wella drwy ddarparu digwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd megis darlithoedd ar awyr dywyll ac arddangosfa fyw ar dylluanod.

**Ymgysylltu â'r gymuned:** cynhaliwyd teithiau cerdded tywys gyda naturiaethwr, awdur a darlithydd lleol sy'n arbenigo mewn hanes naturiol lleol.

**Rhaglenni Addysgol:** roedd ymgysylltu ag ysgolion lleol yn un o nodau'r prosiect, a'r bwriad oedd dysgu'r disgyblion sut i ddeall y cynefin lleol a gwerthfawrogi'r ardal fel adnodd naturiol lleol.

**Cynyddu Mynediad i Fannau Awyr Agored:** darparwyd buddion iechyd a lles gan well llwybrau mynediad a bydd cyfleusterau hamdden cysylltiedig yn cael effaith hirdymor.

**Ymgysylltu â'r gymuned:** gwaddol y prosiect fydd y defnydd cynyddol o'r comin gan ysgolion, grwpiau a thrigolion lleol.

**Cymryd Rhan**: Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Gwefan: https://eryri.llyw.cymru/

E-bost: parc@eryri.llyw.cymru Rhif Ffôn: 01766 770274